# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 8 Ionawr 2024

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.30 - 13.35) (Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 1 – Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**2.1 SL(6)423 - Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2023**

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.35 - 13.40)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(6)419 - Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023**

(Tudalennau 2 - 5)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 2 – Adroddiad drafft

**3.2 SL(6)436 – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4)**

(Tudalennau 6 - 11)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 3 – Adroddiad drafft

LJC(6)-01-24 – Papur 4 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, at y Llywydd, 15 Rhagfyr 2023

**3.3 SL(6)420 – Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 12 - 13)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 5 – Adroddiad drafft

**3.4 SL(6)426 – Rheoliadau Adeiladu (Y Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu) (Cofrestru, Sancsiynau ac Apelau) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 14 - 15)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 6 – Adroddiad drafft

**3.5 SL(6)427 – Rheoliadau'r Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu (Taliadau) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 16 - 18)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 7 – Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**3.6 SL(6)425 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygio) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 19 – 22)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 8 – Adroddiad drafft

LJC(6)-01-24 – Papur 9 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 5 Rhagfyr 2023

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

(13.40 - 13.45)

**4.1 SL(6)424 – Casglu Deunyddiau Gwastraff ar wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer Cymru**

(Tudalennau 23 – 25)

Cod Ymarfer

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 10 – Adroddiad drafft

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

(13.45 - 13.50)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**5.1 SL(6)422 – Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023**

(Tudalennau 26 – 31)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 11 – Adroddiad

LJC(6)-01-24 – Papur 12 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 6 Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol

(13.50 – 13.55)

**6.1 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Masnach**

(Tudalennau 32 – 33)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 13 – Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi, 11 Rhagfyr 2023

LJC(6)-01-24 – Papur 14 – Llythyr oddi wrth Weinidog yr Economi, 11 Rhagfyr 2023

**6.2 Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 34 – 35)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 15 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 12 Rhagfyr 2023

**6.3 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Grŵp Rhyngweinidogol ar Waith a Phensiynau**

(Tudalennau 36 – 38)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 16 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 13 Rhagfyr 2023

LJC(6)-01-24 – Papur 17 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 13 Rhagfyr 2023

**6.4 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth oddi wrth y Prif Weinidog: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

(Tudalennau 39 – 41)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 18 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Prif Weinidog, 15 Rhagfyr 2023

LJC(6)-01-24 – Papur 19 – Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog, 15 Rhagfyr 2023

## 7 Papurau i'w nodi

(13.55 – 14.05)

### 7.1 Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni

(Tudalennau 42 – 43)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 20 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd, 12 Rhagfyr 2023

### 7.2 Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd: Y Bil Seilwaith (Cymru)

(Tudalennau 44 – 62)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 21 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Rhagfyr 2023

### 7.3 Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a'r Seilwaith: Y Bil Seilwaith (Cymru)

(Tudalennau 63 – 74)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 22 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, 15 Rhagfyr 2023

### 7.4 Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd: Cynllun Masnachu Allyriadau y DU

(Tudalennau 75 – 77)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 23 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd, 18 Rhagfyr 2023

**7.5 Gohebiaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

(Tudalennau 78 - 86)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 - Papur 24 - Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Rhagfyr 2023

LJC(6)-01-24 - Papur 25 - Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 28 Tachwedd 2023

**7.6 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020**

(Tudalennau 87 - 90)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 - Papur 26 - Llythyr oddi wrth Weinidog yr Economi, 19 Rhagfyr 2023

LJC(6)-01-24 - Papur 27 - Llythyr at Weinidog yr Economi, 22 Medi 2022

**7.7 Gohebiaeth rhwng y Fforwm Rhyngseneddol a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol**

(Tudalennau 91 - 94)

Datganiad y Fforwm Rhyngseneddol, 27 Hydref 2023

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 - Papur 28 - Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol, i'r Fforwm Rhyngseneddol, 19 Rhagfyr 2023 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-01-24 - Papur 29 - Llythyr oddi wrth y Fforwm Rhyngseneddol at yr Ysgrifennydd Gwladol dros ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol, 7 Tachwedd 2023 [Saesneg yn unig]

**7.8 Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip i'r Llywydd: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion**

(Tudalennau 95 - 96)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 30 – Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip at y Llywydd, 22 Rhagfyr 2023

**7.9 Gohebiaeth oddi wrth y Prif Weinidog i Lywodraeth y DU: Ffyniant Bro**

(Tudalen 97)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 31 – Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog i Lywodraeth y DU, 22 Rhagfyr 2023 [Saesneg yn unig]

**7.10 Gohebiaeth gyda Llywodraeth y DU: Y defnydd o bwerau o dan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023**

(Tudalennau 98 – 103)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 32 – Llythyr gan y Llywodraeth y DU, 2 Ionawr 2024 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-01-24 – Papur 33 – Llythyr gan y Llywodraeth y DU, 14 Rhagfyr 2023 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-01-24 – Papur 34 – Llythyr at y Llywodraeth y DU, 1 Tachwedd 2023

**7.11 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ynghylch y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)**

(Tudalen 104)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 – Papur 35 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 2 Ionawr 2024

## 8 Cynnig i ethol Cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 17.22 ar gyfer eitem agenda 11

(14.05 – 14.10)

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.10)

## 10 Cytundebau rhyngwladol

(14.10 - 14.30) (Tudalennau 105 - 123)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 - Papur 36 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-01-24 - Papur 37 - Nodyn briffio [Saesneg yn unig]

**Egwyl**

(14.30 - 14.35)

## 11 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Adroddiad drafft

(14:35 - 15:00) (Tudalennau 124 - 175)

Atodlen ar y cyd o ddiwygiadau: Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-24 - Papur 38 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-01-24 - Papur 39 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 11 Rhagfyr 2023

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 08 Ionawr 2024

## SL(6)423 – Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2023

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 yn rhagnodi'r rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau ardrethu annomestig sydd i'w talu gan awdurdodau bilio yng Nghymru i'r gronfa ardrethi annomestig.

Gwneir diwygiadau yn flynyddol i Atodlen 4 i Reoliadau 1992 sy'n nodi'r ffigurau poblogaeth oedolion ar gyfer pob awdurdod bilio i sicrhau bod y sail ar gyfer cyfrifo cyfraniadau oddi wrth awdurdodau bilio i'r gronfa ardrethi yn dal yn gyfredol. Mae'r Rheoliadau hyn yn diweddaru'r ffigurau poblogaeth oedolion yn yr Atodlen honno.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Atodlen 2 i Reoliadau 1992. Gwneir y newidiadau hynny gan fod Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 wedi dod i rym.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

**Fe'u gwnaed ar:** 30 Tachwedd 2023

**Fe'u gosodwyd ar:** 04 Rhagfyr 2023

**Yn dod i rym ar:** 31 Rhagfyr 2023

# SL(6)419 – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/77 (Cy. 20)) ("Rheoliadau 2021"), a disgwylir iddynt fod i ddod i rym ar 1 Ionawr 2024.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu'r ail gam mewn proses dau gam ar gyfer cyflwyno cyfundrefn rheoli maethynnau uwch ar gyfer blwyddyn galendr 2024, ar gyfer daliadau neu ran o ddaliadau nad oeddent yn flaenorol wedi'u lleoli o fewn Parth Perygl Nitradau ("PPN") ac sydd wedi'u hau ag o leiaf 80% o laswellt (a ddiffinnir yn y Rheoliadau hyn fel "daliadau glaswelltir cymhwysol").

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 2 (mesurau trosiannol ar gyfer daliadau nad oeddent gynt mewn parth perygl nitradau) o Reoliadau 2021. Mae'n newid y dyddiad gweithredu ar gyfer rheoliad 4 (dodi tail da byw – y terfyn o ran cyfanswm y nitrogen ar gyfer yr holl ddaliad) o 1 Ionawr 2024 i 1 Ionawr 2025 ar gyfer daliadau neu rannau o ddaliadau nad oeddent gynt wedi eu lleoli o fewn PPN fel y'i dangosir ar y map mynegai PPN, pan fo 80% neu fwy o'r ardal amaethyddol wedi ei hau â phorfa ("daliadau glaswelltir cymhwysol"). Mae hyn yn golygu nad yw'r terfyn o ran cyfanswm y nitrogen mewn tail da byw ar gyfer yr holl ddaliad (170kg wedi ei luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau) yn rheoliad 4 o Reoliadau 2021 yn gymwys i ddaliadau glaswelltir cymhwysol hyd 1 Ionawr 2025.

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 3 (dehongli) o Reoliadau 2021 drwy fewnosod diffiniadau o'r termau "cynllun rheoli maetholion uwch", "cyfarpar taenu manwl", "daliad glaswelltir cymhwysol" a "cyfnod perthnasol". Mae hefyd yn rhoi diffiniad o "CNC" yn lle "CANC".

Mae rheoliad 5 yn mewnosod rheoliadau newydd 4A a 4B yn Rheoliadau 2021. Mae rheoliad 4A (dodi tail da byw sy'n pori a da byw nad ydynt yn pori ar ddaliadau glaswelltir cymhwysol yn ystod y cyfnod perthnasol – y terfynau o ran cyfanswm y nitrogen ar gyfer yr holl ddaliad a gofynion ychwanegol) yn pennu, ar gyfer blwyddyn galendr 2024 (y "cyfnod perthnasol"), y terfynau o ran cyfanswm nitrogen yr holl ddaliad yn achos tail da byw sy'n pori a da byw nad ydynt yn pori ar gyfer daliadau glaswelltir cymhwysol. Mae rheoliad 4A(1) yn darparu na chaiff meddianwyr daliadau glaswelltir cymhwysol ddodi ar yr holl ddaliad, yn ystod y cyfnod perthnasol, gyfanswm o nitrogen mewn tail da byw sy'n pori sy'n fwy na 250kg wedi ei luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau ac na chânt ddodi ar yr holl ddaliad gyfanswm o nitrogen mewn tail da byw nad ydynt yn pori sy'n fwy na 170kg wedi ei luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau.

Mae rheoliad 4A(2) yn darparu bod rhaid i feddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol, pan fo'n bwriadu dodi ar y daliad, yn ystod y cyfnod perthnasol, gyfanswm o nitrogen mewn tail da byw sy'n pori sy'n fwy na 170kg wedi ei luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau, gydymffurfio â gofynion uwch ychwanegol o ran rheoli maethynnau a bennir o dan Atodlen 1A (gofynion rheoli maethynnau uwch) a hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC"). Mae rheoliad 4B (gofynion hysbysu) yn nodi'r gofynion hysbysu y mae rhaid i feddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol gydymffurfio â hwy pan fydd yn hysbysu CNC.

Mae rheoliad 6 yn gwneud mân ddiwygiadau i reoliad 14 (taenu tail organig ger dŵr wyneb, tyllau turio, ffynhonnau neu bydewau) o Reoliadau 2021 i gynorthwyo gydag eglurder.

Mae rheoliad 7 yn rhoi cyfeiriadau at "CNC" yn lle cyfeiriadau at "CANC" ym mha le bynnag y maent yn ymddangos yn y Rheoliadau. Mae hyn o ganlyniad i roi diffiniad o "CNC" yn lle'r diffiniad o "CANC" o dan reoliad 3.

Mae rheoliad 8 yn mewnosod Atodlen newydd 1A (gofynion rheoli maethynnau uwch) yn Rheoliadau 2021 sy'n nodi'r gofynion rheoli maethynnau uwch ychwanegol sydd i'w bodloni gan feddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol os yw'r meddiannydd yn bwriadu dodi ar y daliad, yn ystod y cyfnod perthnasol, gyfanswm o nitrogen mewn tail da byw sy'n pori sy'n fwy na 170kg wedi ei luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau.

Bydd y gofynion rheoli maethynnau uwch ychwanegol a nodir yn y Rheoliadau hyn yn gymwys i feddianwyr daliadau glaswelltir cymhwysol, yn ogystal â'r gofynion sydd eisoes yn berthnasol i feddianwyr o'r fath yn rhinwedd Rhannau 2 i 7 o Reoliadau 2021. Hefyd, bydd unrhyw feddiannydd daliad nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion ychwanegol hyn yn ystod blwyddyn galendr 2024 yn euog o drosedd ac yn agored i gollfarn ddiannod, neu, yn dilyn collfarn ar dditiad, i ddirwy, fel y darperir ar ei gyfer o dan Reoliad 46 o Reoliadau 2021.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd tri phwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn yr Atodlen, yn yr Atodlen 1A newydd, ym mharagraff 1, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, cyfeirir at "the occupier of a qualifying

grassland holding", ond ystyr y cyfieithiad yw "the holder of a qualifying grassland holding". Mewn mannau eraill yn y Rheoliadau presennol ac yn y diwygiadau newydd, defnyddiwyd "meddiannydd" ("occupier") yn gywir yn y testun Cymraeg, yn hytrach na "deiliad" ("holder") i gyfieithu "occupier".

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn yr Atodlen, yn yr Atodlen 1A newydd, mae strwythur paragraff 11 yn anghywir am fod "11-(1)" ar y dechrau. Mae hyn yn creu disgwyliad yn y darllenydd y bydd is-baragraff (1) yn cael ei ddilyn gan is-baragraff (2). Ond nid oes is-baragraff (2) felly dylid ei strwythuro fel "11", yn hytrach nag "11-(1)". Ceir enghraifft o ddarpariaeth sydd wedi'i strwythuro'n gywir yn ddiweddarach ym mharagraff 20.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn yr Atodlen, yn Atodlen 1A newydd, ym mharagraff 12(2), ceir cyfeiriad a ddisgrifir yn anghywir fel "[p]aragraff (1)(a) neu (b)". Ond dylid disgrifio'r cyfeiriad yn gywir fel "is-baragraff (1)(a) neu (b)" (gweler y canllawiau perthnasol am gyfeiriadau cyfansawdd yn *Drafftio Deddfau i Gymru* 6.16).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y canlynol yn rhan 5 o'r Memorandwm Esboniadol mewn perthynas ag ymgynghori ar y Rheoliadau hyn:

> *"23. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ffurfiol ar gynigion i gyflwyno cynllun trwyddedu, lle y byddai busnesau fferm yn gweithio yn unol â therfyn blynyddol ar nitrogen mewn tail da byw sy'n pori ar gyfer daliad o 250kg/ha, yn dibynnu ar yr angen ar gnydau ac ystyriaethau cyfreithiol eraill. Parodd yr ymgynghoriad am 12 wythnos, o 25 Tachwedd 2022 i 17 Chwefror 2023.*
>
> *24. Ar 10 Hydref 2023 gwnaethom gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol. Mae'r crynodeb hwn, ynghyd â'r ddogfen ymgynghori, ar gael yn: https://llyw.cymru/rheoli-maethynnau-rheolir-defnydd-cynaliadwy-o-dail-da-byw*
>
> *25. Gan fod y Rheoliadau yn darparu diwygiad ac iddo derfyn amser sy'n debyg i'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt yn flaenorol, ac nad ydynt yn adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru, ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol pellach."*

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn fod y Rheoliadau hyn i'w dirymu gan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023, a ddaw i rym ar 31 Rhagfyr 2023. Nodwn ymhellach yr esboniad a ganlyn mewn llythyr gan Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, at y Llywydd ar 15 Rhagfyr 2023:

> *"Y rheswm dros beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod yn yr achos hwn yw, os na fydd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023 yn dod i rym ar neu cyn 31 Rhagfyr 2023, yna bydd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023 yn dod i rym ar 1 Ionawr 2024 heb roi'r eglurder, hygyrchedd na'r sicrwydd cyfreithiol mwyaf i ddefnyddwyr terfynol ynghylch dodi cyfuniad o dail da byw sy'n pori a thail da byw nad ydynt yn pori."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau adrodd 1, 2 a 3.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**21 Rhagfyr 2023**

Eitem 3.2

# SL(6)436 – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/77 (Cy. 20)) ("Rheoliadau 2021"), a disgwylir iddynt fod i ddod i rym ar 31 Rhagfyr 2023.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu'r ail gam mewn proses dau gam ar gyfer cyflwyno cyfundrefn rheoli maethynnau uwch ar gyfer blwyddyn galendr 2024, ar gyfer daliadau neu ran o ddaliadau nad oeddent yn flaenorol wedi'u lleoli o fewn Parth Perygl Nitradau ("PPN") ac sydd wedi'u hau ag o leiaf 80% o laswellt (a ddiffinnir yn y Rheoliadau hyn fel "daliadau glaswelltir cymhwysol").

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 2 (mesurau trosiannol ar gyfer daliadau nad oeddent gynt mewn parth perygl nitradau) o Reoliadau 2021. Mae'n newid y dyddiad gweithredu ar gyfer rheoliad 4 (dodi tail da byw – y terfyn o ran cyfanswm y nitrogen ar gyfer yr holl ddaliad) o 1 Ionawr 2024 i 1 Ionawr 2025 ar gyfer daliadau neu rannau o ddaliadau nad oeddent gynt wedi eu lleoli o fewn PPN fel y'i dangosir ar y map mynegai PPN, pan fo 80% neu fwy o'r ardal amaethyddol wedi ei hau â phorfa ("daliadau glaswelltir cymhwysol"). Mae hyn yn golygu nad yw'r terfyn o ran cyfanswm y nitrogen mewn tail da byw ar gyfer yr holl ddaliad (170kg wedi ei luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau) yn rheoliad 4 o Reoliadau 2021 yn gymwys i ddaliadau glaswelltir cymhwysol hyd 1 Ionawr 2025.

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 3 (dehongli) o Reoliadau 2021 drwy fewnosod diffiniadau o'r termau "cynllun rheoli maetholion uwch", "cyfarpar taenu manwl", "daliad glaswelltir cymhwysol" a "cyfnod perthnasol". Mae hefyd yn rhoi diffiniad o "CNC" yn lle "CANC".

Mae rheoliad 5 yn mewnosod rheoliadau newydd 4A a 4B yn Rheoliadau 2021. Mae rheoliad 4A (dodi tail da byw sy'n pori a da byw nad ydynt yn pori ar ddaliadau glaswelltir cymhwysol yn ystod y cyfnod perthnasol) yn ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol sicrhau, ar gyfer blwyddyn galendr 2024 ("y cyfnod perthnasol"), fod arwynebedd y daliad (mewn hectarau) yn fwy na swm neu'n hafal i swm cyfanswm y nitrogen mewn tail da byw sy'n pori a ddodir ar y daliad wedi ei rannu â 250, plws cyfanswm y nitrogen mewn tail da byw nad ydynt yn pori a ddodir ar y daliad wedi ei rannu â 170. Diben y cyfrifiad hwn yw cyfyngu ar gyfanswm y nitrogen mewn tail da byw y caiff meddiannydd glaswelltir cymhwysol ei ddodi ar y daliad, boed yn uniongyrchol gan anifail neu drwy daenu, yn ystod y cyfnod perthnasol. Mae'n sicrhau, pan nad yw meddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol ond yn dodi tail da byw sy'n pori ar y daliad, na chaiff ddodi mwy na 250kg o nitrogen mewn tail da byw sy'n pori fesul hectar yn ystod y cyfnod perthnasol. Mae hefyd yn sicrhau, pan nad yw

meddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol ond yn dodi tail da byw nad ydynt yn pori ar y daliad, na chaiff ddodi mwy na 170kg o nitrogen mewn tail da byw nad ydynt yn pori fesul hectar yn ystod y cyfnod perthnasol. Pan fo meddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol yn dodi tail da byw sy’n pori a thail da byw nad ydynt yn pori ar y daliad yn ystod y cyfnod perthnasol, mae’r cyfrifiad hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer addasu dodi’r naill a’r llall ar sail pro-rata.

Mae rheoliad 4A(2) yn darparu bod rhaid i feddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol, pan fo’n bwriadu dodi ar y daliad, yn ystod y cyfnod perthnasol, gyfanswm o nitrogen mewn tail da byw sy’n pori sy’n fwy na 170kg wedi ei luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau, gydymffurfio â gofynion uwch ychwanegol o ran rheoli maethynnau a bennir o dan Atodlen 1A (gofynion rheoli maethynnau uwch) a hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru (“CNC”). Mae rheoliad 4B (gofynion hysbysu) yn nodi’r gofynion hysbysu y mae rhaid i feddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol gydymffurfio â hwy pan fydd yn hysbysu CNC.

Mae rheoliad 6 yn gwneud mân ddiwygiadau i reoliad 14 (taenu tail organig ger dŵr wyneb, tyllau turio, ffynhonnau neu bydewau) o Reoliadau 2021 i gynorthwyo gydag eglurder.

Mae rheoliad 7 yn rhoi cyfeiriadau at “CNC” yn lle cyfeiriadau at “CANC” ym mha le bynnag y maent yn ymddangos yn y Rheoliadau. Mae hyn o ganlyniad i roi diffiniad o “CNC” yn lle’r diffiniad o “CANC” o dan reoliad 3.

Mae rheoliad 8 yn mewnosod Atodlen newydd 1A (gofynion rheoli maethynnau uwch) yn Rheoliadau 2021 sy'n nodi'r gofynion rheoli maethynnau uwch ychwanegol sydd i'w bodloni gan feddiannydd daliad glaswelltir cymhwysol os yw'r meddiannydd yn bwriadu dodi ar y daliad, yn ystod y cyfnod perthnasol, gyfanswm o nitrogen mewn tail da byw sy’n pori sy’n fwy na 170kg wedi ei luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau.

Mae rheoliad 9 yn dirymu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023, y disgwyliwyd iddynt ddod i rym ar 1 Ionawr 2024.

Bydd y gofynion rheoli maethynnau uwch ychwanegol a nodir yn y Rheoliadau hyn yn gymwys i feddianwyr daliadau glaswelltir cymhwysol, yn ogystal â'r gofynion sydd eisoes yn berthnasol i feddianwyr o'r fath yn rhinwedd Rhannau 2 i 7 o Reoliadau 2021. Hefyd, bydd unrhyw feddiannydd daliad nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion ychwanegol hyn yn ystod blwyddyn galendr 2024 yn euog o drosedd ac yn agored i gollfarn ddiannod, neu, yn dilyn collfarn ar dditiad, i ddirwy, fel y darperir ar ei gyfer o dan Reoliad 46 o Reoliadau 2021.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd tri phwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn yr Atodlen, yn yr Atodlen 1A newydd, ym mharagraff 1, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, cyfeirir at "the occupier of a qualifying grassland holding", ond ystyr y cyfieithiad yw "the holder of a qualifying grassland holding". Mewn mannau eraill yn y Rheoliadau presennol ac yn y diwygiadau newydd, defnyddiwyd "meddiannydd" ("occupier") yn gywir yn y testun Cymraeg, yn hytrach na "deiliad" ("holder") i gyfieithu "occupier".

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn yr Atodlen, yn yr Atodlen 1A newydd, mae strwythur paragraff 10 yn anghywir am fod "10-(1)" ar y dechrau. Mae hyn yn creu disgwyliad yn y darllenydd y bydd is-baragraff (1) yn cael ei ddilyn gan is-baragraff (2). Ond nid oes is-baragraff (2) felly dylid ei strwythuro fel "10", yn hytrach na "10-(1)". Ceir enghraifft o ddarpariaeth sydd wedi'i strwythuro'n gywir yn ddiweddarach ym mharagraff 20.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn yr Atodlen, yn Atodlen 1A newydd, ym mharagraff 11(2), ceir cyfeiriad a ddisgrifir yn anghywir fel "[p]aragraff (1)(a) neu (b)". Ond dylid disgrifio'r cyfeiriad yn gywir fel "is-baragraff (1)(a) neu (b)" (gweler y canllawiau perthnasol am gyfeiriadau cyfansawdd yn *Drafftio Deddfau i Gymru* 6.16).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y canlynol yn rhan 5 o'r Memorandwm Esboniadol mewn perthynas ag ymgynghori ar y Rheoliadau hyn:

> *"26. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ffurfiol ar gynigion i gyflwyno cynllun trwyddedu, lle y byddai busnesau fferm yn gweithio yn unol â therfyn blynyddol ar nitrogen mewn tail da byw sy'n pori ar gyfer daliad o 250kg/ha, yn dibynnu ar yr angen ar gnydau ac ystyriaethau cyfreithiol eraill. Parodd yr ymgynghoriad am 12 wythnos, o 25 Tachwedd 2022 i 17 Chwefror 2023.*

*27. Ar 10 Hydref 2023 gwnaethom gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol. Mae'r crynodeb hwn, ynghyd â'r ddogfen ymgynghori, ar gael yn: https://llyw.cymru/rheoli-maethynnau-rheolir-defnydd-cynaliadwy-o-dail-da-byw*

*28. Gan fod y Rheoliadau yn darparu diwygiad ac iddo derfyn amser sy'n debyg i'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt yn flaenorol, ac nad ydynt yn adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru, ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol pellach."*

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y torrwyd y confensiwn 21 diwrnod (h.y. y confensiwn y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r confensiwn a gynigiodd Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd ar 15 Rhagfyr 2023.

Yn benodol, nodwn yr esboniad a ganlyn:

> *"Y rheswm dros beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod yn yr achos hwn yw, os na fydd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023 yn dod i rym ar neu cyn 31 Rhagfyr 2023, yna bydd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023 yn dod i rym ar 1 Ionawr 2024 heb roi'r eglurder, hygyrchedd na'r sicrwydd cyfreithiol mwyaf i ddefnyddwyr terfynol ynghylch dodi cyfuniad o dail da byw sy'n pori a thail da byw nad ydynt yn pori."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau adrodd 1, 2 a 3.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**21 Rhagfyr 2023**

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/3213/23

Y Gw. Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru

15 Rhagfyr 2023

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwyf yn eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2023, llai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod.

Amgaeir copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef er gwybodaeth ichi.

Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn ceisio mynd i'r afael ag achosion llygredd dŵr (ac ansawdd aer) sy'n deillio o weithgareddau amaethyddol ledled Cymru. Mae Rheoliadau 2021 yn cynnwys terfyn blynyddol ar faint o nitrogen mewn tail da byw y caniateir ei ddodi (boed yn uniongyrchol gan dda byw neu drwy ei daenu) ar ddaliad. Y terfyn blynyddol sydd wedi cael ei osod yw 170kg o nitrogen yr hectar (y terfyn 170kg) fydd yn cael ei gymhwyso fel cyfartaledd ar draws y daliad. Er bod y terfyn hwn eisoes yn berthnasol i ddaliadau a oedd gynt mewn Parth Perygl Nitradau (NVZ), ni ddaw'n berthnasol tan 1 Ionawr 2024 i ddaliadau nad oeddent mewn NVZ cyn hynny.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Diben y Rheoliadau hyn yw caniatáu i feddianwyr daliadau, neu ran o ddaliadau, nad oeddent gynt o fewn NVZ, lle mae o leiaf 80% o arwynebedd amaethyddol y daliad wedi'i hau â glaswellt, barhau i ddodi (boed yn uniongyrchol gan dda byw neu drwy ei daenu) dros 170kg o nitrogen yr hectar mewn tail da byw sy'n pori, ar y daliad yn ystod blwyddyn galendr 2024, hyd at uchafswm o 250kg yr hectar. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau, pan fydd symiau o'r fath yn cael eu dodi, bod yn rhaid i feddianwyr gydymffurfio â gofynion rheoli maetholion ychwanegol i liniaru unrhyw effaith amgylcheddol bosibl. Bydd hynny'n cynnwys hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru o'u bwriad i ddodi dros 170kg o nitrogen yr hectar ar eu daliadau. Ar gyfer blwyddyn galendr 2024, mae'r Rheoliadau hefyd yn mynnu bod meddianwyr daliadau cymwys yn cyfyngu ar gyfanswm y nitrogen mewn tail da byw a ddodir ar eu daliad. Sef, na ddodir mwy na 170kg yr hectar o nitrogen mewn tail o dda byw nad ydynt yn pori, a 250kg yr hectar mewn tail o dda byw sy'n pori. Pan fydd meddiannydd daliad cymwys yn dodi tail da byw sy'n pori a thail da byw nad ydynt yn pori ar y daliad, rhaid addasu'r swm a ddodir o'r ddau ar sail pro-rata. Bydd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023 yn rhoi eglurder ar yr uchod, ac yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023.

Y rheswm dros beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod yn yr achos hwn yw, os na fydd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023 yn dod i rym ar neu cyn 31 Rhagfyr 2023, yna bydd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023 yn dod i rym ar 1 Ionawr 2024 heb roi'r eglurder, hygyrchedd na'r sicrwydd cyfreithiol mwyaf i ddefnyddwyr terfynol ynghylch dodi cyfuniad o dail da byw sy'n pori a thail da byw nad ydynt yn pori.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Eitem 3.3

# SL(6)420 – Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn awdurdodi, o ran Cymru, roi tri ar ddeg o ychwanegion bwyd anifeiliaid ar y farchnad.

Mae'r awdurdodiadau ar gyfer y canlynol:

- Ychwanegion maethol sy'n darparu microfaethynnau hanfodol i ddeietau anifeiliaid, fel asidau amino;
- Ychwanegion technolegol, fel ychwanegion silwair (sylweddau gan gynnwys ensymau neu ficro-organebau y bwriedir eu cynnwys mewn bwyd anifeiliaid i wella cynhyrchiant silwair);
- Ychwanegion sootechnegol, fel sylweddau sy'n gwella treuliadwyedd sydd, o'u bwydo i anifeiliaid, yn cynyddu treuliadwyedd deiet drwy eu rhoi mewn deunyddiau bwyd anifeiliaid targed a sylweddau sy'n dda i'r amgylchedd.

Maent hefyd yn darparu trefniadau pontio yn dilyn newid cod adnabod ar gyfer un ychwanegyn bwyd anifeiliaid a awdurdodwyd yn flaenorol i ganiatáu disbyddu stociau cyfredol, ac yn dirymu awdurdodiadau sydd wedi dod i ben.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 2(3), diffinnir "*Rheoliad 1831/2003*" at ddibenion rheoliad 2 yn unig, gan fod rheoliad 2(3) yn dechrau â'r geiriau "*Yn y rheoliad hwn*". Fodd bynnag, defnyddir "*Rheoliad 1831/2003*" hefyd yn rheoliad 3(2) ac, at ddiben y rheoliad hwnnw, nid yw wedi'i ddiffinio ar hyn o bryd.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn Atodlenni 3 a 4 i'r Rheoliadau hyn, yn nodyn (2) o'r tabl, cyfeirir at gyhoeddiad Sefydliad Safonau Prydeinig sy'n cynorthwyo'r darllenydd i ddeall y dulliau dadansoddi y cyfeirir atynt yn yr Atodlenni hynny mewn perthynas â phob ychwanegyn penodedig.

Yn y testun Saesneg, cyfeirir at y cyhoeddiad fel *"Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Detection and enumeration of **Pediococcus spp.** used as feed additive"* (pwyslais wedi'i ychwanegu). Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, defnyddir "*Bacillus spp.*" yn hytrach na "*Pediococcus spp.*"

Mae angen esboniad am yr anghysondeb hwn rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg gan ei bod yn ymddangos eu bod yn cyfeirio at gyhoeddiadau o dan deitlau gwahanol.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro fel a ganlyn:

> *"Mae'r ASB* [Asiantaeth Safonau Bwyd] *wedi asesu'r effeithiau a fyddai'n deillio o awdurdodi'r ychwanegion bwyd anifeiliaid hyn. Roedd yr effeithiau a ystyriwyd yn cynnwys y rheiny a gafodd eu nodi amlaf fel effeithiau posib wrth gyflwyno neu ddiwygio cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid (er enghraifft, gwaith gweithredu awdurdodau lleol, iechyd, yr amgylchedd, twf, arloesi, masnach, cystadleuaeth, buddiannau defnyddwyr, a busnesau bach a micro). Ni wnaeth yr ASB nodi unrhyw effeithiau arwyddocaol, felly ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.*
>
> *Yn gyffredinol, nododd yr ASB y dylai awdurdodi'r cynhyrchion hyn arwain at fwy o gystadleuaeth yn y farchnad, gan gefnogi twf ac arloesi yn y sector."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru ac eithrio mewn perthynas â phwynt 3.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**12 Rhagfyr 2023**

# SL(6)426 – Rheoliadau Adeiladu (Y Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu) (Cofrestru, Sancsiynau ac Apelau) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi cyfnodau ar gyfer cofrestru arolygydd cofrestredig adeiladu a chymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu, yn nodi'r sancsiynau ar gyfer cymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu ac yn ymdrin ag apelau ynghylch penderfyniad sydd wedi'i wneud gan Weinidogion Cymru, sef yr awdurdod rheoleiddio o ran Cymru, o dan Ran 2A o Ddeddf Adeiladu 1984 ("y Ddeddf").

Mae rheoliad 2 yn rhagnodi'r cyfnod ar gyfer cofrestru arolygydd cofrestredig adeiladu.

Mae rheoliad 3 yn rhagnodi'r cyfnod ar gyfer cofrestru cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu.

Mae rheoliad 4 yn nodi, pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn disgyblu, fod rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi copi o'r gorchymyn disgyblu i bob awdurdod lleol yng Nghymru pan fo cofrestriad cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu wedi'i amrywio, wedi'i atal am gyfnod penodedig, neu wedi'i ganslo o ddyddiad penodedig.

Mae rheoliad 5 yn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud neu'n dirymu gorchymyn o dan adran 58V o'r Ddeddf, fod rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi copi o'r gorchymyn atal dros dro interim i bob awdurdod lleol yng Nghymru pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y toriad a amheuir mor ddifrifol fel eu bod, os ydynt yn penderfynu bod y toriad wedi digwydd, yn debygol o wneud gorchymyn o dan adran 58U(2)(d) o'r Ddeddf yn canslo cofrestriad y person.

Mae rheoliad 6 yn ymwneud ag apelio penderfyniad a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ran 2A o'r Ddeddf.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn fod adran 1 o Ddeddf Adeiladu 1984 wedi'i nodi'n un o'r pwerau galluogi. A allech chi egluro ar ba is-adran(au) y dibynnir?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**14 Rhagfyr 2023**

# SL(6)427 – Rheoliadau'r Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu (Taliadau) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae Rhan 2A o Ddeddf Adeiladu 1984 (**Deddf 1984**) yn darparu ar gyfer rheoleiddio'r proffesiwn rheolaeth adeiladu a goruchwylio'r rhai sy'n arfer swyddogaethau yn y maes hwn. Nod Rhan 2A yw gwella lefelau cymhwysedd ac atebolrwydd yn y sector rheolaeth adeiladu drwy greu strwythur prof fesiynol a rheoleiddiol unedig ar gyfer rheolaeth adeiladu.

Mae Deddf 1984 hefyd yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer adennill taliadau am gyflawni swyddogaethau ac mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau o dan Ddeddf 1984. Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y pŵer hwnnw, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru adennill taliadau am swyddogaethau a gyflawnir o dan Ddeddf 1984 (**swyddogaethau y gellir codi tâl amdanynt**), fel: penderfynu ar geisiadau i gofrestru person yn arolygydd adeiladu cofrestredig neu yn gymeradwywr rheolaeth adeiladu; cynnal ymchwiliadau camymddwyn proffesiynol; ymateb i apelau.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 3(2) yn nodi rhestr o swyddogaethau y gellir codi tâl amdanynt. Mae rheoliad 3(2)(c) i (e) yn cyfeirio at "gamau" a gymerir mewn perthynas â swyddogaethau penodol, tra bod rheoliad 3(2)(f) i (g) yn cyfeirio at "unrhyw gamau" a gymerir mewn perthynas â swyddogaethau penodol eraill.

Nid yw'n glir a fwriedir i "gamau" ac "unrhyw gam" fod ag ystyron gwahanol. Os bwriedir iddynt fod yn wahanol, beth yw'r gwahaniaeth? Os na fwriedir iddynt fod yn wahanol, pam y defnyddir termau gwahanol?

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 6(1) yn nodi bod yn rhaid i berson dalu taliadau penodol os oes gan Weinidogion Cymru "sail resymol" dros gredu y gall y person fod yn torri Rhan 2A o Ddeddf Adeiladu 1984. Mae rheoliad 6(1), felly, yn benodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r seiliau fod yn rhesymol.

Mewn mannau eraill yn y Rheoliadau, fodd bynnag, nid oes gofyniad penodol i fod yn rhesymol. Er enghraifft:

- Yn rheoliad 3(2)(c), mae swyddogaeth y gellir codi tâl amdani yn cynnwys "camau" a gymerir gan Weinidogion Cymru o dan adran 58H o Ddeddf Adeiladu 1984. Nid yw rheoliad 3(2)(c) yn nodi "camau rhesymol".
- Yn rheoliad 4(2), mae cyfeiriad at y "costau" y mae Gweinidogion Cymru yn mynd iddynt. Nid yw rheoliad 4(2) yn nodi "costau rhesymol".

Fel mater o gyfraith gyhoeddus, rhaid i Weinidogion Cymru weithredu'n rhesymol bob amser, felly nid yw'n glir pam fod angen i reoliad 6(1) gyfeirio at fod Gweinidogion Cymru yn rhesymol.

Byddem yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch ei dull o gynnwys "rhesymol" mewn darpariaethau deddfwriaethol fel y rhai a amlinellir uchod.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn y rheoliad 8(2)(a) Saesneg, rhaid i gais am daliadau gynnwys:

> "datganiad o'r gwaith a wnaed a'r costau y mae Gweinidogion Cymru wedi mynd iddynt **wrth gyflawni swyddogaeth y gellir codi tâl amdani**" (ein pwyslais ni).

Mae'r geiriau a bwysleisir, fodd bynnag, ar goll o'r rheoliad 8(2)(a) Cymraeg.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Rheoliadau'n cyfeirio at y dogfennau a ganlyn:

- cynllun codi tâl (rheoliad 4),
- cod ymddygiad (rheoliad 6(4)(a)),

- rheolau ymddygiad proffesiynol (rheoliad 6(4)(b),
- rheolau safonau gweithredol (rheoliad 6(4)(b)).

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru gadarnhau statws presennol y dogfennau hyn, gan gynnwys manylion ynghylch ble y byddant ar gael, a chadarnhau bod pob dogfen wedi'i gwneud yn derfynol a'i bod ar gael yn hawdd ers y daeth y Rheoliadau i rym ar 1 Ionawr 2024.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bob un o'r pwyntiau adrodd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**21 Rhagfyr 2023**

# SL(6)425 - Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2024

## Cefndir a Diben

'Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor' ("CTRS") yw'r dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yng Nghymru i roi cymorth i aelwydydd ar incwm isel er mwyn iddynt allu talu eu treth gyngor.

Rheolir gweithrediad CTRS yng Nghymru gan Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 (y cyfeirir atynt ar y cyd fel "Rheoliadau CTRS 2013").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau CTRS 2013 i uwchraddio ffigurau penodol a ddefnyddir i gyfrifo hawl ceisydd i ostyngiad o dan CTRS.

Mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 5 Rhagfyr 2023 gan y Gweinidog Cllid a Llywodraeth Leol, dywedodd Rebecca Evans AS y bydd hyn yn:

> *"sicrhau y bydd y cynllun a fydd ar waith ar gyfer 2024-25 yn adlewyrchu'r cynnydd mewn costau byw. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y cynllun yn cadw hawliau ar gyfer bron i 261,000 o aelwydydd incwm isel ledled Cymru sy'n dibynnu ar y cymorth hwn."*

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth i sicrhau:

- nad effeithir yn negyddol ar unrhyw geisydd sy'n byw yng Nghymru oherwydd ei fod wedi cael ôl-daliad rhiant gweddw neu daliad cymorth profedigaeth yn ôl-weithredol;
- bod ceiswyr yng Nghymru yn cael eu trin yn yr un modd ar gyfer unrhyw daliad digolledfiad neu daliad cymorth a wneir mewn cysylltiad â methiannau system Horizon Swyddfa'r Post;
- bydd taliadau digolledfiad sy'n ymwneud â'r cynllun Taliad Niwed Drwy Frechiad neu'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig hefyd yn cael eu diystyru wrth gyfrifo cyfalaf ceisydd o dan y cynllun.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliadau 3(a) a 12(a), disgrifir y diffiniadau newydd fel rhai sydd wedi'u mewnosod "yn y lleoedd priodol" yn narpariaethau dehongli'r ddwy set o Reoliadau. Fodd bynnag, mae'r dull hwn ond yn briodol os yw'n glir sut mae'r rhestrau o ddiffiniadau wedi'u trefnu yn nhestun y ddwy iaith (sydd fel arfer yn nhrefn yr wyddor). Yn nhestun Cymraeg y ddwy gyfres o Reoliadau, nid yw'r diffiniadau'n cael eu trefnu yn ôl yr wyddor Gymraeg fel sy'n digwydd fel arfer mewn Offeryn Statudol Cymraeg ond yn dilyn yr un drefn â'r rhestr o'r diffiniadau yn y testun Saesneg. Felly, efallai na fydd yn amlwg i'r darllenydd ble i fewnosod y diffiniadau newydd yn y testun Cymraeg y tro hwn, a byddai'n rhoi mwy o sicrwydd i nodi ar ôl pa gofnod y dylid mewnosod y diffiniadau newydd – gweler Drafftio Deddfau i Gymru, paragraff 7.17.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod ei waith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 8(d), mae'r geiriau agoriadol yn datgan bod y diwygiadau dilynol a rifwyd fel is-baragraffau (i) i (vii) yn cael eu gwneud i "yn yr ail golofn (swm) o'r Tabl **ym mharagraff 17**..." yn Atodlen 7. Fodd bynnag, ni wneir y diwygiadau terfynol yn is-baragraffau (vi) a (vii) i baragraff 17 ond i ffigurau a geir ym mharagraffau 23 a 24 o Atodlen 7. Felly, mae strwythur rheoliad 8(d) yn anghywir a dylai is-baragraffau (vi) a (vii) fod wedi'u rhifo fel paragraffau (e) ac (f) fel y gwneir mewn darpariaeth debyg a geir yn ddiweddarach yn rheoliad 16(d) i (f) o'r Rheoliadau hyn.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod ei waith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 13(c)(i), yn y testun Saesneg, dylai'r disgrifiad o'r diwygiad ddatgan "yn y testun Saesneg" oherwydd mai dim ond i destun Saesneg paragraff (b) yn is-baragraff (9) o baragraff 28 o'r cynllun diofyn y gwneir y diwygiad hwn. Mae'r cyfieithiad Cymraeg eisoes yn cynnwys y geiriau hynny yn rheoliad 13(c)(i) oherwydd nad oes unrhyw gysylltiad cyfatebol i'w hepgor ar ddiwedd paragraff (b) yn is-baragraff (9) o baragraff 28 yn nhestun Cymraeg y cynllun diofyn. Felly, nid yw'r drafftio yn dilyn y canllawiau a geir yn Drafftio Deddfau i Gymru, paragraff 7.9(2) wrth ddiwygio testun un iaith yn unig o ddeddfiad dwyieithog sy'n bodoli eisoes. Mae hefyd yn golygu bod gwahaniaeth rhwng y disgrifiadau a roddir yn y testunau Saesneg a Chymraeg o reoliad 13(c)(i).

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**3 Ionawr 2024**

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Gosod Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygio) (Cymru) 2024** |
| **DYDDIAD** | **05 Rhagfyr 2023** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol** |

Heddiw, rwyf wedi gosod fersiwn ddrafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygio) (Cymru) 2024 gerbron y Senedd.

Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd, bydd y Rheoliadau hyn yn uwchraddio'r ffigurau ariannol yn Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Cyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013. Nod hyn yw sicrhau y bydd y cynllun a fydd ar waith ar gyfer 2024-25 yn adlewyrchu'r cynnydd mewn costau byw. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y cynllun yn cadw hawliau ar gyfer bron i 261,000 o aelwydydd incwm isel ledled Cymru sy'n dibynnu ar y cymorth hwn.

Yn ogystal, rydym yn awyddus i sicrhau nad effeithir yn negyddol ar unrhyw geisydd sy'n byw yng Nghymru oherwydd ei fod wedi cael ôl-daliad rhiant gweddw neu daliad cymorth profedigaeth yn ôl-weithredol. Cynigir felly y bydd diwygiad canlyniadol yn cael ei wneud er mwyn diystyru'r taliad a geir wrth gyfrifo cyfalaf ceisydd o dan y cynllun.

Bydd diwygiadau pellach a gynigir yn sicrhau bod ceiswyr yng Nghymru yn cael eu trin yn yr un modd ar gyfer unrhyw daliad digolledial neu daliad cymorth a wneir mewn cysylltiad â methiannau system Horizon Swyddfa'r Post. Bydd taliadau digolledial sy'n ymwneud â'r cynllun Taliad Niwed Drwy Frechiad neu'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig hefyd yn cael eu diystyru wrth gyfrifo cyfalaf ceisydd o dan y cynllun.

Edrychaf ymlaen at y ddadl ar y Rheoliadau ddechrau'r flwyddyn newydd.

# SL(6)424 – Casglu Deunyddiau Gwastraff ar wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer Cymru

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn nodi'r gofynion gwahanu yng Nghymru at ddibenion adran 45AA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("EPA 1990"). Mae Rheoliadau 2023 yn gymwys i gyflwyno, casglu a thrin gwastraff mewn cysylltiad ag eiddo annomestig.

Mae adran 45AB(1) o EPA 1990 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi codau ymarfer at ddiben rhoi canllawiau ymarferol ynghylch sut i fodloni gofynion a osodir gan neu o dan adran 45AA.

Mae Casglu Deunyddiau Gwastraff ar wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer Cymru ("y Cod") wedi'i ddyroddi gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pŵer hwn ac mae'n rhoi canllawiau ar sut i fodloni'r gofynion gwahanu yn Rheoliadau 2023.

## Y weithdrefn

Dim gweithdrefn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod y Cod gerbron y Senedd fel sy'n ofynnol gan adran 45AB(4)(b) o EPA 1990.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn cysylltiad â'r Cod.

**1.** Mae'n bosibl nad yw'r Cod yn rhoi canllawiau ymarferol digonol i feddianwyr eiddo annomestig i'w cynorthwyo i nodi gwastraff sydd wedi'i eithrio o'r gofynion gwahanu. Yn benodol:

- Mae paragraff 4.17 o'r Cod yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am y mathau o wastraff nad ydynt o fewn cwmpas y gofynion gwahanu, ond ceir gwybodaeth arall am y mathau hyn o wastraff ym mharagraffau 6.9 a 6.10, paragraffau 7.26 a 7.30 ac yn yr Eirfa. Gallai fod o ddefnydd mwy ymarferol i'r darllenydd pe bai'r wybodaeth hon wedi'i chyfuno'n un adran gynhwysfawr o'r Cod, yn hytrach na chael ei chyflwyno'n dameidiog.
- Mae darllenydd o'r Cod sy'n ceisio nodi a yw gwastraff wedi'i eithrio o'r gofynion gwahanu oherwydd ei fod yn beryglus yn cael ei gyfeirio at reoliad 6 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005"). Mae rheoliad 6 yn darparu bod gwastraff yn beryglus os yw wedi'i restru fel gwastraff peryglus yn "*y Rhestr*

*Wastraffoedd"*. Mae rheoliad 4 o Reoliadau 2005 yn diffinio "*y Rhestr Wastraffoedd"* fel y "*rhestr o wastraffoedd a sefydlir gan 'Benderfyniad y Comisiwn 2000/532/EC sy'n disodli Penderfyniad 94/3/EC sy'n sefydlu rhestr wastraffoedd yn unol ag Erthygl 1(a) o Gyfarwyddeb y Cyngor 75/442/EEC ar wastraff a Phenderfyniad y Cyngor 94/904/EC sy'n sefydlu rhestr o wastraffoedd peryglus yn unol ag Erthygl 1(4) o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/689/EEC ar wastraff peryglus, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd"*. Gall fod yn heriol i'r darllenydd ddod o hyd i'r Penderfyniadau/Cyfarwyddebau perthnasol, ac felly dod o hyd i'r Rhestr Wastraffoedd, er mwyn nodi a ddylid eithrio eitem benodol o wastraff o'r ffrydiau gwastraff sydd wedi'u gwahanu. Ym mharagraff 6.8, ceir linc i ganllawiau ar ddosbarthu gwastraff, ond mae'r dudalen we gov.uk yn awgrymu bod angen i'r darllenydd fod yn gymwys mewn gwastraff peryglus a bod â rhywfaint o wybodaeth am gemeg er mwyn defnyddio'r canllawiau hynny'n llawn.

- Mae paragraff 6.9 o'r Cod yn diffinio Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 fel "*Rheoliadau 2014"*. Mae paragraff 7.30 yn cyfeirio at "*gofynion y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid*", yn hytrach na defnyddio'r term diffiniedig. Gall fod yn aneglur i'r darllenydd at ba ddeddfwriaeth y cyfeirir yma, gan fod paragraff 7.26 yn cyfeirio at Reoliad (EC) 1069/2009, sydd hefyd yn ymwneud â sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

- Mae anghysondeb rhwng y disgrifiad o sgil-gynhyrchion anifeiliaid ym mharagraff 6.10 a'r cofnod yn yr Eirfa ar gyfer "Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid", a allai beri dryswch i'r sawl sy'n darllen y Cod. Mae paragraff 6.10 yn darparu bod Rheoliadau 2014 yn cynnwys "*cig, pysgod, llaeth ac wyau hefyd* ***pan nad ydynt*** *wedi'u bwriadu i gael eu bwyta gan bobl*", ond mae'r cofnod yn yr Eirfa yn nodi bod sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn cynnwys "*cig, pysgod, llaeth ac wyau,* ***yn aml lle nad oes*** *bwriad i bobl eu bwyta"* (pwyslais wedi'i ychwanegu).

**2.** Mae anghywirdeb ym mharagraff 7.31 o'r Cod, sy'n nodi bod Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffos (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023 yn darparu na ddylai meddiannydd eiddo annomestig yng Nghymru waredu gwastraff bwyd i'r garthffos gyhoeddus. Fodd bynnag, nodir y gwaharddiad a'r drosedd gysylltiedig yn adran 34D o EPA 1990. Mae Gorchymyn 2023 yn sefydlu'r gyfundrefn sancsiynau sifil am drosedd o dan adran 34D(3) o EPA 1990.

**3.** Nodwn yr anghysondebau a ganlyn rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y Cod.

  - Mae'r fersiwn Saesneg yn cyfeirio sawl gwaith at ddyletswyddau a gofynion sy'n gymwys ("applying") i bersonau penodedig. Nodir yn y fersiwn Gymraeg fod y dyletswyddau a'r gofynion yn "berthnasol", sydd i ni yn golygu "relevant" yn Saesneg. Ymddengys i ni fod y defnydd o "applying" yn Saesneg yn gywir, ac y byddai'n fwy priodol defnyddio "cymwys" yn Gymraeg.

- Ym mharagraff 5.10, mae'r fersiwn Saesneg yn cyfeirio at y senario "Bus, coach, train stations", yr ydym yn deall ei fod yn golygu gorsafoedd bysiau, gorsafoedd bysiau moethus a gorsafoedd trenau. Mae'r fersiwn Gymraeg yn cyfeirio at y senario "Bws, bws moethus, gorsafoedd trên". Credwn y dylai'r fersiwn Gymraeg ddarllen "Gorsafoedd bysiau, bysiau moethus a threnau".
- Ym mharagraff 8.2, mae'r fersiwn Saesneg yn cyfeirio at "articles" ond mae'r fersiwn Gymraeg yn cyfeirio at "nwyddau". Credwn y byddai "eitemau" yn gliriach er mwyn cyfateb i "articles" (defnyddir "eitemau" ym mharagraff 8.11).
- Ym mharagraff 8.21, ceir brawddeg ychwanegol ar ddechrau'r fersiwn Gymraeg nad yw'n ymddangos yn y fersiwn Saesneg. Ymddengys mai'r fersiwn Gymraeg sy'n gywir.
- Yn y fersiwn Gymraeg o'r Eirfa, mae rhan o'r diffiniad o "Llygryddion Organig Parhaus (POPs)" wedi gwneud ei ffordd i mewn i'r diffiniad o "Gwastraff masnachol". Hefyd, nid oes diffiniad o "Is-ffracsiwn" yn y fersiwn Gymraeg.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**14 Rhagfyr 2023**

Eitem 5.1

# SL(6)422 – Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023

## Cefndir a diben

Ym mis Gorffennaf 2021, llofnododd Llywodraeth y DU y cytundeb masnach rydd gyda Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein.

Mae Pennod 12 o’r cytundeb masnach rydd yn sefydlu system fandadol ar gyfer cyd-gydnabod cymwysterau proffesiynol rhwng y DU, Norwy, Gwlad yr Iâ, a Liechtenstein (y gwladwriaethau sy'n bartïon). Mae'n ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr ledled y DU gydnabod cymwysterau proffesiynol ymgeiswyr o'r gwladwriaethau sy'n bartïon i'r cytundeb, pan fo'r cymwysterau hynny yn gymaradwy â'r cymwysterau sy'n ofynnol i gael mynediad i'r un proffesiwn, ac i'w ddilyn, yn y DU. Mae’r cytundeb masnach rydd hefyd yn nodi'r ffordd y mae rhaid ymdrin â cheisiadau am gydnabod cymwysterau ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr gynnig cyfnodau ymaddasu a phrofion gallu pan fo angen.

Mae’r Rheoliadau hyn yn gweithredu'r cytundeb masnach rydd yng Nghymru ac yn ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr Cymreig gydymffurfio â'r darpariaethau ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol yn y cytundeb masnach rydd. Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio deddfwriaeth Cymru yn ôl yr angen i ystyried gweithredu’r cytundeb masnach rydd a diddymu deddfwriaeth flaenorol yn y maes hwn, sef Rheoliadau’r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015.

Mae’r Rheoliadau hyn yn gosod dyletswyddau ar y rheoleiddwyr a ganlyn mewn perthynas â’r deuddeg o broffesiynau rheoleiddiedig Cymreig a restrir isod:

| **Rheoleiddiwr** | **Galwedigaethau** |
|---|---|
| Gweinidogion Cymru | Dadansoddwr amaethyddol |
| Cyngor y Gweithlu Addysg | Dadansoddwr bwyd |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | Archwilydd bwyd |
| Yr Asiantaeth Safonau Bwyd | Gyrrwr a chynorthwyydd proffesiynol sy’n ymgymryd â chludo da byw, ceffylau a dofednod |
| Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion | |
| | Dadansoddwr cyhoeddus |
| | Athro neu athrawes ysgol |
| | Cigyddwr |
| | Rheolwr gofal cymdeithasol |
| | Gweithiwr cymdeithasol |
| | Gweithiwrr gofal cymdeithasol mewn:- |
| | - Gwasanaeth cartref gofal |

- Gwasanaeth cymorth cartref
- Gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd
- Gwasanaeth llety diogel

Gweithiwr cymorth ieuenctid

Gweithiwr ieuenctid

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Nid yw'n glir pam y diffinnir y gair "penodedig" yn rheoliad 2. Rhoddir ei ystyr fel "wedi ei bennu mewn rheoliadau", ond ni ddefnyddir y gair yn y cyd-destun hwn yng nghorff y Rheoliadau (yn hytrach na'r geiriad y mae'r Rheoliadau yn ei fewnosod mewn deddfwriaeth arall). Fe'i defnyddir dim ond fel rhan o'r ymadrodd "gwladwriaeth benodedig", a ddiffinnir fel gwladwriaeth benodedig yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau, ac fel rhan o'r ymadrodd "gweithiwr proffesiynol gwladwriaeth benodedig" sy'n cysylltu'n ôl â'r diffiniad o wladwriaeth benodedig. Nid yw'n ymddangos felly bod unrhyw ddefnydd o'r gair "penodedig" yng nghyd-destun "wedi ei bennu mewn Rheoliadau", a gallai ei gynnwys fel term diffiniedig nad yw'n adlewyrchu'r modd y'i defnyddir yn y Rheoliadau achosi dryswch i'r darllenydd. Felly, gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro pam mae diffiniad o "penodedig" wedi'i gynnwys yn rheoliad 2.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod ei waith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 8(6) yn cyfeirio at ddogfennau a ddilyswyd yn unol â chyfraith y Deyrnas Unedig. O dan Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, ystyr y "Deyrnas Unedig" yw Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Mae'n ymddangos felly y dylai'r ddarpariaeth gyfeirio at gyfreithiau Cymru a Lloegr, a/neu'r Alban a/neu Ogledd Iwerddon os yw'n gymwys.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr ei destun Cymraeg a'i destun Saesneg**

Yn y testun Saesneg, mae rheoliad 12(b) yn ei gwneud yn ofynnol i reoleiddiwr Cymreig sicrhau bod gwybodaeth ar gael am y "cyfreithiau perthnasol" sydd i'w cymhwyso o ran camau disgyblu, cyfrifoldebau ariannol ac ati. Yn y testun Cymraeg, nodir y "relevant laws" fel "deddfau perthnasol".

I ni, mae "deddfau" yn gysylltiedig â "deddfwriaeth sylfaenol", yn hytrach na'r cysyniad ehangach o "gyfreithiau". Byddem yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch pa "gyfreithiau" y bwriedir eu cynnwys yn rheoliad 12(b) ac a oes unrhyw anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r rhagymadrodd i'r Rheoliadau yn nodi bod ymgynghoriad wedi'i gynnal fel sy'n ofynnol yn ôl Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002(1) Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 28 Ionawr 2002, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd ("y Rheoliad"). Mae hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori'n agored a thryloyw a chyhoeddus, yn uniongyrchol neu drwy gyrff cynrychiadol, yn ystod y gwaith o baratoi, gwerthuso ac adolygu cyfraith bwyd, ac eithrio pan nad yw brys y mater yn caniatau hynny. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at ymgynghori â rheoleiddwyr o dan Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 ("Deddf 2022") ond nid yw'n cynnwys dim manylion ynghylch ymgynghori o dan y Rheoliad. Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau pa ymgynghoriad a gynhaliwyd ganddi o dan y Rheoliad, fel y nodir yn y rhagymadrodd.

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn fod y confensiwn 21 diwrnod yn cael ei dorri (h.y. y confensiwn y dylai fod 21 diwrnod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r confensiwn a ddarperir gan Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, mewn llythyr llythyr at y Llywydd, dyddiedig 30 Tachwedd 2023.

Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y llythyr:

> *Mae Llywodraeth y DU yn defnyddio'r pwerau cydredol yn Neddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 i wneud Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) 2023 ("Rheoliadau'r DU"). . Mae Rheoliadau'r DU yn gweithredu ledled y DU ddarpariaethau sy'n ymwneud â chydnabod cymwysterau proffesiynol sydd wedi eu cynnwys yn y cytundeb masnach rydd*

*rhwng Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy a'r Deyrnas Unedig ("y Cytundeb Masnach Rydd"), ac yn gwneud darpariaeth mewn meysydd pwnc sydd wedi eu datganoli i Gymru.*

*Mae Rheoliadau Cymru yn diwygio Rheoliadau'r DU i ddarparu nad ydynt yn gymwys i reoleiddwyr Cymreig ar broffesiynau rheoleiddiedig penodedig y mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â hwy.*

*Mae Rheoliadau Cymru hefyd yn gosod y dyletswyddau sy'n ofynnol o dan y Cytundeb Masnach Rydd ar reoleiddwyr Cymreig ac maent yn diwygio deddfwriaeth sectorol yng Nghymru i adlewyrchu gweithredu'r Cytundeb Masnach Rydd a dirymu Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015.*

*Gan fod Rheoliadau Cymru yn diwygio Rheoliadau'r DU, bu rhaid gohirio gwneud Rheoliadau Cymru nes bod Rheoliadau'r DU wedi'u gwneud ac yn bodoli yn y gyfraith. Ni osododd Llywodraeth y DU Reoliadau'r DU hyd 17 Hydref, ac ni wnaed y rhain hyd 29 Tachwedd. Roedd hyn yn golygu na ellid gwneud Rheoliadau Cymru hyd 30 Tachwedd. Gan fod rhaid i Reoliadau Cymru ddod i rym erbyn 1 Rhagfyr er mwyn cydymffurfio â thelerau'r Cytundeb Masnach Rydd, mae hi felly yn angenrheidiol iddynt ddod i rym lai na 21 o ddiwrnodau ar ôl iddynt gael eu gwneud. Os nad yw Rheoliadau Cymru mewn grym erbyn y dyddiad hwnnw, mae risg y bydd rheoleiddwyr Cymreig a Gweinidogion Cymru yn torri'r Cytundeb Masnach Rydd ac yn methu â chyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol.*

Gofynnir i Lywodraeth Cymru ddarparu manylion y trafodaethau a gafodd gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn a Rheoliadau'r DU uchod, er mwyn osgoi gwneud y ddwy gyfres o reoliadau mewn cyfnod mor fyr.

**6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan Ddeddf 2022, y cafodd dau gynnig cydsyniad deddfwriaethol eu trafod yn y Senedd mewn perthynas â hwy cyn i'r Ddeddf honno gael ei phasio. Roedd Llywodraeth Cymru yn argymell bod cydsyniad y Senedd yn cael ei atal oherwydd bod pwerau cydredol i wneud rheoliadau wedi'u cynnwys, ac atalwyd y cydsyniad hwnnw.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r holl bwyntiau adrodd, ac eithrio pwynt 6.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: *Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023***

**Pwynt 1 – Craffu Technegol:**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y pwynt hwn a bydd yn mynd ati i wneud cywiriadau cyn gynted ag y bo modd.

**Pwynt 2 – Craffu Technegol:**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y pwynt hwn a bydd yn mynd ati i wneud cywiriadau cyn gynted ag y bo modd.

**Pwynt 3 – Craffu Technegol:**

Mae Geiriadur Prifysgol Cymru yn rhoi'r diffiniad eang a ganlyn o "deddf":

> Un o'r corff rheolau sy'n rhwymo deiliaid gwlad, &c., tan berygl cosb o'u torri, cyfraith; act unigol o ddeddfwriaeth, mesur (seneddol), ystatud, ordeiniad, gosodedigaeth, gorchymyn;

Rydym hefyd yn nodi bod dau derm gwahanol, h.y. "act" a hefyd "law", yn cael eu rhoi i gyfateb i "deddf" mewn ffynonellau terminoleg awdurdodol eraill megis y Porth Termau a'r Termiadur Addysg O'r herwydd, nid yw'n dilyn y byddai "deddfau perthnasol" o reidrwydd yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at ddeddfwriaeth sylfaenol yn unig.

Term a ddefnyddir yn aml i gyfleu ystyr ehangach amrediad o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yw "cyfraith". Fodd bynnag, pan ddefnyddir y lluosog "cyfreithiau" gallai hyn hefyd gael ei ddehongli i olygu naill ai gorff helaeth o gyfraith, neu ystyr mwy cul, sef Deddfau sylfaenol.

Y bwriad yma oedd cyfleu amrediad eang o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, ac rydym yn fodlon bod y ddwy iaith yn cyfleu hyn.

**Pwynt 4 – Craffu ar Rinweddau:**

Mae'r telerau y cytunwyd arnynt yn y cytundeb masnach rydd ("yr FTA") rhwng Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, Norwy a'r Deyrnas Unedig wedi bod yn destun y prosesau craffu seneddol gofynnol. Cafodd ymgynghoriad a oedd yn cynnwys y DU gyfan ei gynnal ar y broses o weithredu Pennod 12 o'r FTA rhwng 27 Ionawr 2023 a 10 Mawrth 2023. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad pellach wedi'i dargedu â rheoleiddwyr Cymru ym mis Hydref 2023.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod ymgynghori priodol wedi ei gynnal a'i fod yn bodloni gofynion Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002.

Mae'r diwygiadau i Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 a wneir gan Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023 yr un peth o ran

sylwedd â’r diwygiadau a wneir i’r Rheoliadau cyfatebol ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon gan Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) 2023, a’r rheoliadau cyfatebol ar gyfer yr Alban, sef Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Diogelwch Bwyd (Gweithredu Cytundebau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol Rhyngwladol) (Diwygiadau Amrywiol) (Yr Alban) 2023.

**Pwynt 5 – Craffu ar Rinweddau:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau rheolaidd â Llywodraeth y DU yn ystod y broses o ddatblygu’r Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) 2023 ar gyfer y DU gyfan.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir dro ar ôl tro ei bod yn annerbyniol i Lywodraeth y DU fwrw ymlaen â deddfu mewn meysydd datganoledig heb ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru na’r Senedd.  Gwnaethom gadarnhau gyda Llywodraeth y DU y byddem yn datgymhwyso Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) 2023, a gwnaethom rannu drafft o Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023 ym mis Medi 2023.

Cynhaliodd Llywodraeth y DU gyfarfodydd misol â’r holl Lywodraethau Datganoledig yn ystod 2023 i drafod gweithredu Deddf Cymwysterau Proffesiynol (2022), ynghyd â’r cynnydd a wnaed ar Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) 2023. Cadarnhaodd Llywodraeth y DU y dyddiadau ar gyfer y dadleuon Seneddol ar Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) 2023 ar 16 Tachwedd.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Masnach** |
| **DYDDIAD** | **11 Rhagfyr 2023** |
| **GAN** | **Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi** |

Yn unol â'r cytundeb ar gysylltiadau rhyngsefydliadol, rwy'n rhoi gwybod i'r Aelodau imi fod yn bresennol yng nghyfarfod y Grŵp Masnach Rhyngweinidogol ar 29 Tachwedd.

Hefyd yn bresennol yn y cyfarfod yr oedd:

- Y Gweinidog Hands – Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach, yr Adran Fusnes a Masnach, Llywodraeth y DU (MH)
- Y Gweinidog Lochhead – Gweinidog Busnesau Bach, Masnach ac Arloesi, Llywodraeth yr Alban
- Y Gweinidog Barker – Gweinidog Gwladol Gogledd Iwerddon
- Y Gweinidog Jones – Gweinidog Gwladol Cymru

Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Masnach yw'r prif fforwm ar gyfer trafod materion polisi masnach rhwng Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.

Yn y cyfarfod, buom yn trafod y paratoadau ar gyfer cynhadledd gweinidogol nesaf Sefydliad Masnach y Byd (MC13), yn ogystal â'r ymwneud rhwng y llywodraethau datganoledig a llywodraeth y DU yng nghyswllt y trafodaethau am Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Unol Daleithiau.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: VG-PO-0431-23

| | |
|---|---|
| Paul Davies AS<br>Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig<br><br>SeneddEconomy@senedd.cymru | Huw Irranca-Davies AS<br>Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad<br><br>SeneddLJC@senedd.cymru |

11 Rhagfyr 2023

Annwyl Paul, Huw,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb ar gysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi fy mod wedi bod yng nghyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach ddydd Mercher 29 Tachwedd.

Roedd Greg Hands, y Gweinidog Gwladol yn yr Adran Busnes a Masnach; Richard Lochhead, y Gweinidog Busnesau Bach, Masnach ac Arloesi yn Llywodraeth yr Alban, a Gweinidogion o Swyddfeydd Cymru a Gogledd Iwerddon yn bresennol.

Buom yn trafod y broses negodi sy'n mynd rhagddi gydag India, y paratoadau ar gyfer cynhadledd gweinidogol nesaf Sefydliad Masnach y Byd (MC13), yn ogystal â'r ymwneud rhwng y llywodraethau datganoledig a llywodraeth y DU yng nghyswllt y trafodaethau am Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Unol Daleithiau.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto i roi gwybod ichi am ddyddiad y cyfarfod nesaf.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 6.2

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) 2024** |
| **DYDDIAD** | **12 Rhagfyr 2023** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau 2024")**

Bydd Aelodau o'r Senedd yn dymuno gwybod ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnwyd am ganiatâd ar 14 Medi 2023 gan yr Arglwydd Benyon, y Gweinidog Bioddiogelwch, a Materion Morol a Gwledig i wneud offeryn statudol dan y teitl Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) 2024. Mae Rheoliadau 2024 yn gymwys mewn perthynas â Phrydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Bydd Rheoliadau 2024 yn cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 36(1)(a)a 51(1)(a) o Ddeddf Pysgodfeydd 2020.

Mae'r offeryn hwn yn gwneud diwygiadau i gyfraith ganlynol yr UE a ddargedwir:

Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1936/2001 sy'n pennu mesurau rheoli sy'n gymwys i bysgota am stociau penodol o bysgod mudol iawn.

Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1984/2003 sy'n cyflwyno system ar gyfer monitro masnach pysgod cleddyf a thiwna llygad mawr o fewn y Gymuned.

Rheoliad (UE) Rhif 640/2010 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn sefydlu rhaglen ddogfennaeth dalfeydd ar gyfer tiwna asgell las, Thunnus thynnus

Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 2015/98 ar weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol yr Undeb dan y Confensiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd a'r Confensiwn ar Gydweithredu Amlochrog ym Mhysgodfeydd Gogledd-orllewin Iwerydd yn y dyfodol.

Rheoliad (EU) 2016/1627 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gynllun adfer amlflwydd ar gyfer tiwna asgell las yn Nwyrain yr Iwerydd a Môr y Canoldir.

Rheoliad (UE) Rhif 2019/1154 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gynllun adfer amlfwydd ar gyfer pysgod cleddyf Môr y Canoldir

Rheoliad (EU) 2019/1241 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gadwraeth adnoddau pysgodfeydd a diogelu ecosystemau'r môr drwy fesurau technegol

Yn ogystal â diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir, mae'r offeryn hwn hefyd yn diwygio Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Dyframaethu (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019.

Rhoddwyd caniatâd gan fod y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan y Confensiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd (y Confensiwn). Mae rhai o'r darpariaethau'n diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir lle nad oedd deddfwriaeth wreiddiol yr UE wedi'i diweddaru cyn diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu i adlewyrchu rhwymedigaethau newydd ar gontractio partïon i'r Confensiwn. Mae rhai o'r darpariaethau'n diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir a oedd yn gyfredol ar ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu i adlewyrchu'r rhwymedigaethau newydd sydd wedi'u mabwysiadu o dan y Confensiwn ers i'r DU adael yr UE ac ymuno â'r Confensiwn fel parti contractio annibynnol. Er mwyn iddynt fod yn effeithiol, ystyrir iddynt fod yn gymwys ar sail y DU ac i bob llong sy'n gweithredu yn nyfroedd y DU neu ble bynnag y bônt.

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 12 Rhagfyr 2023  a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2024.

Eitem 6.3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Waith a Phensiynau** |
| **DYDDIAD** | **13 Rhagfyr 2023** |
| **GAN** | **Jane Hutt AS, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip** |

Cynrychiolais Lywodraeth Cymru yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngeinidogol ar Waith a Phensiynau ar 6 Tachwedd.

Cyhoeddwyd **datganiad ar y cyd** ar ôl y cyfarfod, sy'n cynnwys manylion llawn am bawb arall a oedd yn bresennol. Roedd yr agenda yn cynnwys: Cyflwyniad; Cylch Gorchwyl y Grŵp Rhyngweinidogol; Symud i Gredyd Cynhwysol; Ymgyrch Manteisio ar Gredyd Pensiwn; ac ymgyrch Llywodraeth Cymru, Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi.

Fel y cyfeirir ato yn y datganiad ar y cyd, cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl yn ffurfiol. Roeddwn yn croesawu sefydlu'r Grŵp Rhyngweinidogol, a fydd yn ein galluogi i drafod meysydd sydd o ddiddordeb i bob aelod o'r grŵp – yn enwedig cefnogaeth i'r bobl fwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Amlygais flaenoriaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi drwy gefnogi pobl i gael cymaint o incwm ag sy'n ddyledus i'w haelwyd. Pwysleisiais bwysigrwydd sicrhau bod y rhai sy'n hawlio Credyd Treth yng Nghymru, sydd bellach yn rhan o'r broses Symud i Gredyd Cynhwysol, yn cael cefnogaeth drwy gydol y cyfnod pontio. Soniais am fy fy mhryderon na ddylai pobl golli unrhyw arian y mae ganddynt hawl iddo oherwydd y broses bontio hon.

O ran y nifer sy'n manteisio ar Gredyd Pensiwn, tynnais sylw at y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei wneud i'w gynyddu. Mae hyn yn cynnwys yr ymgyrch arloesol, Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi i, sy'n gweld canlyniadau gwych wrth i fwy a mwy fanteisio ar fudd-daliadau ledled Cymru. Y llynedd, helpodd yr ymgyrch dros 7,500 o bobl i hawlio gwerth dros £3.6 miliwn o incwm ychwanegol. Rhannais ein bod ar hyn o bryd yn paratoi i lansio ein pedwaredd ymgyrch a fydd yn cynnwys deunyddiau hyrwyddo i dargedu pobl hŷn yn benodol ar Gredyd Pensiwn.

Mynegais fy nghefnogaeth i'r defnydd o gynlluniau peilot, fel yr un y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ei redeg ym Mhowys, lle cymerir camau i annog pobl hŷn a allai fod yn

gymwys i gael Credyd Pensiwn i gyflwyno hawliad. Fodd bynnag, a thua 80,000 o bensiynwyr ledled Cymru sydd â hawl i Gredyd Pensiwn ond heb fod yn ei hawlio ar hyn o bryd, mae llawer o waith i'w wneud o hyd.

Er bod ein prosiectau yng Nghymru yn cyflawni canlyniadau gwych, fe wnes i unwaith eto godi'r awgrym y byddai ymgyrch fudd-daliadau strategol ledled y Deyrnas Unedig yn ddefnyddiol i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar hyn ymhellach. Dylai ymgyrch o'r fath ganolbwyntio, nid dim ond ar godi ymwybyddiaeth, ond hefyd ar gefnogi pobl i gael gafael ar wasanaethau cyngor a chymorth, yn ogystal â hwyluso trefniadau rhannu data.

Yn olaf, codais fy mhryderon mai dim ond rhan o'r ateb yw hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth wrth geisio cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau, ac y bydd angen cymorth ar rai pobl i wneud yr hawliad ei hun. Er bod Cronfa Gynghori Sengl Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sector gwirfoddol i wneud darpariaeth o'r fath yng Nghymru. Galwais ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ystyried ariannu gwasanaeth Cymorth i Hawlio ar gyfer Credyd Pensiwn, fel eu gwasanaeth sy'n helpu pobl i hawlio Credyd Cynhwysol.

Bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Waith a Phensiynau yn cael ei gadeirio gen i, fel cynrychiolydd Llywodraeth Cymru, a disgwylir iddo gael ei gynnal yng ngwanwyn 2024.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH/PO/439/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

CC: Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

13 Rhagfyr 2023

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi bod cyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Waith a Phensiynau wedi'i gynnal ar 6 Tachwedd.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Gweinidog Pobl Anabl, Iechyd a Gwaith, a oedd yn cynrychioli Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Fel y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, â chyfrifoldeb am wasanaethau cynghori ac eiriolaeth, roeddwn i yn cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Hoffwn ymddiheuro na chawsoch wybod am y Grŵp Rhyngweinidogol cyn iddo gyfarfod am y tro cyntaf, yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol. Byddaf yn rhoi gwybod i chi am holl gyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol yn y dyfodol.

Yn dilyn y cyfarfod cyntaf, rwyf wedi cyhoeddi **Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig** sy'n grynodeb o'r trafodaethau a gafwyd. Fel y cadarnhawyd yn y Datganiad, yn unol â threfniadau cylchdroi cadeiryddion, bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gadeirio gen i.

Rwy'n disgwyl i'r cyfarfod nesaf gael ei gynnal yng ngwanwyn 2024, a byddaf yn rhoi diweddariad ysgrifenedig ar y trefniadau, gan gynnwys agenda a dyddiad tebygol maes o law.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Iwerddon** |
| **DYDDIAD** | **15 Rhagfyr 2023** |
| **GAN** | **Y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS** |

Ymunais â 40fed cyfarfod y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ar 23 a 24 Tachwedd, a gynhaliwyd gan Lywodraeth Iwerddon.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Taoiseach Leo Varadkar TD ar ran Llywodraeth Iwerddon. Ymysg y rhai eraill a oedd yn bresennol oedd y Tánaiste Micheál Martin TD, Prif Weinidog yr Alban, y Gwir Anrhydeddus Humza Yousaf ASA, Prif Weinidog Jersey, y Dirprwy Kristina Moore, Prif Weinidog Ynys Manaw, yr Anrhydeddus Alfred Cannan MHK, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol, y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, ac Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon, y Gwir Anrhydeddus Chris Heaton-Harris AS.

Thema'r uwchgynhadledd hon oedd Trawsnewid Bywydau Plant: Mynd i'r Afael â Thlodi Plant a Gwella Lles.

Manteisiodd y Cyngor ar y cyfle i fyfyrio ar effaith barhaol cytundeb Belfast/Gwener y Groglith ar ei ben-blwydd yn 25 oed, a phwysigrwydd y Cyngor fel sefydliad annibynnol o dan y cytundeb.

Trafodwyd pynciau sydd o ddiddordeb i bawb, gan gynnwys y gwrthdaro yn Israel a Gaza; ymosodiad Rwsia ar Wcráin; amcanion hinsawdd a rennir; y berthynas rhwng y DU a'r UE a'r argyfwng costau byw parhaus. Roedd hyn yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon, ac roedd pawb yn edrych ymlaen at weld y sefydliadau datganoledig sy'n rhannu grym yno'n cael eu hadfer cyn gynted â phosibl.

Cynhaliwyd yr uwchgynhadledd yng ngoleuni'r trywanu trasig a'r terfysg dilynol yn Nulyn ar 23 Tachwedd. Nodais yn y cyfarfod llawn y potensial ar gyfer rhannu profiadau ar y cyd i gefnogi cydlyniant cymunedol.

Trafodwyd yr ymdrechion ar draws yr aelod-weinyddiaethau i fynd i'r afael â thlodi plant a gwella lles. Yn ogystal â thynnu sylw at raglen Dechrau'n Deg Cymru, y cynllun i gyflwyno prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd a'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r flwyddyn ysgol, amlinellais hefyd ein cynllun peilot incwm sylfaenol i bobl ifanc sy'n gadael gofal.

Cyhoeddwyd hysbysiad ar y cyd ar ôl y cyfarfod, sydd ar gael yma: 40fed Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig - Hysbysiad.pdf (britishirishcouncil.org)

Bydd uwchgynhadledd nesaf y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn cael ei chynnal gan Lywodraeth Ynys Manaw.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

15 Rhagfyr 2023

Annwyl Huw,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Nulyn**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 23 Tachwedd ynghylch y cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol ac Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig sy'n cael ei chynnal yn Iwerddon, hoffwn dynnu eich sylw at fy natganiad ysgrifenedig heddiw, ac at hysbysiad y Cyngor sy'n crynhoi canlyniadau'r Uwchgynhadledd.

Tra roeddwn yn yr Uwchgynhadledd, manteisiais ar y cyfle i gynnal cyfarfodydd dwyochrog gyda'r Gweinidog Gwariant Cyhoeddus a Diwygio, Paschal Donohoe TD, y Taoiseach Leo Varadkar TD, Prif Weinidog yr Alban, y Gwir Anrhydeddus Humza Yousaf ASA, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol, y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau canlynol: Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; Llywodraeth Leol a Thai; Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; a Chydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/427/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

12 Rhagfyr 2023

Annwyl Huw,

Diolch am yr adroddiad gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Ynni y DU.

Rydych eisoes wedi derbyn fy ymateb i'ch argymhelliad cyntaf ynghylch y broses o fewn Llywodraeth Cymru ynghylch penderfyniadau sy'n gysylltiedig â Biliau'r DU. O ran eich ail argymhelliad, tynnaf eich sylw at y prosesau a amlinellwyd gennym yn yr ymateb hwnnw. Rydym yn disgwyl ymgysylltiad amserol ac agored gan Lywodraeth y DU ar holl ddeddfwriaeth y DU a allai fod yn berthnasol, yn unol ag ymrwymiadau a wnaed fel rhan o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol (IGR). Fel y dywedais wrth eich Pwyllgor ac yn y Cyfarfod Llawn, ni ddigwyddodd hyn ar gyfer Bil Ynni y DU.

Rwyf am nodi'r camau yr wyf wedi galw amdanynt i sicrhau, lle mae Llywodraeth y DU yn llunio polisi newydd mewn meysydd sy'n effeithio ar ein gallu i gyflawni ein hymrwymiadau sero net, gan gynnwys materion fel y rhai a gwmpesir yn Neddf Ynni y DU bellach, bod cyfranogiad ac ymgysylltiad effeithiol â'r gwledydd datganoledig. Mae'r weithred hon yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd gennym wrth ddatblygu Bil Ynni y DU a gwaith ehangach ar sero net.

Yn gyntaf, rwy'n parhau i alw ar Lywodraeth y DU, ar lefel y portffolio gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net ac i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol bod angen mwy o waith trawslywodraethol ar y gwaith rhynglywodraethol presennol ar sero net, gan gynnwys ynni. Hefyd, mae angen i Lywodraeth y DU gael mwy o gydnabyddiaeth bod gan faterion a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU oblygiadau sylweddol ar ein gallu i gyflawni ein hymrwymiadau ynni a sero net ehangach. Rwyf wedi ysgrifennu at y ddau Ysgrifennydd Gwladol yn galw am gryfhau'r strwythurau rhynglywodraethol presennol i wneud y cydweithio hwn yn bosibl. Mae hwn hefyd yn fater yr wyf wedi'i godi gyda'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru gan nodi Bil Ynni y DU fel enghraifft lle nad oedd trefniadau gweithio rhynglywodraethol yn amlwg yn ddigonol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ail, ac yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, amlygodd Bil Ynni y DU fod y setliad datganoli yn llai na chlir mewn rhai meysydd ar ble mae cyfrifoldeb penodol. I gydnabod hyn, rydym wedi cytuno trwy'r IMG ar Sero Net bod grŵp rhynglywodraethol newydd Gwres ac Adeiladau yn cael ei sefydlu i weithio trwy fanylion sut rydym yn datgarboneiddio gwres ac adeiladau mewn ffordd lle mae camau gweithredu ledled gwledydd y DU yn cefnogi ein blaenoriaethau sero net ar y cyd. Bydd hyn yn cefnogi gweithredu Deddf ynni'r DU yn uniongyrchol a gwaith ehangach ar ddatgarboneiddio gwres ac adeiladau.

Er fy mod yn parhau i bryderu'n fawr am y dull y mae Llywodraeth y DU wedi'i gymryd i ddiystyru'r setliad datganoli i fwrw ymlaen â'r Bil heb gydsyniad y Senedd, gallaf adrodd bod nifer o'r ymrwymiadau a wnaeth Llywodraeth y DU i gryfhau'r gofyniad i ymgynghori â'r Llywodraethau Datganoledig yn cael eu gweithredu. Er ein bod ar gamau cyntaf un gweithredu, mae ymgynghori ar waith ar draws nifer o feysydd a gobeithiaf y bydd hyn yn arwain at ddatblygu polisi ystyrlon ar y cyd mewn meysydd lle teimlwn fod y Ddeddf yn gweithredu mewn meysydd cymhwysedd datganoledig.

Rwy'n llwyr werthfawrogi bod gosod ein Memorandwm ar gyfer y Bil hwn mor hwyr yn y broses o graffu effeithiol gan y Senedd yn hynod heriol. Er fy mod yn ailadrodd ein bod wedi gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac atodol cyn gynted ag y gallem yng nghyd-destun penodol y Bil hwn, roedd mwy y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi'i wneud i ddiweddaru'r Senedd ar ein dadansoddiad a'n gwaith gyda Llywodraeth y DU ar y Bil. Er fy mod yn gobeithio na fyddwn yn y sefyllfa hon eto, rwy'n parhau yn ymrwymedig i sicrhau bod y Senedd a'r pwyllgorau perthnasol yn cael eu diweddaru ar gynnydd i gefnogi craffu effeithiol.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-JJ-3057-23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Rhagfyr 2023

Annwyl Huw

Diolch am Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Bil Seilwaith (Cymru), a gyhoeddwyd ar 22 Tachwedd 2023.

Gweler fy ymatebion i'r set o argymhellion yn yr adroddiad yn Atodiad 1. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid er gwybodaeth.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad 1

## Bil Seilwaith (Cymru)

## Ymatebion i argymhellion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

**Argymhelliad 1. Dylai’r Gweinidog ymateb i’r casgliadau a’r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn i’r ddadl ar egwyddorion cyffredinol Cyfnod 1 gael ei chynnal.**

Mae Gweinidogion yn ceisio ymateb i'r Pwyllgorau cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl, ond nid yw bob amser yn ymarferol i Weinidogion Cymru wneud hyn cyn y ddadl Cyfnod 1.

**Argymhelliad 2. Dylai’r Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Senedd am drafodaethau Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU ynghylch y materion sy’n dal heb eu datrys, sef cydsyniad Gweinidog y Goron a throsglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer caniatáu gorsafoedd cynhyrchu ynni ar y môr rhwng ymyl y môr tiriogaethol ac ymyl parth Cymru.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

<u>Trosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol</u>
Ysgrifennodd yr Arglwydd Callanan, Is-ysgrifennydd Gwladol y Senedd dros Effeithlonrwydd Ynni a Chyllid Gwyrdd, ataf ar 16 Tachwedd yn cadarnhau safbwynt Llywodraeth y DU. Mae o'r farn bod cynnal y dull cyfredol yn rhoi eglurder i ddatblygwyr a buddsoddwyr drwy gynnal cysondeb rhwng y system gydsynio yng Nghymru a Lloegr ac nad yw'n amlwg bod y dull cyfredol yn creu anawsterau sylweddol i ddatblygwyr. Nid yw'r llythyr yn cynnig cyfle i roi rhagor o dystiolaeth ar y mater hwn. Rwy'n anghytuno â'r farn hon ac wedi rhoi cyfarwyddyd i'm swyddogion ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol.

<u>Cydsyniadau Gweinidog y Goron</u>
Mae'r gwaith o ymgysylltu â Llywodraeth y DU dros gydsyniadau Gweinidog y Goron yn mynd rhagddo o hyd. Mae Llywodraeth y DU yn ymwybodol o'n hamserlen ar gyfer cyflwyno diwygiadau.

**Argymhelliad 3. Dylai’r Gweinidog adolygu’r Bil a rhoi ar ei wyneb wybodaeth sydd eisoes yn hysbys, er enghraifft, am y gofynion sydd ar bobl neu swyddogaethau y mae’n rhaid i bobl eu cyflawni, a phwy yw’r bobl hynny, fel bod gwell cydbwysedd rhwng yr hyn y gofynnir i’r Senedd ei gymeradwyo, a pha fanylion a geir yn y Ddeddf o ganlyniad, a beth a adewir i is-ddeddfwriaeth.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn cyflwyno diwygiadau i ddarparu rhagor o fanylion ar wyneb y Bil, lle byddaf o'r farn bod hynny'n briodol.

**Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog ddarparu i'r Senedd restr glir, lawn a manwl o'r holl bwerau dirprwyedig yn y Bil, gan gyfeirio at eu lleoliad, eu math a'r weithdrefn graffu benodol ar eu cyfer.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd manylion yn cael eu cynnwys yn y memorandwm esboniadol diwygiedig.

**Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog egluro pam nad yw'r Bil yn cynnwys adrannau trosolwg, yn enwedig ar gyfer Rhannau 1 i 7, i ddisgrifio'r hyn y mae pob rhan yn ceisio ei gyflawni a sut y maent yn berthnasol i'w gilydd.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad.

Diben darpariaeth drosolwg yw helpu'r darllenydd i lywio drwy Ddeddf. Caiff trosolygon eu cynnwys yn aml yn Neddfau'r Senedd, ond nid bob tro. Polisi Llywodraeth Cymru ar drosolygon (fel y'i nodir yn 'Drafftio Deddfau i Gymru') yw y dylai drafftwyr ystyried a fyddant o gymorth i'r darllenwyr. Nid oes angen trosolwg os yw'r tabl cynnwys neu'r teitl hir eisoes yn cynnig darlun clir. Roedd drafftwyr y Bil hwn o'r farn bod teitlau'r rhannau a'r croesbenawdau yn rhoi syniad clir o'r hyn y mae'r Bil yn ei wneud ac na fyddai trosolwg yn ychwanegu unrhyw werth ychwanegol. O ystyried sylwadau'r Pwyllgor, byddaf yn ystyried ymhellach a ellid llunio trosolwg sy'n ychwanegu gwerth heb fynd yn rhy anhydrin.

**Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog:**
**▪ darparu eglurder a chyfiawnhad manwl dros gynnwys atal llifogydd a mwynau (yn adran 17(4)(b) ac (c) yn y drefn honno) fel mathau o brosiectau y gellir eu hychwanegu at gwmpas y Bil (os a phan ddaw'n ddeddf) drwy is-ddeddfwriaeth;**
**▪ esbonio pam na chafodd meini prawf ar gyfer y math o ddatblygiad a fyddai'n dod o dan feysydd atal llifogydd a mwynau eu cynnwys a wyneb y Bil wrth ei gyflwyno.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Gall prosiectau atal llifogydd, fel rhwystrau a systemau, yn ogystal â gweithrediadau sy'n cynnwys ennill adnoddau mwynol, greu newid amgylcheddol ar raddfa fawr, effeithio ar gymunedau lluosog, gofyn am gydsyniadau lluosog o dan gyfundrefnau gwahanol a ffurfio rhan o'r seilwaith cenedlaethol yng Nghymru. Felly, rwy'n ystyried y dylid eu cynnwys yn y broses gydsynio newydd.

Fodd bynnag, er ei bod yn glir y gallai prosiectau sy'n ymwneud ag atal llifogydd a mwynau gyrraedd graddfa a chymhlethdod sy'n golygu eu bod o bwysigrwydd cenedlaethol, nid wyf wedi cael tystiolaeth i ddangos trothwy addas ar gyfer y

prosiectau hyn. Mae hyn yn golygu nad wyf wedi nodi trothwy prosiect penodol lle y byddai cais yn cael ei ystyried o dan y gyfundrefn newydd.

Wrth i ragor o dystiolaeth ddod i law, bydd fy swyddogion yn ymgysylltu â'r holl randdeiliaid cyn datblygu unrhyw gynigion i gynnwys prosiectau o'r fath.

**Argymhelliad 7. Fel yr awgrymwyd gan randdeiliaid, er mwyn galluogi ymgynghoriad cyhoeddus, dylai'r Gweinidog ystyried defnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol wrth wneud rheoliadau o dan adran 17(1) sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â'r meysydd atal llifogydd a mwynau.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Yn fy marn i, mae'r weithdrefn gadarnhaol, ynghyd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar reoliadau, yn cynnig digon o gyfleoedd i'r Senedd ac i randdeiliaid graffu ar unrhyw reoliadau a wnaed o dan adran 17.

Dim ond mewn achosion prin y defnyddir y weithdrefn uwchgadarnhaol lle caiff cynnwys Bil ei newid yn sylfaenol. Nid dyma sy'n digwydd yn adran 17, gan mai cwmpas yr adran hon yw diwygio neu ychwanegu'r math o brosiectau a gaiff eu hystyried yn Brosiectau Seilwaith Arwyddocaol yn unig. Nid yw'n newid egwyddorion y Bil ei hun.

**Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog ddarparu manylion a rhesymau ychwanegol ynghylch pam y mae angen y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 22 yn ychwanegol at y pŵer yn adran 17.**.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad.

Mae diben gwahanol i'r ddwy adran. Cwmpas adran 17 yw gallu diwygio'r Bil yn y dyfodol os daw tystiolaeth i'r amlwg nad yw'r categorïau a'r meini prawf sy'n diffinio prosiect fel Prosiect Seilwaith Arwyddocaol yn addas at y diben mwyach, er enghraifft oherwydd datblygiadau technolegol neu newidiadau deddfwriaethol. Mae diwygiad a wneir drwy adran 17 yn diwygio wyneb y Bil.

Mae cwmpas adran 22 yn wahanol. Cydnabyddir y gall prosiect unigol fod o arwyddocâd cenedlaethol lle mae amgylchiadau newydd neu benodol, hyd yn oes os nad yw'n perthyn i'r categorïau yn Rhan 1. Mae Adran 22 yn galluogi i brosiect unigol gael ei ddynodi'n brosiect seilwaith arwyddocaol yn sgil amgylchiadau penodol, heb restru'r math hwnnw o brosiect ar wyneb y Bil. Y rheswm dros hyn yw nad yw'r math o brosiect o arwyddocâd cenedlaethol o dan amgylchiadau eraill.

Mae'r pŵer creu rheoliadau sydd wedi'i gynnwys yn adran 22(2)(c) yno i gyfyngu'r pŵer i gyfarwyddo bod prosiect yn brosiect seilwaith arwyddocaol i'r rhai a bennwyd yn y rheoliadau.

**Argymhelliad 9. Yn ogystal ag argymhelliad 8, dylai'r Gweinidog egluro'r canlyniadau pe bai adran 22 yn cael ei dileu o'r Bil, a beth fyddai'r Gweinidog yn cael ei atal rhag ei wneud na ellid ei gyflawni gydag adran 17.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Fel y nodwyd mewn ymateb i argymhelliad 8, mae dibenion gwahanol i'r adrannau. Pe bai adran 22 yn cael ei thynnu allan o'r Bil, yr unig brosiectau a fyddai'n cael eu cynnwys gan y gyfundrefn newydd fyddai'r prosiectau hynny ar wyneb y Bil.

Felly, ni fyddai unrhyw brosiectau islaw'r trothwyon hynny yn cael eu cynnwys gan y gyfundrefn newydd. Er enghraifft, ni fyddai fferm solar mewn lleoliad sensitif iawn sy'n cynhyrchu 40MW yn cael ei chynnwys gan y gyfundrefn gydsynio newydd. Fodd bynnag, o gofio natur y prosiect, mae'n bosibl y byddai'n cael ei ystyried yn fwy priodol gwneud penderfyniad arno o dan y gyfundrefn newydd. Mae Adran 22 yn galluogi i brosiectau unigol gael eu dynodi fel prosiect seilwaith arwyddocaol (ar yr amod bod y prosiect wedi'i restru mewn rheoliadau dan 22(2)(c)).

Ni ellid cyflawni'r gallu i brosiectau fel yr enghraifft o fferm solar a grybwyllwyd uchod gael eu hystyried gan y gyfundrefn newydd drwy adran 17 yn unig, a hynny am y rhesymau canlynol:

> I ddechrau, mae adran 22 yn gymwys i brosiectau unigol, ond mae adran 17 yn gymwys i bob prosiect uwchlaw trothwy. Felly, mae cyfarwyddyd o dan adran 22 yn ystyried amgylchiadau penodol i'r safle.
>
> Yn ail, gan ddefnyddio'r enghraifft o fferm solar, ni fwriedir cynnwys pob prosiect uwchlaw 40MW, dim ond y prosiect unigol hwn oherwydd ei amgylchiadau penodol.
>
> Yn drydydd, byddai defnyddio adran 17 i gyflawni'r un canlyniadau ag adran 22 yn golygu bod angen diwygio Rhan 1 y Bil yn aml.
>
> Yn bedwerydd, bwriad adran 22 yw cymhwyso'r gyfundrefn newydd at brosiect unigol. Ni fyddai newid Rhan 1 o'r Bil gan ddefnyddio adran 17 yn ymateb i brosiect unigol sydd wedi dod i'r amlwg, oni chaiff y diwygiad ei gymhwyso'n ôl-weithredol.
>
> Yn bumed, mae datblygwyr wedi nodi eu bod o blaid ystyried rhai prosiectau penodol islaw'r trothwy o dan y gyfundrefn newydd. Mae Adran 25 yn nodi beth yw cais cymwys gan ddatblygwr ar gyfer Cyfarwyddyd a bod yn rhaid i Weinidogion Cymru roi ymateb.

Mae gan Adran 17 a 22 ddiben gwahanol yn y bôn, ac rwyf o'r farn y byddai tynnu adran 22 allan yn niweidiol i egwyddorion y Bil.

**Argymhelliad 10. Dylid diwygio adran 24 i gynnwys manylion yr hyn y gall cyfarwyddyd a wneir o dan is-adran (1) ei gynnwys. Gellir diwygio'r Bil hefyd i**

**gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy'n galluogi diwygio'r rhestr hon.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad.

Mae Adran 24 yn nodi y gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd sy'n dynodi na ddylai datblygiad arfaethedig a fyddai'n cael ei ystyried yn brosiect seilwaith arwyddocaol fel arall gael ei ddosbarthu fel un at ddiben y Bil hwn. Dim ond os bydd y datblygiad arfaethedig yn rhannol yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru y gellir rhoi cyfarwyddyd a wnaed o dan adran 24.

Felly, mae'r pŵer wedi'i gyfyngu'n naturiol ar ei ffurf gyfredol. Caiff prosiectau sydd wedi'u dosbarthu fel prosiectau seilwaith arwyddocaol eu rhestru yn adrannau 2 i 16, a dim ond i'r prosiectau hyn y gall cyfarwyddiadau o dan adran 24 fod yn gymwys. Prosiect Seilwaith Arwyddocaol. Dim ond pan fo'r datblygiad yn rhannol yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru y gellir gwneud cyfarwyddyd. Mae hyn yn golygu mai dim ond prosiectau sy'n croesi ffin yr ardaloedd hyn all fod yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd o dan yr adran hon.

**Argymhelliad 11. Dylid diwygio adran 24 i'w gwneud yn ofynnol bod cyfarwyddyd a wneir o dan is-adran (1) yn cael ei osod gerbron y Senedd, a bod datganiad i gyd-fynd ag ef i holl Aelodau'r Senedd.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Rwy'n derbyn y byddai hysbysu Aelodau'r Senedd yn fanteisiol, ac rwy'n bwriadu cyflwyno diwygiad i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r cyfarwyddyd a chyhoeddi datganiad i gyd-fynd ag ef yn y Senedd.

**Argymhelliad 12: Dylid diwygio adran 31 o'r Bil fel bod manylion y swyddogaethau y cyfeirir atynt yn is-adran (5), y caniateir eu cynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (4), yn cael eu rhestru ar wyneb y Bil. Gellir diwygio'r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy'n galluogi diwygio'r rhestr hon.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Mae adran 31(4) yn nodi cwmpas yr hyn y gellir ei gynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan y ddarpariaeth honno, a chânt eu cyfyngu i ddarpariaeth am geisiadau am gydsyniad seilwaith. Mae is-adran (5) yn egluro y gall darpariaeth a wneir o dan is-adran (4) roi swyddogaeth i unrhyw unigolyn, gan gynnwys defnyddio disgresiwn. Bwriedir i'r ddarpariaeth a wneir yn is-adran (5), ac mewn darpariaethau tebyg mewn mannau eraill yn y Bil alluogi is-ddirprwyaeth. Yn yr achos hwn, bydd y swyddogaethau dewisol yn gysylltiedig â'r broses a nodwyd yn y rheoliadau ar gyfer gwneud cais.

Mae'r Datganiadau o Fwriad y Polisi sy'n cyd-fynd â'r Bil yn rhoi gwybodaeth am yr hyn y bwriedir iddo gael ei gynnwys yn y rheoliadau hynny, yn amodol ar

ymgynghoriad. Byddai gwahanu'r ‘swyddogaethau’ o'r broses yn achub y blaen ar yr ymgynghoriad a byddai'n arwain at hollt dryslyd mewn proses weinyddol rhwng y darpariaethau ar wyneb y Bil ac mewn rheoliadau.

**Argymhelliad 13: Dylid diwygio adran 33(2)(a) o’r Bil i ddatgan bod yn rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru, ac unrhyw gorff/person hysbys arall, gael hysbysiad o unrhyw gais am gydsyniad seilwaith.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.
Mae'n bosibl mai dim ond ceisiadau penodol sy'n rhan o gwmpas y Bil y bydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddiddordeb ynddynt. Ceir sicrwydd ynghylch y ceisiadau yn ardal forol Cymru a'r rhai sy'n croesi'r ardal ar y tir / ar y môr oherwydd rôl Cyfoeth Naturiol Cymru wrth gydsynio i drwyddedau morol.

Rwyf wedi sicrhau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei hysbysu bob amser ynghylch cais i ddatblygu yn ardal forol Cymru drwy ei osod ar wyneb y Bil yn adran 33(2)(b)(i).
Gan ddatblygu hyn ymhellach, rwyf wedi ceisio cryfhau rhan Cyfoeth Naturiol Cymru yn y broses gydsynio drwy gyflwyno diwygiad sy'n gofyn i ddarpar ymgeiswyr hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch cais arfaethedig i ddatblygu yn ardal forol Cymru yn y cyfnod cyn ymgeisio. Bydd hyn yn ei alluogi i wneud cynlluniau adnoddau effeithiol mewn perthynas ag anghenion cydsynio yn y dyfodol.

At hynny, mae adran 33(2)(c) o'r Bil yn darparu ar gyfer rheoliadau i ddynodi unrhyw bersonau eraill neu ddisgrifiadau o bersonau i'w hysbysu ynghylch cais. Bydd hyn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i nodi pa fathau o ddatblygiad neu geisiadau ychwanegol y gall fod ganddo ddiddordeb ynddynt ac yr hoffai gael gwybod amdanynt.

**Argymhelliad 14: Dylid diwygio adran 34 o’r Bil i ychwanegu manylion y gofynion y caniateir eu gosod, ac ar bwy, drwy reoliadau o dan is-adran (1)(b). Gellir diwygio’r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy’n ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy’n galluogi diwygio’r rhestr hon.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Yn ei hanfod, dim ond un swyddogaeth y gellir ei rhoi drwy rinwedd adran 34(1)(b), sy'n ei gwneud yn ofynnol i unigolyn ymateb i hysbysiad. Diben y pŵer hwn yw sicrhau bod dyletswydd ar y rhanddeiliaid hynny a chanddynt wybodaeth ac arbenigedd manwl mewn perthynas â mathau penodol o ddatblygiad a nodwyd gan y Bil i ymateb i hysbysiad ynghylch cais, gan mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu rhan o'r dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn gallu ystyried cais yn effeithiol.

Oherwydd yr amrywiaeth o fathau o ddatblygiad a nodir gan y Bil, bydd y rhanddeiliaid hyn yn amrywio fesul achos a byddai nodi rhestr gyflawn yn cynnwys pob un o'r amgylchiadau lle mae'n ofynnol iddynt ymateb i hysbysiad, yn ei gwneud hi'n feichus darllen y Bil. Er enghraifft, caiff y rhestr gyfredol o ymgyngoreion statudol

ar gyfer ceisiadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ei nodi yn Atodlen 5 o Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd), ac mae'n dangos cymhlethdod pwy y mae angen ymgynghori â nhw a phryd. At hynny, nid dim ond ceisiadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol y mae'r Bil yn berthnasol iddynt. Bydd angen imi hefyd ystyried ymgyngoreion ychwanegol o gyfundrefnau cydsynio eraill sy'n bodoli, sy'n ychwanegu haen gymhlethdod bellach.

Rwyf hefyd o'r farn ei bod hi'n briodol bod y rheoliadau yn cynnwys materion gweinyddol o'r math hwn. Dylai'r rheoliadau gynnig gwybodaeth gydlynol am y weithdrefn i'w dilyn.

**Argymhelliad 15: Dylid diwygio adran 34 o'r Bil fel bod manylion y swyddogaethau y cyfeirir atynt yn is-adran (2) y gellir eu rhoi drwy reoliadau a wneir o dan is-adran (1) yn cael eu rhestru ar wyneb y Bil. Gellir diwygio'r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy'n golygu y gellid diwygio'r rhestr hon.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Fel y gwelwyd yn yr ymateb i argymhelliad 12, diben y dull hwn yw sicrhau y gellir cynnwys swyddogaethau dewisol mewn unrhyw reoliadau. Mae cwmpas y rheoliadau yn glir o adran 34(1), ac rwyf wedi nodi fy mwriad ar sut y caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio yn y Datganiadau o Fwriad y Polisi. Mae'n briodol cynnwys pob mater sy'n rhan o gwmpas adran 34(1) mewn rheoliadau.

**Argymhelliad 16: Dylai'r Gweinidog egluro'r newid y bydd yn mynd ati i'w wneud i adran 38 o'r Bil, yn unol â'n sylwadau bod yr adran hon yn cynnwys un pŵer i wneud rheoliadau yn is-adran (1). Yn benodol, dylai'r Gweinidog egluro a yw gwelliant yn cael ei gyflwyno i newid y cyfeiriad yn is-adran (3) o fod yn gyfeiriad at 'is-adran (2)' i fod yn gyfeiriad at 'is-adran (1)', neu a fydd angen gwelliant mwy sylweddol i wneud y newidiadau sydd eu hangen i adran 38.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddwn yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i egluro bod yr adran yn cynnwys un pŵer i wneud rheoliadau. Bydd hyn yn cynnwys tynnu is-adran (2) allan a newid y cyfeiriad yn is-adran (3) er mwyn cyfeirio at is-adran (1).

**Argymhelliad 17: Dylai'r Gweinidog egluro'r pwerau sydd yn adran 42 o'r Bil, a darparu'r manylion angenrheidiol amdanynt.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Nodaf sylwadau'r Pwyllgor mewn perthynas â'r angen i ddarparu rhagor o eglurder a manylder mewn perthynas â'r pwerau yn adran 42 o'r Bil. Rwyf wedi nodi'n fanwl pa

ofynion fyddai'n debygol o gael eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth a wneir o dan yr adran hon yn y Datganiadau o Fwriad y Polisi sy'n cydfynd â'r Bil.
Rwy'n bwriadu i'r datganiadau hyn gynnig man cychwyn, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ehangach wrth i'r is-ddeddfwriaeth gael ei datblygu ac felly, mae'n bosibl y cânt eu newid yn seiliedig ar y sylwadau a geir gan randdeiliaid.

**Argymhelliad 18: Dylid diwygio adran 42 o'r Bil i nodi manylion y weithdrefn ar gyfer sefyllfaoedd pan fo'r corff sy'n gwneud penderfyniadau yn cael ei newid o fod yn awdurdod archwilio i Weinidogion Cymru, ac i'r gwrthwyneb.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Materion trefniadol yw'r rhain sy'n gweddu'n well i is-ddeddfwriaeth. Er enghraifft, bydd Gweinidogion Cymru yn darparu hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod archwilio o'u bwriad i ddiwygio'r corff gwneud penderfyniadau. Yn ogystal, byddai angen hysbysu'r ymgeisydd, rhanddeiliaid perthnasol ac unrhyw bersonau eraill yr ystyrir yn angenrheidiol am y newid.

**Argymhelliad 19: Dylid diwygio adran 43 o'r Bil fel bod yr egwyddorion sy'n gysylltiedig â phŵer mynediad, yn ogystal ag unrhyw gyfyngiadau neu feini prawf a ddylai fod yn berthnasol wrth wneud y rheoliadau, fod ar wyneb y Bil.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn cyflwyno diwygiad i nodi rhagor o fanylion am bwerau mynediad ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 20: Dylid diwygio'r Bil fel bod y weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft yn gymwys wrth arfer y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 43.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn cyflwyno diwygiad er mwyn i unrhyw bŵer i wneud rheoliadau a nodwyd o dan adran 43 fod yn destun y weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Ailystyrir yr angen i bennu pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 43 gan ystyried ein bod wedi derbyn Argymhelliad 19 i nodi rhagor o fanylion am bwerau mynediad ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 21: Dylid diwygio adran 45 o'r Bil fel bod manylion y caniateir eu rhoi mewn rheoliadau ynglŷn â swyddogaethau cynrychiolydd penodedig y cyfeirir atynt yn is-adran (6) yn cael eu rhestru ar wyneb y Bil. Gellir diwygio'r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy'n golygu y gellid diwygio'r rhestr hon.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Bydd yn ofynnol i unrhyw swyddogaethau a nodir ar wyneb y Bil sy'n ymwneud â chynrychiolydd penodedig fod yn gysylltiedig â gofynion eraill a nodwyd mewn rheoliadau. Dylai fod un lle i fynd ar gyfer yr holl swyddogaethau hynny a byddai cael rhai ohonynt ar wyneb y Bil ac eraill mewn rheoliadau yn golygu bod y broses yn anhygyrch. Yn ogystal, byddai'n annhebygol iawn y gellid gwahanu'r swyddogaethau hyn yn effeithiol.

**Argymhelliad 22: Dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion ac eglurder ynghylch pam y mae angen y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 52.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd y pŵer arfaethedig i wneud rheoliadau o dan adran 52 yn nodi'r mathau hynny o geisiadau seilwaith a fydd yn cael eu penderfynu gan yr awdurdod archwilio yn lle Gweinidogion Cymru. Y bwriad yw mai dim ond ceisiadau sy'n ymwneud ag achosion syml a fydd yn cael eu penderfynu gan yr awdurdod archwilio. At hynny, y bwriad yw y gall y ceisiadau hynny a ddynodir mewn is-ddeddfwriaeth fel rhai a fyddai'n cael eu penderfynu gan yr awdurdod archwilio newid dros amser. Er enghraifft, o ganlyniad i ddatblygiadau technolegol, gall math penodol o ddatblygiad seilwaith ddod i'r amlwg yn y dyfodol lle byddai'r effeithiau posibl yn ddibwys ac y byddai'r penderfyniad o ran rhoi cydsyniad ai peidio yn syml.

Yn gryno, rwyf o'r farn bod y materion hynny sy'n dynodi pa gorff a fyddai'n penderfynu ar fathau penodol o geisiadau yn benodol iawn a manylion trefniadol yn y broses gydsynio. Felly, rwyf o'r farn y dylid eu dynodi mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach nag ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 23: Os cedwir adran 52(1), dylid diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i reoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 52 fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad.

Byddaf yn cyflwyno diwygiad yn unol â hynny.

**Argymhelliad 24: Dylid diwygio adran 55 o'r Bil i gynnwys manylion am y materion y caiff yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru eu diystyru wrth benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith. Gellir diwygio'r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy'n golygu y gellid diwygio'r rhestr hon.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad.

Byddaf yn cyflwyno diwygiad yn unol â hynny.

**Argymhelliad 25: Dylai'r Gweinidog egluro pam mae angen adran 56(1)(b) a diwygio'r Bil i roi rhagor o fanylion am gyfyngiad y ddarpariaeth hon, a sut y bydd y cyfnod y cytunir arno yn cael ei gyhoeddi.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae angen y ddarpariaeth hon oherwydd gall fod amgylchiadau eithriadol, nid trwy fai Gweinidogion Cymru, lle nad oes modd gwneud penderfyniad ar nifer cyfyngedig o geisiadau o fewn yr amserlen o 52 wythnos ac y mae angen ymestyn yr amserlen. Er enghraifft, gall fod angen atal y broses archwilio os bydd partïon hanfodol yn methu â mynychu gwrandawiad, neu os bydd y prosiect mor fawr a chymhleth fod cyfnod hwy yn fwy priodol er mwyn gallu cynnal sesiynau gwrandawiad ychwanegol. Bydd y ddarpariaeth yn yr amgylchiadau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gytuno ar amserlen ddiwygiedig o dan adran 56(1)(b) â'r ymgeisydd.

Bydd Adran 125 o'r Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gadw cofrestr o geisiadau ar gyfer cydsyniad seilwaith yn darparu'r adnodd deddfwriaethol ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am gais, gan gynnwys amserlenni ar gyfer penderfynu ar geisiadau unigol.

Rwy'n gwrthod y rhan o'r argymhelliad sy'n ceisio diwygio'r Bil i ddarparu rhagor o fanylion am gyfyngiadau'r ddarpariaeth hon. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol a fyddai ond yn dod i'r amlwg wrth benderfynu ar gais y byddai'r pŵer yn cael ei gymhwyso. Felly, nid yw'n bosibl gosod y cyfyngiadau hynny ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 26: Dylai'r Gweinidog egluro pam mae angen y dull a fabwysiadwyd yn adran 56(2) o ran y pŵer i wneud cyfarwyddydau.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae angen y pŵer i wneud cyfarwyddyd yn adran 56(2) gan fod yn rhaid cydnabod y gall fod amgylchiadau eithriadol, nid trwy fai Gweinidogion Cymru, lle nad oes modd gwneud penderfyniad ar nifer cyfyngedig o geisiadau o fewn yr amserlen o 52 wythnos. Er enghraifft, gall fod angen atal y broses archwilio os bydd partïon hanfodol yn methu â mynychu gwrandawiad. Byddai'r pŵer i wneud cyfarwyddyd i ymestyn yr amserlen i benderfynu ar gais cydsyniad seilwaith ond yn cael ei ddefnyddio yn yr amgylchiadau eithriadol hynny.

**Argymhelliad 27. Dylid diwygio adran 56 i gynnwys manylion yr hyn y gall cyfarwyddyd a wneir o dan is-adran (2) ei gynnwys. Gellir diwygio'r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy'n golygu y gellid diwygio'r rhestr hon.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad.

Mae Adran 56(2) yn nodi y gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i ymestyn yr amserlen o 52 wythnos. Dyna'r unig fater y bydd y cyfarwyddyd yn ei gynnwys.

Felly, caiff y pŵer ei gyfyngu'n naturiol ar ei ffurf ddrafft ac felly nid yw'n glir pa fanylion y mae'r Pwyllgor yn gofyn amdanynt.

**Argymhelliad 28. Dylid diwygio adran 56 i'w gwneud yn ofynnol bod cyfarwyddyd a wneir o dan is-adran (2) yn cael ei osod gerbron y Senedd, a bod datganiad i gyd-fynd ag ef i bob Aelod o'r Senedd**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r Bil eisoes yn darparu dyletswydd o dan adran 56(4) i gyhoeddi cyfarwyddyd ac mae adran 56(5) yn darparu dyletswydd i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydymffurfiaeth ag amserlenni i'r Senedd. Dylai'r rhain sicrhau bod Aelodau yn ymwybodol o'r defnydd o'r pŵer hwn i wneud cyfarwyddyd. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod gan y Senedd ddiddordeb yn y mater hwn a byddaf yn cyflwyno diwygiad i'w gwneud yn ofynnol i'r Senedd gael ei hysbysu drwy ddatganiad ysgrifenedig.

**Argymhelliad 29. Dylai'r Gweinidog egluro pam mae angen adran 56(3)(b), a dylai ddiwygio'r Bil i ddarparu rhagor o fanylion am y cyfyngiadau sy'n gymwys i'r ddarpariaeth hon, gan gynnwys yn benodol y cyfyngiadau o ran y cyfnod o amser a ganiateir ar gyfer rhoi cyfarwyddyd o dan adran 56(3)(b)**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae Adran 56(3) yn ofynnol oherwydd gall materion lluosog ddod i'r amlwg yn ystod archwiliad a gall fod angen gohirio sawl gwaith. Mae 56(3)(b) yn ofynnol er mwyn ei gwneud hi'n glir bod modd i Weinidogion Cymru roi mwy o amser ar ôl y dyddiad cau. Mae'r pŵer i roi mwy o amser eisoes wedi'i gyfyngu i achosion lle ceir amgylchiadau eithriadol yn unig. Bydd yr eglurder hwn yn atal achosion diangen o ymgyfreitha yn y dyfodol ynghylch defnyddio'r pŵer i roi mwy o amser.
Felly, ni fyddaf yn cyflwyno diwygiad.

**Argymhelliad 30: Dylid diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i reoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 56(6) o'r Bil fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn cyflwyno diwygiad yn unol â hynny.

**Argymhelliad 31: Dylid diwygio adran 57(6) i gyfyngu'r pŵer i'r hyn sy'n angenrheidiol ac yn unol â'r modd y mae'r Gweinidog wedi datgan y bwriedir defnyddio'r pŵer.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Mae'r pŵer yn ymwneud â nodi gweithdrefn i'w dilyn a bydd yn gysylltiedig â gweithdrefnau eraill mewn rheoliadau. Felly, mae'n briodol cael y weithdrefn mewn rheoliadau er mwyn sicrhau bod is-ddeddfwriaeth yn gydlynol.

**Argymhelliad 32: Dylid diwygio adran 59 i'w gwneud yn ofynnol i ddatganiad a gaiff ei lunio o dan is-adrannau (1) neu (2) gael ei ddarparu i'r sawl sydd wedi ymgeisio am orchymyn cydsyniad seilwaith.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn cyflwyno diwygiad yn unol â hynny.

**Argymhelliad 33. Dylai'r Gweinidog egluro pam, mewn perthynas ag adran 60(6)(a) a (b), ei bod yn briodol i orchymyn cydsyniad seilwaith ddiwygio, addasu neu eithrio deddfiadau heb unrhyw graffu na gorolwg gan y Senedd.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad.

Mae'r Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith yn deillio o'r broses ymgeisio sy'n rhoi cydsyniad ar gyfer prosiect penodol. Yn hynny o beth, bydd ei gwmpas yn gyfyngedig. Mae'r pŵer yn adran 60(6)(a) yn caniatáu i'r Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith gymhwyso, diwygio neu eithrio deddfiad sy'n ymwneud ag unrhyw fater y gellir gwneud darpariaeth ar ei gyfer yn y gorchymyn. Caiff hyn ei gyfyngu i gymhwyso deddfiadau at yr amgylchiadau sy'n cael eu cwmpasu gan y Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith, nid yw'n caniatáu i ddiwygiadau gael eu gwneud wrth gymhwyso'r deddfiadau hynny yn gyffredinol. Er enghraifft, gall gorchmynion sy'n ymdrin â rheilffyrdd gynnwys darpariaeth sy'n ymgorffori Deddf Cydgrynhoi Cymalau Rheilffyrdd 1845, neu mewn perthynas â harbyrau, addasu'r ffordd y caiff Deddf Cymalau Harbyrau, Dociau a Phierau 1847 ei chymhwyso.

Mae Adran 60(6)(b) yn caniatáu ar gyfer diwygio, diddymu neu ddirymu deddfiadau y cânt eu cymhwyso'n lleol. Er enghraifft, gall y rhain gynnwys deddfau lleol fel diwygio Deddf Rheilffordd Ffestiniog 1869.

Mater i Weinidogion Cymru yw rhoi gorchymyn cydsyniad seilwaith, a hynny yn dilyn y broses archwilio helaeth a nodwyd yn y Bil. Byddai darparu rôl i'r Senedd wrth roi cydsyniad ar gyfer y Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol hyn yn drysu rolau'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa.

**Argymhelliad 34. Dylid diwygio adran 60 i'w gwneud yn ofynnol bod gorchymyn a wneir yn unol â'r adran yn cael ei osod gerbron y Senedd, a dylai fod datganiad i gyd-fynd ag ef i holl Aelodau'r Senedd.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad.

Mater i Weinidogion Cymru yw rhoi gorchymyn cydsyniad seilwaith, a hynny yn dilyn y broses archwilio helaeth a nodwyd yn y Bil. Mae Adran 82 o'r Bil eisoes yn nodi

bod yn rhaid cyhoeddi Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith a, lle byddant wedi'u cynnwys mewn Offeryn Statudol, bod yn rhaid iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

**Argymhelliad 35. Dylid diwygio'r Bil fel bod yn rhaid i orchmynion a wneir o dan adran 82 sy'n creu trosedd fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Mae Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith yn gysylltiedig â phrosiectau penodol a bydd eu cwmpas yn gyfyngedig. Bydd unrhyw drosedd sy'n cael ei chreu mewn Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith yn sbarduno'r gofyniad yn adran 82(3) a bydd yn cael ei chynnwys mewn offeryn statudol. Rhaid gosod yr offeryn statudol hwn gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo gael ei wneud, ochr yn ochr â'r cynllun cysylltiedig a'r datganiad o resymau. Fel y nodwyd mewn ymateb i argymhelliad 33, mater i Weinidogion Cymru yw rhoi Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith a byddai darparu rôl i'r Senedd wrth roi cydsyniad ar gyfer y Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol hyn yn drysu rolau'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa.

**Argymhelliad 36. Dylid diwygio adran 87 i'w gwneud yn ofynnol bod gorchymyn a wneir o dan is-adran (1) yn cael ei osod gerbron y Senedd, ynghyd â datganiad i bob Aelod o'r Senedd.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Lle caiff offeryn statudol sy'n bodoli ei ddiwygio (drwy ddirymu neu newid), rhaid cynnwys y diwygiad hefyd mewn offeryn statudol fel y nodir yn adran 87(7) o'r Bil. Mae Adran 89(3) yn nodi bod yn rhaid gosod copi o'r offeryn gerbron Senedd Cymru.

Rwy'n fodlon bod drafft cyfredol y Bil yn arwain at lefel graffu briodol pan fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried dirymu neu newid Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith.

**Argymhelliad 37. Dylid diwygio'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn adrannau 87 ac 88 sy'n ymwneud â newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith i gynnwys manylion y mesurau diogelu a fydd ar waith mewn perthynas â defnyddio'r pŵer yn adran 87(1) er mwyn sicrhau nid oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Rwy'n deall dymuniadau'r Pwyllgor i sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn y maes hwn, ond ar ôl ystyried yr argymhelliad hwn, nid wyf o'r farn bod angen diwygio'r gallu i newid neu ddirymu'r gorchymyn cydsyniad seilwaith ar ôl iddo gael ei wneud.

Rydym yn cynnig proses ffurfiol i ymgeiswyr wneud cais am newid i'r Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith.

Bydd y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n ofynnol i hysbysu Gweinidogion Cymru ynghylch diwygiad(au) arfaethedig, cwmpas y diwygiad(au) a'r amserlenni y gellir eu gwneud o'u mewn a sut bydd Gweinidogion Cymru neu'r unigolyn penodedig yn ymdrin â nhw, wedi'u pennu mewn rheoliadau (gyda'r manylion wedi'u nodi yn y Datganiad o Fwriad y Polisi), ac yn gryno, byddant yn pennu'r canlynol:

- Ffurf a chynnwys cais;
- Amserlenni a'r weithdrefn;
- Gofynion ymgynghori;
- Y ffordd o ymdrin â'r cais.

Bydd angen cyflwyno cais newydd ar gyfer Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith ar gyfer unrhyw ddiwygiadau sy'n rhai sylweddol ym marn Gweinidogion Cymru.

Gan ystyried hyn, rwyf o'r farn na fydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn codi yn sgil drafft cyfredol y Bil a'r ddarpariaeth i nodi'r weithdrefn fanwl a chadarn mewn Rheoliadau.

**Argymhelliad 38. Dylid diwygio adran 88 i’w gwneud yn ofynnol i hysbysiad a ddyroddir o dan is-adran (6) gael ei ddarparu i’r person a wnaeth gais yn wreiddiol am y gorchymyn cydsyniad seilwaith.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Rwy'n bwriadu cyflwyno diwygiad.

**Argymhelliad 39. Dylid diwygio adran 92 i gynnwys manylion yr hyn y gellir ei ystyried yn weithrediad nad yw’n “weithrediad perthnasol”. Gellir diwygio’r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy’n ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy’n golygu y gellid diwygio’r rhestr hon.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Rwy'n nodi yn y Datganiad o Fwriad y Polisi y disgwylir i'r rheoliadau bennu na fydd unrhyw gamau a gymerir mewn perthynas â chaffael gorfodol (er enghraifft cyflwyno hysbysiad) yn gyfystyr â gweithrediad perthnasol ar ei ben ei hun. Yn fy marn i, dylid ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid am y materion hyn cyn eu diffinio, gan y bydd y diffiniad yn effeithio ar gamau gorfodi posibl. Gallai diffinio hyn nawr arwain at wneud newidiadau i'r Bil cyn i'r system fod yn weithredol, ac nid dyna'r arfer gorau yn fy marn i.

**Argymhelliad 40: Dylai’r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion ac eglurder ynghylch pa weithgareddau na fydd hysbysiad stop dros dro o dan adran 115(1) yn eu gwahardd.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae'n anodd rhagweld pob sefyllfa neu weithgaredd na fyddant yn cael eu gwahardd gan hysbysiad stop dros dro o gofio natur eang ac amrywiol y mathau o brosiectau a nodir yn y Bil.

Fodd bynnag, un enghraifft y gallaf ei rhoi i'r Pwyllgor yw lle y caiff cydsyniad seilwaith ei roi i ddatblygiad a bod gwaith yn mynd rhagddo sy'n achosi materion iechyd a diogelwch brys. O ganlyniad, gall fod angen lliniaru yn erbyn y materion hyn drwy gynnal gwaith nad yw o reidrwydd yn cydymffurfio'n llwyr â'r cydsyniad a roddwyd. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai na fydd yn briodol cyhoeddi hysbysiad stop dros dro pe byddai gwneud hynny yn arwain at bryderon iechyd a diogelwch sylweddol.

At hynny, bydd y pwyllgor yn nodi yn fy llythyr ar 11 Medi 2023 a oedd yn ymateb i gwestiwn 25, i mi nodi fod yr un pŵer eisoes yn bodoli ar gyfer y system gynllunio ehangach yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a'i bod yn bosibl y caiff rhai cyfyngiadau eu cyflwyno fel rhan o'r broses honno sydd hefyd yn berthnasol i geisiadau am gydsyniad seilwaith.

Unwaith eto, er nad yw'n bosibl rhagweld pa gyfyngiadau allai godi yn y dyfodol, mae'r hyblygrwydd y mae'r pŵer hwn yn ei gynnig yn bwysig.

**Argymhelliad 41: Dylid diwygio adran 121 o’r Bil fel bod manylion y swyddogaethau y cyfeirir atynt yn is-adran (5) y caniateir eu cynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (1) yn cael eu rhestru ar wyneb y Bil. Gellir diwygio’r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy’n ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy’n golygu y gellid diwygio’r rhestr hon.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Rwy'n deall bod y Pwyllgor yn awyddus i sicrhau eglurder o ran y swyddogaethau sy'n gysylltiedig â ffioedd.
Yn yr achos hwn, bydd y swyddogaethau dewisol yn gysylltiedig â'r broses a nodwyd yn y rheoliadau i godi ffi mewn perthynas â chais. Gallai'r enghreifftiau hynny gynnwys pennu lefel ffioedd, neu faterion gweinyddol, fel casglu ffi a'i had-dalu os bydd angen.

Rwyf yn ymrwymedig i adennill costau, ond er mwyn gwneud hynny, bydd angen ymgynghori â'r holl randdeiliaid, lle bydd swyddogaethau yn rhan o'r drafodaeth. Byddai gwahanu'r ‘swyddogaethau’ yn achub y blaen ar yr ymgynghoriad a byddai'n arwain at hollt dryslyd mewn proses weinyddol rhwng y darpariaethau ar wyneb y Bil ac mewn rheoliadau.

**Argymhelliad 42: Dylid diwygio adran 126 o’r Bil i’w gwneud yn ofynnol i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru, ac unrhyw gorff/person hysbys arall, ynghylch cais dilys am gydsyniad seilwaith.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Dim ond rhai ceisiadau penodol sydd o fewn cwmpas y Bil fydd i ddiddordeb i Cyfoeth Naturiol Cymru, ac yn bennaf y rhai hynny yn ardal forol Cymru a'r rhai sy'n croesi'r ardal ar y tir / ar y môr. Mae'n bosibl hefyd y bydd ganddo ddiddordeb fel ymgynghorai mewn ceisiadau a allai gael effaith bosibl ar safleoedd neu rywogaethau gwarchodedig, er enghraifft.

Rwyf wedi sicrhau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei hysbysu bob amser ynghylch cais i ddatblygu yn ardal forol Cymru drwy ei osod ar wyneb y Bil yn adran 33(2)(b)(i).

At hynny, mae adran 33(2)(c) y Bil yn darparu ar gyfer rheoliadau i ddynodi unrhyw bersonau eraill neu ddisgrifiadau o bersonau i'w hysbysu ynghylch cais, y gellid hefyd cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru yn hyn o beth, os bydd unrhyw fathau ychwanegol o ddatblygiadau neu geisiadau y gall fod ganddo ddiddordeb ynddynt.

Yn ogystal, rwyf wedi ceisio cryfhau rhan Cyfoeth Naturiol Cymru yn y broses gydsynio drwy gyflwyno diwygiad sy'n gofyn i ddarpar ymgeiswyr hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch cais arfaethedig i ddatblygu yn ardal forol Cymru yn y cyfnod cyn ymgeisio.

Nid oes angen gosod y gofyniad i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar wyneb y Bil, gan fod y gofyniad i hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru o dan rai amgylchiadau penodol eisoes ar waith. At hynny, mae ymgynghori ym mhob achos yn gosod rhwymedigaeth ddiangen ar Cyfoeth Naturiol Cymru i ymateb, hyd yn oed mewn achosion lle nad oes angen hyn o bosibl.

**Argymhelliad 43: Dylai’r Gweinidog egluro manylion y “pethau” y gall fod yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus eu gwneud yn unol â chyfarwyddyd a wneir gan Weinidogion Cymru gan ddefnyddio’r pŵer yn adran 127(1), a dylid diwygio’r Bil i nodi’r manylion hyn.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Er bod gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb i ymgymryd â swyddogaethau sy'n ymwneud â cheisiadau am gydsyniad seilwaith, gall fod amgylchiadau lle bydd Gweinidogion Cymru yn awyddus i roi cyfarwyddyd i gorff arall ymgymryd ag un swyddogaeth neu fwy ar eu rhan neu lle byddai'n fwy priodol gwneud hynny.

Gall y materion hyn gynnwys, ymhith materion eraill, arddangos hysbysiadau safle er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i gais neu roi cyhoeddusrwydd i gais mewn cyfnodolyn pysgota perthnasol ar gyfer y datblygiadau hynny yn ardal forol Cymru.

Nid wyf o'r farn ei bod hi'n briodol dynodi pob gweithgaredd posibl ar wyneb y Bil gan eu bod o natur weithdrefnol ac y gallent newid. Er enghraifft, pe bai math newydd o ddatblygiad yn cael ei gategoreiddio'n Brosiect Seilwaith Arwyddocaol, mae'n bosibl

y bydd angen gosod gofynion newydd ar gyrff sy'n bodoli eisoes, neu osod swyddogaeth ar gorff newydd.

Efallai y byddai'n werth egluro cwmpas eang y gweithgareddau a all fod yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd a byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i ddiwygio adran 127 yng Nghyfnod 2.

**Argymhelliad 44: Dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion ac eglurder ynghylch pam mae'r pŵer i wneud cyfarwyddydau yn adran 127(1) yn angenrheidiol, a pham nad yw'r gofynion statudol sydd i'w gosod ar awdurdod cyhoeddus wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Gweler fy ymateb i argymhelliad 43. Mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol gan na fydd o bosibl bob amser yn briodol i Weinidogion Cymru gyflawni swyddogaeth benodol mewn perthynas â chais am gydsyniad seilwaith. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i gorff arall gyflawni swyddogaeth (neu swyddogaethau) ar eu rhan.

**Argymhelliad 45: Dylid diwygio adran 127 i gynnwys y rhestr o awdurdodau datganoledig perthnasol yng Nghymru y bydd yr adran yn gymwys iddynt. Gellir diwygio'r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy'n golygu y gellid diwygio'r rhestr hon.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Caiff dehongliad o awdurdodau datganoledig yng Nghymru ei ddynodi yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ar hyn o bryd, nid wyf wedi cwblhau'r rhestr o gyrff cyhoeddus a fydd yn gyfrifol am gyflawni swyddogaeth. Fy mwriad i yw ymgysylltu â'r holl randdeiliaid am y rhestr o gyrff a'u nodi mewn is-ddeddfwriaeth. Byddai eu darparu ar wyneb y Bil ar y pwynt hwn yn achub y blaen ar yr ymgynghoriad hwnnw.

**Argymhelliad 46: Dylid diwygio'r Bil fel bod y weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft yn gymwys wrth arfer y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 127(4).**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn ceisio cyflwyno diwygiad i roi'r argymhelliad ar waith.

**Argymhelliad 47. Dylai'r Gweinidog egluro pam mae angen y dull a fabwysiadwyd yn adran 128(1) o ran y pŵer i wneud cyfarwyddydau.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae angen y pŵer mewn achosion lle byddai'r broses safonol yn cynnwys baich anghymesur ar y partïon dan sylw. Mae'r Bil yn darparu proses archwilio dryloyw a theg sy'n effeithlon ac yn amserol. Er mwyn parhau i gyflymu'r broses gydsynio, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i ddileu rhai gofynion gweithdrefnol ond dim ond lle na fyddai hynny'n cael unrhyw effaith andwyol ar degwch gweithdrefnol.

Oherwydd natur y pŵer hwn, bwriedir cyfyngu ei gwmpas drwy is-ddeddfwriaeth y bydd yn rhaid iddi ddynodi'r gofynion y gellir eu datgymhwyso drwy gyfarwyddyd.

**Argymhelliad 48. Dylid diwygio adran 128 i gynnwys manylion yr hyn y gall cyfarwyddyd a wneir o dan is-adran (1) ei gynnwys. Gellir diwygio'r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy'n golygu y gellid diwygio'r rhestr hon.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Mae pŵer y cyfarwyddyd hwn eisoes wedi'i gyfyngu gan is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Bydd ymgynghoriad pellach yn nodi'r cyfyngiadau priodol i'w gosod ar y pŵer hwn a byddai gosod rhestr anghyflawn neu wallus o bosibl mewn deddfwriaeth nawr yn arwain at newidiadau di-oed yn nes ymlaen, a fyddai'n groes i'n nod o ran eglurder.

**Argymhelliad 49. Dylid diwygio adran 128 i'w gwneud yn ofynnol bod cyfarwyddyd a wneir o dan is-adran (1) yn cael ei osod gerbron y Senedd, ynghyd â datganiad i bob Aelod o'r Senedd.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd diwygiad yn cael ei gyflwyno i'w gwneud yn ofynnol i'r cyfarwyddyd gael ei gyhoeddi a bydd datganiad yn cael ei gyhoeddi i bob Aelod o'r Senedd.

**Argymhelliad 50. Dylid diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i reoliadau a wneir o dan adran 129(2) o'r Bil fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd diwygiad yn cael ei gyflwyno.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-JJ-3057-23

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Rhagfyr 2023

Annwyl Llŷr

Diolch am Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith mewn perthynas â Bil Seilwaith (Cymru), a gyhoeddwyd ar 24 Tachwedd 2023.

Gweler fy ymatebion i'r set o argymhellion yn yr adroddiad yn Atodiad 1. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad er gwybodaeth.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad 1

## Bil Seilwaith (Cymru)

## Ymatebion i argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

**Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Senedd yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Diolch yn fawr am gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

**Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi amserlen fanwl ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil a, lle bo'n briodol, ar gyfer ymgynghori ar yr is-ddeddfwriaeth honno.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar y cynllun gweithredu wrth i'r Bil gael ei basio. Nodir hyn mewn llythyr i'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi darnau allweddol o is-ddeddfwriaeth mewn drafft ac ymgynghori â rhanddeiliaid cyn bwrw ymlaen â'r fersiynau terfynol.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Rwy'n deall pwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau lleol yn gynnar yn y broses ddeddfwriaethol mewn ffordd gynhwysol ac ystyrlon.

Rwyf am i randdeiliaid gymryd rhan wrth osod y darpariaethau, gan sicrhau yn ogystal â sicrwydd, bod pob rhanddeiliad o'r farn bod y darpariaethau yn ymarferol. Perygl ymgynghori ar reoliadau drafft yw y gall rhanddeiliaid ystyried ein bod ni eisoes wedi penderfynu ar ein cynigion a gall arwain at ymgysylltiad llai ystyrlon.

**Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod digon o amser ar gael i bwyllgorau'r Senedd ystyried y darnau allweddol o is-ddeddfwriaeth yn y Bil a fydd yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Fy mwriad yw dilyn Rheolau Sefydlog.

**Argymhelliad 5. Dylai’r Gweinidog sicrhau bod fersiynau digidol o’r is-ddeddfwriaeth sy’n deillio o’r Bil, a chanllawiau a dogfennau cysylltiedig, ar gael mewn un man ar y rhyngrwyd sy’n hawdd ei gyrchu i’r cyhoedd, cyrff cyhoeddus a datblygwyr.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn ceisio sicrhau bod yr holl is-ddeddwriaeth a chanllawiau a gyhoeddir i ategu'r Bil mor hygyrch â phosibl i'r holl randdeiliaid.

**Argymhelliad 6. Dylai’r Gweinidog gyhoeddi amserlen ddangosol yn nodi pryd y penderfynir ar y trefniadau pontio i’r gyfundrefn newydd.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mewn ymateb i Argymhelliad 2, rwyf wedi cytuno i ddarparu cynllun gweithredu mewn perthynas â'r rhaglen is-ddeddfwriaeth. Bydd trefniadau pontio yn dilyn yr un amserlen.

Fy mwriad hefyd yw rhoi rhagor o eglurder ar y trefniadau pontio cyn yr ymgynghoriad ehangach ar is-ddeddfwriaeth. Rwy'n bwriadu cyhoeddi datganiad polisi o fwriad diwygiedig a fydd yn nodi ein cynigion presennol yn fanwl. Rwy'n bwriadu cynnal gwaith ymgysylltu penodol ar y cynigion hyn cyn yr ymgynghoriad ehangach. Bydd canlyniad yr ymgyngoriadau hyn yn helpu i lywio ffurf a chynnwys terfynol y darpariaethau trosiannol a gaiff eu hystyried.

**Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus gydweithio i ddod o hyd i’r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddarparu’r cyngor arbenigol sydd ei angen ar draws gwahanol leoliadau daearyddol. Dylai’r Gweinidog adrodd yn ôl i’r Pwyllgor hwn ar gynnydd o fewn y 6 mis nesaf.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yn cydweithio mewn perthynas â darparu cyngor arbenigol. Bydd diweddariad ar gynnydd hyn yn cael ei roi mewn 6 mis.

Gall y sgiliau a'r arbenigedd fod yn arbenigol iawn yn dibynnu ar natur y cynllun. Mae potensial i gronni neu rannu'r arbenigedd hwn i helpu yn y broses gydsynio, drwy ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol.

Rwy'n parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y Bil a byddaf yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael.

**Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y meini prawf yn Rhan 1 i ddatrys pryderon cyn i’r Bil gwblhau ei daith drwy’r Senedd**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn enwedig Cyfoeth Naturiol Cymru a'r diwydiant ynni mewn perthynas â chynhyrchu hydrogen a ffyrdd eraill o storio ynni.

Ar hyn o bryd, caiff y defnydd o hydrogen ei nodi gan y Bil naill ai fel ffordd o gynhyrchu ynni neu fel cyfrwng o gludo ynni sy'n gysylltiedig â math gwahanol o gynhyrchu ynni.

Nid oes trothwy penodol ar gyfer cynhyrchu hydrogen oherwydd nid oes gennym ddigon o dystiolaeth hyd yma i ddeall beth fyddai trothwy priodol ar gyfer y mathau hyn o brosiectau. Ar hyn o bryd, bydd cynhyrchu hydrogen yn cael ei nodi gan y Bil fel datblygiad cysylltiedig o Brosiect Seilwaith Arwyddocaol neu gallai gael ei gyfeirio i gael cydsyniad yn y gyfundrefn newydd o dan adran 22 o'r Bil.

Mewn perthynas â phiblinellau, yn dilyn adolygiad o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn, rwy'n ystyried cyflwyno diwygiadau i Ran 1 o'r Bil i gynnwys piblinellau, yn amodol ar y cyfyngiadau a osodwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

Rwy'n hapus cadarnhau mai'r trothwyon 50MW ar gyfer ffermydd solar fydd y gyfradd wrthdro (AC).

Mewn perthynas â'r pryderon a fynegwyd gan Dŵr Cymru, byddaf yn ymgysylltu ymhellach â nhw.

**Argymhelliad 9. Dylai’r Gweinidog egluro ei safbwynt ar gynnwys darpariaeth “optio i mewn” yn y gyfundrefn prosiectau seilwaith arwyddocaol ac esbonio a yw’n ystyried y gellid defnyddio’r pŵer yn adran 22 o’r Bil i hwyluso gweithdrefn o’r fath.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Nid wyf yn bwriadu cynnwys darpariaeth “optio i mewn” yn y Bil gan fy mod o'r farn y byddai'n arwain at lai o eglurder yn y gyfundrefn gydsynio newydd.

Mae Adran 25 y Bil yn caniatáu i ddatblygwyr gyflwyno cais cymwys i Weinidog Cymru. Bydd ffurf y cais yn cael ei osod yn y rheoliadau a bydd yn caniatáu i ddatblygwyr esbonio pam eu bod yn credu y dylai neu na ddylai eu prosiect gael ei ystyried yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol, yn yr un modd â cheisiadau cymwys eraill fel cais sgrinio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu a yw prosiect o arwyddocâd cenedlaethol ac a ddylai fod yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol.

**Argymhelliad 10. Dylai’r Gweinidog egluro pam nad yw’r meini prawf sy’n gysylltiedig â’r meysydd yn adran 17 wedi’u cynnwys ar wyneb y Bil?**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bwriad Adran 17 y Bil yw diwygio Rhan 1 os bydd angen ychwanegu prosiect seilwaith arwyddocaol newydd neu os bydd angen diwygio'r trothwyon sy'n bodoli yn y dyfodol. Bydd yr adran hon yn diogelu'r Bil i'r dyfodol yn unol â datblygiadau technolegol. Byddai gosod y meini prawf a'r trothwyon yn adran 17 y Bil yn trechu diben y pŵer hwn.

**Argymhelliad 11. Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 25 i fandadu cyhoeddi canllawiau mewn perthynas â’r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio pwerau cyfarwyddo adran 22 neu 24.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Rwy'n llwyr fwriadu cyhoeddi canllawiau o ran sut bydd y pwerau cyfarwyddo hyn yn cael eu cymhwyso ond nid wyf o'r farn y dylid gosod hyn ar wyneb y Bil. Byddai hefyd yn anghyson â gweddill y Bil.

**Argymhelliad 12. Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 25 i bennu terfyn amser erbyn pryd y mae’n rhaid i’r Gweinidog ymateb i gais cymwys gan ddatblygwr am gyfarwyddyd o dan adran 22 neu 24**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae Adran 26 y Bil eisoes yn nodi y gall rheoliadau wneud darpariaeth o ran y terfynau amser i wneud penderfyniadau yn dilyn cais am gyfarwyddyd. Felly, nid oes angen diwygio adran 25 y Bil.

**Argymhelliad 13: Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i’r Bil i roi mwy o eglurder mewn perthynas â phrosesau ymgynghori a chyhoeddusrwydd. Dylai’r Gweinidog ystyried darpariaethau Deddf Cynllunio 2008 fel man cychwyn.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Nodaf sylwadau'r Pwyllgor mewn perthynas â'r angen i fod yn fwy eglur mewn perthynas â phrosesau ymgynghori a chyhoeddusrwydd. Rwyf wedi nodi'r gofynion sylfaenol yn fanwl ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu a fyddai'n debygol o gael eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth yn y Datganiadau o Fwriad y Polisi sy'n cyd-fynd â'r Bil.

Man cychwyn yw'r datganiadau hyn, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ehangach wrth i'r is-ddeddfwriaeth gael ei datblygu. Felly, gall y gofynion manwl newid ar sail unrhyw sylwadau a ddaw gan randdeiliaid.

Rwyf wedi mabwysiadu'r dull o osod safon ofynnol mewn is-ddeddfwriaeth gan ei fod yn cymhwyso gofynion sylfaenol at bob datblygiad arfaethedig a nodir gan y Bil. Mae hyn yn rhoi sicrwydd ac eglurder i randdeiliaid a chymunedau lleol ar yr hyn y gallant ei ddisgwyl fel rhan o ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu. Mae hefyd yn ein galluogi i newid ac addasu i unrhyw ddulliau ymgysylltu ac ymgynghori newydd ac sy'n dod i'r amlwg a allai gael eu cynnwys yn y broses gydsynio newydd fel safon ofynnol cyn gynted â phosibl.

Mae hyn yn mynd y tu hwnt i Ddeddf Cynllunio 2008, nad yw'n nodi unrhyw safonau gofynnol ac nad yw'n cynnig fawr sicrwydd na chysondeb o un cais i'r llall.

Fodd bynnag, rwy'n cydnabod y budd sy'n gysylltiedig â chyfleoedd i ddarpar ymgeiswyr gynnal trafodaethau ag awdurdodau cynllunio lleol perthnasol o ran sut y gallent o bosibl fynd y tu hwnt i unrhyw ofynion ymgynghori ac ymgysylltu sylfaenol, yn enwedig gan fod ganddynt wybodaeth am grwpiau cymunedol lleol, lleoliadau addas ar gyfer digwyddiadau a gwybodaeth arall a all fod o gymorth wrth ymgynghori ac ymgysylltu. Felly, gallaf byddaf yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpar ymgeiswyr gymryd rhan mewn trafodaethau â'r Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol, os caiff corff addas ei nodi ar gyfer datblygiadau ar y môr.

Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i bennu gofynion sylfaenol mewn is-ddeddfwriaeth ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori. O gofio hyn, byddai'n well gosod y gofyniad i ddatblygwr ymgysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol (a chorff arall o bosibl) mewn is-ddeddfwriaeth, ynghyd â'r gofynion sylfaenol.

At hynny, rwyf wedi cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu ac ymgynghori ag amrywiaeth mor eang â phosibl o randdeiliaid erioed, a dyma pam rwyf wedi gofyn am unrhyw argymhellion penodol gan y Pwyllgor a chan eraill. Yn anffodus, nid yw'r argymhellion hynny wedi cael eu gwneud eto.

Hoffwn eich hysbysu fy mod hefyd wedi comisiynu Cymorth Cynllunio Cymru i wneud gwaith ymchwil i'r mater hwn, gyda'r bwriad o wneud argymhellion penodol a'u hymgorffori yn y broses gydsynio.

**Argymhelliad 14: Yn ei hymateb i'r Adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog nodi'r amserlenni ar gyfer gwneud rheoliadau o dan adran 30. O ystyried pa mor allweddol yw ymgynghoriad cyhoeddus i'r gyfundrefn newydd, dylai'r Gweinidog gyhoeddi'r rheoliadau drafft ac ymgynghori arnynt.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Gweler fy ymateb i argymhellion 2 a 3 yr adroddiad a nododd fy nghynigion ar gyfer darparu amserlen ar gyfer gwneud rheoliadau ac ymgynghori arnynt, gan gynnwys y rhai a wnaed o dan adran 30 y Bil.

**Argymhelliad 15: Dylai'r Gweinidog gyhoeddi canllawiau i randdeiliaid ar arfer gorau a safonau disgwyliedig ar gyfer ymgynghori â'r gymuned.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Rwy'n ymrwymedig i gyhoeddi canllawiau i ddarpar ddatblygwyr ar arfer gorau wrth ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid eraill.

**Argymhelliad 16. Mewn ymateb i'r Adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog nodi'r amgylchiadau lle mae'n ystyried y gellid penderfynu ar gais drwy ymchwiliad.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Rwy'n disgwyl i'r rhan fwyaf o geisiadau seilwaith gael eu hystyried gan ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig neu'r weithdrefn gwrandawiad. Mae'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn briodol lle nad yw'r materion yn gymhleth, bod modd eu deall yn glir o'r dogfennau, nad oes angen eu profi mewn digwyddiad llafar a bod budd cyfyngedig i'r cyhoedd.

Ar gyfer ceisiadau mwy cymhleth, mae gwrandawiad yn darparu lleoliad anffurfiol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd gan yr Arolygydd. Gall y rhai sy'n mynychu ddod â chynghorwyr proffesiynol gyda nhw, ond ni fydd cyflwyniad ffurfiol o dystiolaeth, croesholi na chyflwyniadau ffurfiol.

Ymchwiliad yw un o'r gweithdrefnau mwyaf ffurfiol ac mae ond yn debygol o gael ei drefnu lle ceir materion cymhleth neu dystiolaeth dechnegol. Er nad llys barn mohono, bydd y gweithrediadau a ddefnyddir yn aml yn ymddangos yn eithaf tebyg. Mae ymchwiliad yn agored i'r cyhoedd a chaiff ei gynnal er mwyn ymchwilio i dystiolaeth a phrofi'r dystiolaeth honno'n ffurfiol, fel arfer drwy gwestiynu (croesholi) tystion arbenigol a thystion eraill. Gall eiriolwyr gynrychioli'r partïon yn ffurfiol. Felly, mae'n debygol mai dim ond ar gyfer y prosiectau mwyaf neu fwyaf technegol y bydd angen y weithdrefn hon.

**Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i sicrhau mai Gweinidogion Cymru yw'r penderfynwyr diofyn ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol. Er gwaethaf hyn, dylai'r Gweinidog sicrhau bod y Bil yn cynnwys darpariaethau i alluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod gan awdurdod archwilio'r swyddogaeth o benderfynu ar y cais o dan amgylchiadau penodol penodedig. Dylai rheoliadau bennu'r meini prawf y mae'n rhaid eu cymhwyso wrth wneud cyfarwyddyd o'r fath**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Gweinidogion Cymru yw'r penderfynwyr diofyn eisoes ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol.

Mae Adran 52(1) y Bil yn nodi bod gan yr awdurdod archwilio swyddogaeth i benderfynu ar gais ar gyfer cydsyniad seilwaith ar gyfer math o ddatblygiad a bennir

mewn rheoliadau. Mae Adran 52(2) y Bil yn nodi mai Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am benderfynu ar unrhyw gais arall am gydsyniad seilwaith.

Mae effaith y darpariaethau hyn yn golygu mai dim ond prosiectau a bennir mewn rheoliadauy bydd yr awdurdod archwilio yn penderfynu arnynt. Os na chaiff unrhyw reoliadau eu gwneud, yna Gweinidogion Cymru fyddai'n penderfynu ar bob cais.

Mae Adran 52(4) y Bil yn nodi y gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd mai awdurdod archwilio sy'n gyfrifol am benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith yn hytrach na Gweinidogion Cymru, neu i'r gwrthwyneb. Mae effaith y ddarpariaeth hon yn golygu mai dim ond prosiectau sy'n cael eu cyfarwyddo fesul achos unigol na fyddai Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt. Os na wneir unrhyw Gyfarwyddiadau, Gweinidogion Cymru fyddai'n penderfynu ar bob cais.

Os bydd y dystiolaeth yn nodi y gall math penodol o gais gael ei gadarnhau gan yr awdurdod archwilio yn y mwyafrif o achosion, yna gellir pennu'r math hwn o gais mewn rheoliadau, ac ni fyddai'n dibynnu ar wneud cyfarwyddyd unigol ym mhob achos.

Nid wyf o'r farn y dylai rheoliadau bennu'r meini prawf y mae'n rhaid eu cymhwyso wrth wneud cyfarwyddyd o dan 52(4). Byddai'r materion y mae'n rhaid eu hystyried yn cynnwys:

- cynigion sy'n destun cryn ddadlau y tu hwnt i'r ardal leol;
- cynigion sy'n codi materion cynllunio newydd;
- cynigion sy'n codi anawsterau cyfreithiol sylweddol;
- cynigion y mae un o Adrannau'r Llywodraeth Ganolog wedi gwrthwynebu iddynt.

O gofio natur y materion hyn, rwy'n ystyried eu bod yn fwy priodol ar gyfer canllawiau, yr wyf yn bwriadu eu cyhoeddi.

**Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi'r meini prawf ar gyfer penderfynu ar gyfarwyddyd o dan adran 52.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn cyhoeddi'r meini prawf ar gyfer penderfynu a ddylid cyhoeddi cyfarwyddyd o dan adran 52 o'r Bil. Mae meini prawf tebyg mewn perthynas â phenderfynu a ddylid adfer apêl yn y system gynllunio eisoes wedi'u cyhoeddi.

**Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog esbonio pam yr oedd y mater o flaenoriaeth datganiadau polisi seilwaith dros gynlluniau cenedlaethol yn dal i gael ei ystyried ar ôl cyflwyno'r Bil.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Rwyf wedi ystyried y dulliau amrywiol sydd ar gael yn ofalus er mwyn darparu fframwaith polisi cadarn y gellir ystyried ceisiadau seilwaith yn ei erbyn, sydd wedi cynnwys adolygiad o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Yn ystod yr adolygiad hwn, rhoddwyd rhagor o ystyriaeth i'r gydberthynas rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, y cynlluniau a'r polisïau cenedlaethol presennol ac unrhyw ddatganiadau polisi seilwaith yn y dyfodol. Yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n llawer gwell gennyf ddogfennau polisi cyfannol yn hytrach na thematig, ac mae gennym eisoes gyfres gynhwysfawr o bolisïau cynllunio cenedlaethol. Os bydd angen polisi cynllunio newydd i helpu i ystyried y cynlluniau hyn, fel rhan o'n dogfennau polisi presennol fyddai'r ffordd orau o wneud hyn.

Bydd y datganiadau hyn yn gweithredu fel dogfennau ategol, gan lenwi bylchau polisi ar gyfer materion newydd. O gofio hyn, mae'r tebygolrwydd y ceir gwrthdaro rhwng dogfennau yn isel, ac mae'n fwy priodol i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau lunio barn gytbwys os oes un yn bodoli.

Yn hyn o beth, rwy'n edrych ymlaen at gyflwyno diwygiad a fydd yn rhoi'r gallu i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau lunio barn gytbwys ar bolisi. Mae'r broses hon o lunio barn gytbwys ar ystyriaethau polisi er mwyn gwneud penderfyniadau ar geisiadau seilwaith wedi'i hen sefydlu, gan gynnwys ar gyfer y cynlluniau hynny a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru o dan y broses ‘Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol’ bresennol.

**Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid i fynd i’r afael â phryderon am yr angen am ddatganiadau polisi seilwaith o dan adran 53 i lenwi bylchau polisi mewn cynlluniau cenedlaethol.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae gennym gyfres gynhwysfawr o bolisïau cenedlaethol ar ffurf Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, y Cynllun Morol, Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol ategol. Mae polisi cynllunio presennol yn darparu dull cyfannol sefydledig lle y rhoddir cyfrif am faterion ac effeithiau lleol gan wneuthurwyr penderfyniadau drwy bwyso a mesur yr ystyriaethau polisi thematig gwahanol fesul achos.

Mae hyn yn darparu'r dull hyblyg a phragmataidd sydd ei angen i alluogi i gynlluniau seilwaith gael eu cyflwyno yn y lleoliadau priodol ledled Cymru. Os caiff unrhyw fylchau eu nodi lle mae angen llunio datganiadau polisi seilwaith yn unol ag arferion safonol, byddwn yn ymgynghori â'r holl randdeiliaid perthnasol.

**Argymhelliad 21. Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i sicrhau bod datganiadau polisi seilwaith yn cael eu hystyried a’u cytuno gan y Senedd.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Bwriedir i'r datganiadau hyn gael eu paratoi o dan amgylchiadau eithriadol lle na ellir diweddaru ein cynlluniau a'n polisïau presennol o fewn y graddfeydd amser gofynnol i gefnogi'r gyfundrefn cydsynio seilwaith newydd. Lle y byddant o bosibl yn cael eu paratoi yn y dyfodol, ni fwriedir iddynt fod yn fesur hirdymor ac yn y pen draw, bydd dogfennau polisi sy'n bodoli yn cael eu diweddaru er mwyn eu cynnwys.

Byddai'r gwaith o baratoi datganiadau polisi yn dilyn llwybr tebyg i'r un a gymerwyd ar gyfer diweddariadau i Bolisi Cynllunio Cymru. O gofio'r angen i ymateb i faterion a datblygiadau newydd mewn technoleg yn gyflym, yn ogystal ag oes fer y dogfennau hyn, nid wyf o'r farn ei bod hi'n briodol gofyn i'r Senedd eu hystyried na'u cymeradwyo.

**Argymhelliad 22. Pan fo Gweinidogion Cymru, yn unol ag adran 124, yn penderfynu dynodi dogfen yn ddatganiad polisi seilwaith at ddiben y Bil, dylai'r Gweinidog hysbysu'r Senedd. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y Senedd wedi ystyried a chytuno ar y ddogfen cyn y gellir gwneud unrhyw ddynodiad o'r fath.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Rwy'n derbyn y dylai Gweinidogion Cymru hysbysu'r Senedd pan fydd datganiad polisi yn cael ei ddynodi. Nid wyf yn derbyn y dylai'r Senedd gytuno ar y datganiadau hyn am y rhesymau a amlinellwyd mewn ymateb i argymhelliad 21.

**Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog gyflwyno diwygiadau i osod amserlen fanwl ar wyneb y Bil am y cyfnod o 52 wythnos i benderfynu ar gais.**

Rwy'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn.

Rwy'n credu bod y pwyllgor yn cydnabod bod angen hyblygrwydd yn yr amserlen ar gyfer penderfynu ar gais, gan eich bod wedi nodi'r angen i ymgynghori ar amserlenni yn argymhelliad 24. Mae'r Bil eisoes yn cynnwys amserlen gyffredinol o 52 wythnos a bydd is-amserlenni yn cael eu gosod mewn is-ddeddfwriaeth.

Nodaf fod y Pwyllgor yn awgrymu pŵer Harri VIII yn argymhelliad 24 i newid yr amserlen yn y dyfodol, gan adlewyrchu Deddf Cynllunio 2008. Fodd bynnag, gellir cyflawni'r un effaith drwy osod is-amserlenni mewn is-ddeddfwriaeth, heb ddefnyddio pŵer Harri VIII.

**Argymhelliad 24. Dylai'r Gweinidog ymgynghori â rhanddeiliaid cyn gynted â phosibl i sicrhau bod yr amserlenni ar wyneb y Bil yn briodol. Os yw hi'n credu, o ganlyniad i'r ymgynghoriad, fod angen eu newid, gellir cyflawni hynny drwy is-ddeddfwriaeth**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Rwy'n derbyn y dylid ymgysylltu â rhanddeiliaid ar is-amserlenni. Nid wyf yn cytuno â'r argymhelliad i osod pŵer Harri VIII newydd yn y Bil pan fo'r amserlen gyffredinol ar gyfer penderfynu ar gais eisoes yn y Bil.

Bydd is-ddeddfwriaeth yn gosod is-amserlenni a bydd yr un lefel o sicrwydd yn cael ei chyflawni.

**Argymhelliad 25. Os yw’r Gweinidog yn penderfynu estyn y cyfnod o 52 wythnos yn unol ag adran 56(2), rhaid i’r Gweinidog hysbysu’r Senedd drwy ddatganiad ysgrifenedig. Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi effaith i hyn.**

Rwy'n cytuno â'r argymhelliad.

Bydd diwygiad i'r perwyl hwn yn cael ei baratoi.

**Argymhelliad 26: Dylai’r Gweinidog nodi’r cymorth a fydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol pan fo angen cymryd camau gorfodi.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad.

Nodaf y pryderon a godwyd gan randdeiliaid yn ystod y sesiynau tystiolaeth a chysylltodd fy swyddogion â'r cyrff hynny er mwyn gallu deall eu pryderon yn well. Gallaf gadarnhau y bydd canllawiau manwl a chadarn ar gael i roi cymorth i awdurdodau cynllunio lleol wrth gymryd unrhyw gamau gorfodi.

**Argymhelliad 27. Dylai’r Gweinidog ystyried a ddylai darpariaethau ar “bwerau clo” neu “padlock powers” fel y’u gelwir mewn perthynas â hysbysiadau stop dros dro gael eu cynnwys yn y Bil.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn ystyried yr angen am bŵer clo mewn perthynas â hysbysiadau stop dros dro.

**Argymhelliad 28. Dylai’r Gweinidog egluro mewn canllawiau ym mha ffyrdd y gall y cyhoedd godi pryderon am ddatblygiad anawdurdodedig.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn sicrhau bod canllawiau yn egluro pryd y gall camau gorfodi fod yn briodol ac yn angenrheidiol, yn ogystal â sut y gall aelodau o'r cyhoedd roi gwybod am unrhyw achosion canfyddedig o fynd yn groes i'r canllawiau i'r awdurdod gorfodi perthnasol.

**Argymhelliad 29: Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y ddadl Cyfnod 1 ar drafodaethau ag ymgyngoreion, awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid eraill ynglyn â sut y gellir adennill costau'n llawn.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Yn ystod dadl Cyfnod 1, rhoddais ddiweddariad i'r Senedd.

Bu trafodaethau yn mynd rhagddynt yn barhaus â'r holl randdeiliaid wrth ddatblygu'r Bil, ac yn ystod Cyfnod 1 o broses graffu'r Senedd. Rwy'n ymrwymedig i adennill costau'n llawn, ac rwy'n rhagweld y bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddarparu gwasanaethau y codir tâl amdanynt. Nid oes gennyf ragor o fanylion am gostau ar hyn o bryd, gan y bydd y rhain yn destun ymgynghoriad ffurfiol, ochr yn ochr ag is-ddeddfwriaeth.

Rwy'n croesawu unrhyw safbwyntiau a allai fod gan randdeiliaid neu aelodau o'r Senedd ar y mater hwn.

**Argymhelliad 30. Dylai'r Gweinidog esbonio ei dealltwriaeth o ystyr prosiect o "sylwedd gwirioneddol" yn adran 122 a lefel y ddirwy y gellir ei rhoi am drosedd o dan yr adran hon.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Er mwyn dangos bod yr ymgeisydd yn 'ystyried prosiect o sylwedd gwirioneddol', gallai'r ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth ganlynol er enghraifft:

- A yw'r ymgeisydd wedi rhoi hysbysiad o dan adran 29 o'r Bil;
- A yw'r ymgeisydd wedi gofyn am Gyngor cyn ymgeisio.
- Manylion ynghylch pa gam yn yr ymgynghoriad cyn ymgeisio y mae'r Ymgeisydd wedi'i gyrraedd ar y prosiect; neu,
- a yw'r ymgeisydd wedi gofyn am broses sgrinio neu farn gwmpasu.

Yn ogystal, er mwyn dangos bod y prosiect arfaethedig yn un y 'mae angen gwirioneddol am gael mynediad i'r tir', dylai'r ymgeisydd esbonio pam y mae angen mynediad. Gall y dystiolaeth y bydd yr ymgeisydd o bosibl am ei darparu i ddangos hyn gynnwys manylion am yr arolygon a'r gwaith arfaethedig.

Nid oes terfyn i faint o ddirwy all gael ei gosod. Fodd bynnag, bydd y canllawiau dedfrydu yn darparu gwybodaeth am lefelau'r ddirwy i'w gosod ar gyfer trosedd benodol.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: JJ-PO-436-2023

Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor
Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

18 Rhagfyr 2023

**Cyhoeddiadau am Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU (UK ETS) Rhagfyr 2023:**

- **Ymgynghoriad am yr Adolygiad o Dyraniadau am Ddim;**
- **Ymgynghoriad am Bolisi ar Farchnadoedd yn y Dyfodol;**
- **Llwybr Hirdymor ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau y DU; ac**
- **Adolygiad o Gynllun Masnachu Allyriadau y DU2023 y DU**

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am hynt Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (UK ETS) ar ôl Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad "Developing the UK ETS", a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf eleni. Ymrwymwyd yn yr ymateb hwnnw i gyfres o ymgyngoriadau er mwyn parhau i ddatblygu'r cynllun.

Heddiw, mae Awdurdod ETS y DU (sy'n cynnwys Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon) wedi cyhoeddi dwy ddogfen ymgynghori: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim; a Pholisi ar Farchnadoedd yn y Dyfodol. Mae'r ymgyngoriadau hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau i weithredu mewn ffordd mor effeithiol â phosibl a'i fod yn annog diwydiant i bontio i sero net. Mae'r Awdurdod hefyd wedi cyhoeddi dwy ddogfen arall: Llwybr Hirdymor ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau y DU ac Adolygiad o Gynllun Masnachu Allyriadau y DU 2023. Mae'r Adolygiad yn asesiad ôl-weithredol o sut mae'r cynllun wedi bod yn gweithio hyd yma. Mae'r Llwybr Hirdymor yn pennu llwybr hirdymor ar gyfer y cynllun, tan 2050.

Yr ymgynghoriad am yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim yw ail gam y broses asesu dyraniadau am ddim, sy'n cael eu defnyddio er mwyn gwarchod diwydiannau'r DU rhag cystadleuwyr byd-eang nad ydynt yn gorfod wynebu trefniadau prisio carbon (dadleoli carbon). Aed ati yn ystod y cam cyntaf i edrych ar elfen o'r brig i lawr y dyraniadau am ddim drwy ailbennu'r cap ar ddiwydiant, gan gyfyngu ar nifer y dyraniadau am ddim a geir o dan y cynllun. Dyna'r elfen o'r brig i lawr a gafodd ei chynnwys yn yr ymgynghoriad "Developing

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

the UK ETS”, y cyhoeddodd y Llywodraeth ymateb iddo ar 3 Gorffennaf. Mae'r ymgynghoriad sy'n cael ei gyhoeddi heddiw yn ystyried y fethodoleg o'r gwaelod i fyny ac yn edrych ar ffyrdd o dargedu dyraniadau am ddim yn well at y rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddadleoli carbon, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi wrth inni bontio i sero net. Bydd yn caniatáu i'r Awdurdod roi sicrwydd i'r rheini sy'n rhan o Gynllun Masnachu Allyriadau y DU am y dyraniadau am ddim y byddant yn eu cael yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i Gymru gan fod rhai o'n diwydiannau, megis y diwydiant dur, yn agored iawn i gystadleuaeth oddi wrth ddiwydiannau byd-eang nad ydynt yn wynebu'r costau sy'n gysylltiedig â phrisio carbon ac sydd, felly, yn anos eu datgarboneiddio. Maent, felly, yn cael lefelau uchel o gymorth ar hyn o bryd drwy ddyraniadau am ddim. Mae'n bwysig nad ydym yn rhoi diwydiant Cymru dan unrhyw anfantais; os na fyddwn yn sicrhau hynny, byddwn yn gweld sefyllfa lle bydd y diwydiannau hynny'n adleoli i wledydd nad oes ganddynt yr un uchelgais o ran yr hinsawdd. Bydd yn arwain hefyd at risg o fwy o allyriadau byd-eang, gan olygu y bydd y broses bontio i sero net yn un annheg.

Nod yr ymgynghoriad am Farchnadoedd yw ailedrych ar bolisi'r Cynllun Masnachu Allyriadau ar Farchnadoedd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ateb y gofyn a'i fod yn effeithiol wrth reoli'r risgiau sy’n wynebu cynllun sefydledig sy'n dal i aeddfedu. Hanfod y cynllun yw sicrhau bod y farchnad yn gweithredu mewn ffordd effeithiol, a bod arwerthu a masnachu lwfansau allyriadau rhwng y rheini sy'n rhan o'r cynllun yn creu'r signal pris carbon a fydd yn sbarduno buddsoddiad mewn datgarboneiddio. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn am y trefniadau a'r dulliau a ddefnyddir er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau i weithredu'n effeithiol.

Llwybr Hirdymor Cynllun Masnachu Allyriadau y DU yw ymateb yr Awdurdod i "Mission Zero: Independent Review of Net Zero", a gadeiriwyd gan Chris Skidmore AS. Er mai Llywodraeth y DU gomisiynodd y adolygiad annibynnol, roedd yn cynnwys argymhellion ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau y DU, gan gynnwys pennu llwybr hirdymor. Cafodd yr adolygiad gymeradwyaeth gref gan bob rhan o'r Awdurdod, o ran pwysigrwydd prisio carbon ac o ran y rôl ganolog y bydd Cynllun Masnachu Allyriadau y DU yn parhau i'w chwarae o ran ein galluogi i ddefnyddio'r farchnad i gyflawni sero net. Felly, mae'r ddogfen a gyhoeddir heddiw yn rhoi sicrwydd y bydd Cynllun Masnachu Allyriadau sy'n gydnaws â chyflawni sero net yn parhau tan o leiaf 2050 ac mae’n cadarnhau'r bwriad i ystyried ffyrdd o ddatblygu ac ehangu'r cynllun yn y dyfodol.

Yn cael ei gyhoeddi heddiw hefyd y mae adolygiad o sut y mae Cynllun Masnachu Allyriadau y DU wedi bod yn gweithio ers iddo gael ei lansio – mae'r adolygiad hwnnw'n bodloni ymrwymiad statudol. Mae'r adolygiad yn tynnu ar ymgyngoriadau blaenorol, ar ddata am y farchnad ac am gydymffurfiaeth, ac ar astudiaeth fonitro a gwerthuso annibynnol a gomisiynwyd gan yr Awdurdod. Mae Adolygiad yn dod i'r casgliad bod Cynllun Masnachu Allyriadau y DU wedi bod yn ateb ei ddiben a'i fod yn parhau'n offeryn polisi allweddol er mwyn cyflawni sero net. Mae hefyd yn cadarnhau ymrwymiadau'r Awdurdod i adeiladu ar y ffordd y mae'r Cynllun yn gweithredu ar hyn o bryd drwy gyflwyno gwelliannau o ran polisi ac o ran sut y mae'n gweithredu.

At ei gilydd, rwyf o'r farn bod Cynllun Masnachu Allyriadau y DU yn parhau’n ysgogiad polisi dylanwadol iawn er mwyn cyflawni sero net yng Nghymru, a'i fod yn blatfform hanfodol er mwyn annog busnesau i fuddsoddi mewn technolegau datgarboneiddio, a'u mabwysiadu. Yn Ymateb y Llywodraeth i “Developing the UK ETS”, gwnaed ymrwymiad hefyd i gynnal rhagor o ymgyngoriadau am ehangu'r cynllun, ac mae'r Awdurdod yn bwriadu eu cyhoeddi nhw maes o law. Byddaf, wrth gwrs, yn ysgrifennu atoch eto pan gânt eu cyhoeddi. Gyda'i gilydd, bydd yr wybodaeth a gesglir yn ein helpu i fireinio'r cynllun, ac yn ein galluogi i greu trefniadau mwy cadarn a fydd yn cymell diwydiant i arloesi, yn sbarduno gostyngiadau mewn allyriadau, ac yn sicrhau dyfodol cydnerth a chynaliadwy i Gymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Llŷr Gruffudd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref qA1762325

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Rhagfyr 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Tachwedd yn gofyn am fwy o wybodaeth am y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), yn dilyn fy ymddangosiad yn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 20 Tachwedd. Rwyf wedi rhoi'r manylion isod.

*1. Gwnaethoch ddweud bod rhai o'r pwerau deddfu yn y Bil wedi'u cwtogi, yn enwedig mewn meysydd lle maent yn ymwneud â chreu troseddau. A allech chi egluro a wnaeth eich ystyriaeth chi o asesiad o'r effaith ar gyfiawnder yn ystod datblygiad y Bil arwain at unrhyw newidiadau i'w ddarpariaethau?*

Ystyriodd yr Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder ar gyfer y Bil ddau faes lle cafodd troseddau eu creu neu eu heffeithio. Roedd hyn yn cynnwys y drosedd newydd a oedd yn rhan o ddarpariaethau sy'n rheoleiddio sut y gall trydydd partïon fynd i wariant a reolir yn ystod cyfnod rheoleiddiedig ac ailddrafftio'r drosedd dylanwad amhriodol i egluro a moderneiddio'r iaith. Rhannwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a oedd yn cytuno â'n hasesiad na fyddai effaith y ddau newid yn cael unrhyw effaith neu effaith ddibwys ar y system gyfiawnder. Ni ystyriwyd unrhyw newidiadau i'r polisi. Byddai unrhyw reoliadau a ddatblygwyd o ganlyniad i'r pwerau rheoleiddio a gynhwysir yn y Bil yn destun Asesiad Effaith ar Gyfiawnder ar wahân ac ymgynghoriad â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, lle rhagwelir y bydd y rheoliadau hynny'n effeithio ar y system gyfiawnder.

*2. Er mai eich bwriad chi yw y bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn cynnal platfform gwybodaeth etholiadau Cymru, gwnaethoch ddweud nad ydych wedi nodi hynny ar wyneb y Bil oherwydd efallai y daw i'r amlwg y dylai corff mwy priodol ymgymryd â'r*

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*swyddogaeth hon. A allech roi enghraifft o gorff o'r fath?*

Rydym o'r farn bod yr EMB yn debygol o fod yn westeiwr naturiol ar gyfer y platfform, fodd bynnag, nid yw'r EMB wedi'i sefydlu eto ac felly dylem gadw mewn cof y posibilrwydd na fydd yr EMB yn gallu cynnal y platfform, neu o well dewis arall yn cael ei nodi. O ystyried y bydd y gwesteiwr yn cael ei nodi yn y rheoliadau a wneir o dan adran 27, mae'n anochel y bydd y Senedd yn ystyried y gwesteiwr pan fydd yn ystyried y rheoliadau hynny.

Mae'r Bil wedi'i ddrafftio i'w gwneud yn glir y byddai Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am sicrhau cynaliadwyedd unrhyw blatfform. Mae lle i westeiwr y platfform gael ei ailystyried yn y dyfodol, gan ystyried yr amgylchedd technolegol sy'n symud yn gyflym, y cyfle i ddysgu gwersi o brofiad, a barn yr EMB ei hun unwaith y bydd wedi'i sefydlu. Mae'r darpariaethau felly'n darparu hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol, yn enwedig gwersi o werthusiadau etholiadau, tra'n sicrhau bod platfform yn cael ei ddarparu.

*3. Mae adran 5(4) yn darparu ar gyfer rheoliadau peilot i adlewyrchu'r darpariaethau cofrestru etholiadol heb geisiadau yn adran 3; fodd bynnag, nid yw gofyniad i beilota adran 3 yn golygu y daw'r adran honno i rym. A allech egluro a wnaethoch ystyried Mick Antoniw AS Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad gwneud y gallu i ddwyn adran 3 i rym yn amodol (er enghraifft, heb fod yn gynharach na phryd y daw o leiaf un peilot perthnasol ddod i ben), ac os felly, pam nad ydych yn gwneud hynny?*

Er fy mod yn credu y bydd treialu cofrestriad awtomatig yn arwain at y system orau bosibl ar gyfer yr etholwr, nid wyf yn credu y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n atal cychwyn adran 3 yn benodol cyn i'r cynlluniau peilot cael eu cwblhau. Rwyf wedi ymrwymo i dreialu cofrestru awtomatig cyn cychwyn adran 3 a byddaf yn sicrhau bod y cynlluniau peilot hyn yn bwrw ymlaen â gwerthusiad llawn a phriodol cyn cyflwyno'r system. Felly, byddai cyfyngiad o'r fath nid yn unig yn ddiangen o ystyried fy ymrwymiad, ond byddai'n canolbwyntio ar gwblhau proses yn hytrach na gwerthusiad trylwyr a fydd yn llywio gweithrediad cofrestru awtomatig.

*4. Mae'n ymddangos y gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer o dan adran 5 i dreialu'r darpariaethau cofrestru diwygiedig a gyflwynir gan adran 3(2); fodd bynnag, mae pŵer dilynol yn adran 8 i newid y pŵer yn adran 5(3). A allech egluro o dan ba amgylchiadau rydych yn rhagweld y pŵer hwnnw yn cael ei ddefnyddio?*

Mae'r pŵer o dan adran 8(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ychwanegu at y rhestr o faterion etholiadol perthnasol yn adran 5(3) neu ddiwygio neu ddileu materion a ychwanegwyd yn flaenorol drwy reoliadau. Pwrpas y pŵer hwn yw caniatáu i faterion nad ydynt yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru neu'r Senedd gael eu treialu o bosibl yn y dyfodol, yn amodol ar y prosesau craffu a gwerthuso a nodir yn y Bil. Dim ond o dan adran 8(1) y caniateir i reoliadau gael eu gwneud yn dilyn cymeradwyaeth y Senedd. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio'r pŵer hwn i newid y system bleidleisio ar gyfer dychwelyd Aelodau Senedd, aelodau prif gyngor, neu aelodau cyngor cymuned.

*5. A allech egluro pam, yn rhinwedd adran 26 o'r Bil, yr ydych yn gwneud darpariaeth i newid y pŵer presennol i wneud rheoliadau yn adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol*

*(Cymru) 2011 i fod yn bŵer i wneud cyfarwyddydau?*

Ar hyn o bryd mae Adran 1 y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i gwestiynau a fformat yr arolwg gael eu nodi mewn rheoliadau. Mewn gwirionedd, mae hyn wedi golygu bod unrhyw newidiadau i'r arolwg, naill ai o ran cyflwyniad neu'r cwestiynau a gynhwysir, wedi golygu defnyddio pwerau rheoleiddio Gweinidogion Cymru. Mae hyn wedi denu beirniadaeth am yr hyblygrwydd i ddiwygio'r arolygon mewn modd amserol a'r dull deddfwriaethol anghymesur y bu'n rhaid ei fabwysiadu ym mhob achos.

Y dull a gynigir drwy'r Bil yw dileu'r gofyniad hwn a galluogi dull mwy hyblyg ac ystwyth o ystyried a phenderfyniadau ynghylch cynnwys a fformat yr arolwg. Mae'r dull hwn wedi cael ei groesawu gan bartneriaid, yn enwedig gan y bydd cwmpas yr arolwg a nodir yn y Mesur yn aros fel ag y mae ar hyn o bryd.

Mae'r Bil yn darparu bod arolygon yn y dyfodol yn cynnwys dwy ran. Y rhan gyntaf fydd cyfres graidd o gwestiynau a fydd yn berthnasol i bob awdurdod lleol yng Nghymru, gan ganiatáu i gymariaethau pwysig gael eu gwneud o ymatebion ar draws pob rhan o Gymru. Byddai'r ail ran yn ôl disgresiwn swyddogion canlyniadau, a all adlewyrchu'r cyd-destun a'r blaenoriaethau lleol.

*6. A allech egluro pa swyddogaethau rydych chi'n rhagweld y byddant yn cael eu rhoi i bersonau neu gategorïau o bersonau drwy reoliadau a wneir o dan adran 27(4), ac a allech chi egluro pam nad yw'r swyddogaethau hynny wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil?*

Bydd y rheolau manwl sy'n sail i lwyfan gwybodaeth etholiadau Cymru yn cael eu nodi mewn rheoliadau a wneir o dan adran 27. Er mai bwriad y Llywodraeth yw y dylai Gweinidogion Cymru fod yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod y platfform yn cael ei sefydlu, bydd cyfranogiad rhanddeiliaid eraill yn hanfodol wrth sicrhau bod y platfform yn gweithredu'n llawn. Mae diben adran 27(4) yn adlewyrchu'r sefyllfa honno: yn ogystal â chael ei ddefnyddio i bennu gwesteiwr gweithredol y platfform, gall hefyd fod yn angenrheidiol ymgorffori elfennau o'r platfform yn elfennau presennol y broses etholiadol. Mae'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn bydd mewn rheoliadau yn sicrhau hyblygrwydd i ystyried y cyd-destun cyfreithiol a thechnolegol sy'n symud yn gyflym, gyda'r craffu priodol ar waith. Mae'r dull cytbwys wedi cael ei groesawu'n benodol gan sefydliadau cymdeithas sifil.

*7. A allech egluro pa swyddogaethau rydych chi'n rhagweld y byddant yn cael eu rhoi i bersonau drwy reoliadau a wneir o dan adran 29(8), ac a allech chi egluro pam nad yw'r swyddogaethau hynny wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil?*

Mae Adran 29 o'r Bil yn darparu bod cynlluniau cymorth ariannol ar gael i grwpiau o bobl a ragnodir mewn rheoliadau sy'n ceisio sefyll am swydd etholedig. Bydd un cynllun o'r fath (adran 29(2)) ar gyfer pobl anabl, gan adeiladu ar y cynllun peilot Mynediad at Gronfa Swyddi Etholedig. Mae adran 29(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cynlluniau eraill o'r fath ar waith pan fo tystiolaeth yn nodi rhwystrau rhag costau ychwanegol a brofir gan unigolion o grŵp penodol o bersonau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n eu hatal rhag sefyll am swydd etholedig.

Mae adran 29(8) yn darparu i Weinidogion Cymru nodi'r trefniadau manwl ar gyfer pob cynllun cymorth ariannol ar wahân gan gynnwys y rhai sydd i weinyddu'r cynllun, cydrannau'r cynllun a'r trefniadau adrodd sy'n ofynnol at ddibenion archwilio. Gan y bydd cynlluniau unigol yn targedu rhwystrau gwahanol rhag cymryd rhan, mae'n briodol bod y manylion wedi'u nodi mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil. Bydd hyn yn galluogi mwy o hyblygrwydd i sicrhau bod manylion pob cynllun yn sail i'w ddiben ac yn galluogi cymryd camau i fynd i'r afael â'r rhwystrau a nodwyd.

*8. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 41 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. O ystyried y gellir defnyddio'r pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, a allech chi egluro pam nad yw'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol?*

Er bod swyddogion wedi gweithio'n agos gyda Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) i sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer cynnal adolygiadau fel y'u cyflwynwyd yn y Bil yn realistig, mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar Weinidogion Cymru i ddiwygio'r cyfnod adolygu (os oes angen) yng ngoleuni profiadau'r Comisiwn wrth gwblhau adolygiadau trefniadau etholiadol ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.

Mae gallu Gweinidogion Cymru i ddefnyddio'r ddarpariaeth gul hon i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol wedi'i gyfyngu i ddiwygio'r cyfnod adolygu. Nid yw'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau Deddf Democratiaeth Llywodraeth Leol (Cymru) 2013, ac mae testun y pŵer yn fanylder cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol ar gyfer cynnal adolygiadau trefniadau etholiadol. Mae cynsail eisoes i Weinidogion Cymru newid y cyfnod adolygu sy'n berthnasol i'r Comisiwn drwy wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol – gweler adrannau 138(6) a 174(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – ac felly rydym o'r farn bod defnyddio'r weithdrefn negyddol yn briodol ac yn gymesur.

*9. Mae'n ymddangos bod pŵer gwneud rheoliadau newydd wedi'i gynnwys yn adran 51 o'r Bil nad yw'n ymddangos yn y tabl o bwerau dirprwyedig yn y Memorandwm Esboniadol. A allech ddisgrifio'r pŵer, sut y bydd yn cael ei ddefnyddio a'r rhesymau dros y weithdrefn a ddewiswyd?*

Ymddiheuraf am yr hepgoriad. Mae adran 51 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r cyfnod adolygu ar gyfer cynnal adolygiadau trefniadau etholiadol cymunedol. Mae'n ddarpariaeth debyg i'r hyn a nodir yn adran 41 y Bil ac yn sicrhau cysondeb o ran dull rhwng y gwahanol fathau o adolygiadau.

Mae diwygio'r cyfnod adolygu ac ail-bennu dyddiad cychwyn cyfnod adolygu yn fanylion technegol a allai fod yn angenrheidiol pe bai tarfu ar raglen adolygu. Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd a allai sbarduno'r defnydd o'r pŵer hwn yn cynnwys argyfwng iechyd cyhoeddus, newid yn y dyddiad ar gyfer etholiadau llywodraeth leol neu i ddarparu mwy o synergedd rhwng y cyfnodau adolygu ar gyfer trefniadau etholiadol prif ardal a chymuned.

Mae gallu Gweinidogion Cymru i ddefnyddio'r ddarpariaeth gul hon i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol yn gyfyngedig i ddiwygio'r cyfnod adolygu. Nid yw'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau Deddf Democratiaeth Llywodraeth Leol (Cymru) 2013, ac mae testun y pŵer yn fanylder cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol ar gyfer cynnal adolygiadau trefniadau etholiadol cymunedol. Mae cynsail eisoes i Weinidogion Cymru newid y cyfnod adolygu sy'n berthnasol i'r Comisiwn drwy wneud

rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol – gweler adrannau 138(6) a 174(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y bwriad yw y bydd y weithdrefn negyddol hefyd yn berthnasol i newidiadau i'r cyfnod adolygu, fel y mae'n berthnasol i'r Comisiwn, mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 41 o'r Bil. Yn unol â hynny, rydym o'r farn bod defnyddio'r weithdrefn negyddol i wneud newidiadau i'r cyfnod adolygu ar gyfer adolygiadau trefniadau etholiadol cymunedol o dan adran 51 o'r Bil hefyd yn briodol ac yn gymesur, o ran gwneud hynny fel arall yn creu anghysondeb lle gellid diwygio'r cyfnod adolygu ar gyfer y Comisiwn gan ddefnyddio'r weithdrefn negyddol ac y byddai'n ofynnol i brif gynghorau ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol. Effaith hynny fyddai gofyn am weithdrefn gwneud rheoliadau manylach i newid y cyfnod adolygu ar gyfer adolygiadau trefniadau etholiadol cymunedol nag a fyddai'n ofynnol ar gyfer adolygiadau prif drefniadau etholiadol ardal.

*10. Gwnaethoch ddweud hefyd eich bod yn bwriadu gwella hygyrchedd y gyfraith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig. A allech egluro pam fod darpariaethau mewn perthynas ag anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd wedi'u cynnwys yn y Bil hwn, yn hytrach nag o fewn Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)?*

Wrth ddatblygu a pharatoi Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ystyriodd Llywodraeth Cymru, a'u partneriaid Cytundeb Cydweithredu ym Mhlaid Cymru, nifer o bolisïau a oedd yn ymwneud ag argymhellion gwreiddiol y Pwyllgor Diben Arbennig, ond nad oedd eu hunain yn argymhellion penodol i'r pwyllgor. Roedd hyn yn cynnwys y gwaharddiad sy'n gysylltiedig â phreswyliaeth. Mae'r darpariaethau anghymhwyso yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn rhan o becyn o ddiwygiadau yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o bapur gwyn (Ymgynghoriad Papur Gwyn ar weinyddiaeth etholiadol a diwygio). Mae gan ddiwygiadau o'r fath oblygiadau penodol hefyd i Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned. Nid oedd hyn yn cynnwys anghymhwysiad sy'n gysylltiedig â phreswylio.

Yn unol â hynny, ystyriwyd yn fwy priodol i'r anghymwysterau hyn gael sylw ar wahân, drwy'r ddau Fil. Mae'r ddau Fil yn cyflawni eu polisïau unigol drwy ddiwygio'r drefn anghymwyso bresennol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd hyn yn golygu, os bydd y Biliau yn cael eu deddfu, y bydd un drefn anghymhwyso o hyd gan sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau i fod yn hygyrch.

Yn ystod y drafodaeth, gofynnwyd i mi hefyd gadarnhau'r sefyllfa mewn perthynas â'r dull a'r broses o gyfrif mewn etholiad yng Nghymru, o gyfri â llaw i gyfrif electronig. Gallaf gadarnhau y gellir gwneud hyn drwy is-ddeddfwriaeth. Ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol Cymru, mae hyn yn cael ei alluogi drwy adran 36A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Ar gyfer Etholiadau'r Senedd, caiff hyn ei alluogi drwy adrannau 13 a 157 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn wedi ymateb yn ddigonol i'ch ymholiadau, ac edrychaf ymlaen at dderbyn adroddiad y Pwyllgor ar y Bil maes o law.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

28 Tachwedd 2023

Annwyl Mick,

Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 20 Tachwedd i roi tystiolaeth ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). I gynorthwyo â'n gwaith craffu ar y Bil, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am rai materion.

1. Gwnaethoch ddweud bod rhai o'r pwerau deddfu yn y Bil wedi'u cwtogi, yn enwedig mewn meysydd lle maent yn ymwneud â chreu troseddau. A allech chi egluro a wnaeth eich ystyriaeth chi o asesiad o'r effaith ar gyfiawnder yn ystod datblygiad y Bil arwain at unrhyw newidiadau i'w ddarpariaethau?

2. Er mai eich bwriad chi yw y bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn cynnal platfform gwybodaeth etholiadau Cymru, gwnaethoch ddweud nad ydych wedi nodi hynny ar wyneb y Bil oherwydd efallai y daw i'r amlwg y dylai corff mwy priodol ymgymryd â'r swyddogaeth hon. A allech roi enghraifft o gorff o'r fath?

3. Mae adran 5(4) yn darparu ar gyfer rheoliadau peilot i adlewyrchu'r darpariaethau cofrestru etholiadol heb geisiadau yn adran 3; fodd bynnag, nid yw gofyniad i beilota adran 3 yn golygu y daw'r adran honno i rym. A allech egluro a wnaethoch ystyried



Senedd Cymru
Welsh Parliament

gwneud y gallu i ddwyn adran 3 i rym yn amodol (er enghraifft, heb fod yn gynharach na phryd y daw o leiaf un peilot perthnasol ddod i ben), ac os felly, pam nad ydych yn gwneud hynny?

4. Mae'n ymddangos y gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer o dan adran 5 i dreialu'r darpariaethau cofrestru diwygiedig a gyflwynir gan adran 3(2); fodd bynnag, mae pŵer dilynol yn adran 8 i newid y pŵer yn adran 5(3). A allech egluro o dan ba amgylchiadau rydych yn rhagweld y pŵer hwnnw yn cael ei ddefnyddio?

5. A allech egluro pam, yn rhinwedd adran 26 o'r Bil, yr ydych yn gwneud darpariaeth i newid y pŵer presennol i wneud rheoliadau yn adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i fod yn bŵer i wneud cyfarwyddydau?

6. A allech egluro pa swyddogaethau rydych chi'n rhagweld y byddant yn cael eu rhoi i bersonau neu gategorïau o bersonau drwy reoliadau a wneir o dan adran 27(4), ac a allech chi egluro pam nad yw'r swyddogaethau hynny wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil?

7. A allech egluro pa swyddogaethau rydych chi'n rhagweld y byddant yn cael eu rhoi i bersonau drwy reoliadau a wneir o dan adran 29(8), ac a allech chi egluro pam nad yw'r swyddogaethau hynny wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil?

8. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 41 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. O ystyried y gellir defnyddio'r pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, a allech chi egluro pam nad yw'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol?

9. Mae'n ymddangos bod pŵer gwneud rheoliadau newydd wedi'i gynnwys yn adran 51 o'r Bil nad yw'n ymddangos yn y tabl o bwerau dirprwyedig yn y Memorandwm Esboniadol. A allech ddisgrifio'r pŵer, sut y bydd yn cael ei ddefnyddio a'r rhesymau dros y weithdrefn a ddewiswyd?

10. Gwnaethoch ddweud hefyd eich bod yn bwriadu gwella hygyrchedd y gyfraith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig. A allech egluro pam fod darpariaethau mewn perthynas ag anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd wedi'u cynnwys yn y Bil hwn, yn hytrach nag o fewn Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)?

Yn ystod y sesiwn fe gytunoch hefyd i ddarparu nodyn yn amlinellu pwerau presennol Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth i ddarparu ar gyfer cyfrif pleidleisiau yn electronig mewn etholiadau datganoledig.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn 19 Rhagfyr 2023.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

E-bost: seneddDCC@senedd.cymru

19 Rhagfyr 2023

Annwyl Huw,

Hoffwn ddiolch i swyddogion eich Pwyllgor am dynnu ein sylw at y ffaith nad oedd ymateb wedi'i dderbyn i lythyr oddi wrthoch ym mis Medi 2022. Hoffwn ymddiheuro am y ffaith nad oedd ymateb wedi eich cyrraedd; amlinellir isod ymateb, a gafodd ei ddrafftio'n wreiddiol ar y pryd, i'r pwyntiau a godwyd yn eich llythyr.

**1. A allech chi ddarparu rhagor o wybodaeth am y newidiadau y byddai'r Rheoliadau yn eu gwneud i'r eithriadau yn Neddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (UKIMA), a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar swyddogaethau datganoledig a gallu'r Senedd i ddeddfu?**

Fel y crybwyllwyd yn fy llythyr dyddiedig 22 Awst, effaith y Rheoliadau hyn yw diwygio Atodlen 2 (Gwasanaethau sydd wedi'u heithrio) i Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020. Mae'r rheoliadau yn:

- Newid geiriad y gwasanaethau cymdeithasol presennol sydd wedi'u heithrio i egluro'r cwmpas;
- Ychwanegu eithriadau newydd i Ran 1 (cydnabyddiaeth gilyddol) ar gyfer gwasanaethau nwy, trydan, cyflenwi dŵr a charthffosiaeth, gwasanaethau'r sector gwastraff, gwasanaethau dyfarnu cymwysterau a gwasanaethau rhwydwaith gwres; a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Chael gwared ar eithriadau presennol ar gyfer gwasanaethau ariannol, gwasanaethau post, gwasanaethau cyfathrebu electronig, gwasanaethau asiantaethau gwaith dros dro, a gwasanaethau archwilydd statudol o'r mannau lle maent ym ymddangos yn Rhan 1 (cydnabyddiaeth gilyddol) a Rhan 2 (heb wahaniaethu).

Nid yw'r bwriad i gael gwared ar eithriadau presennol (er enghraifft gwasanaethau post, gwasanaethau ariannol) yn ymwneud â materion datganoledig ac nid oes effaith uniongyrchol ar gymhwysedd datganoledig .

**2. A allwch chi egluro pam na wnaethoch chi ymgysylltu ag Aelodau cyn gwneud y penderfyniad i gydsynio?**

Ar yr adeg pan ddaeth y cais am gydsyniad atom, nid oedd digon o amser i ymgysylltu ag aelodau'r Senedd gan fod Llywodraeth y DU yn bwriadu gosod y rheoliadau ym mis Gorffennaf y flwyddyn honno. Fodd bynnag, ceisiais roi gwybod i chi ar y cyfle cyntaf fy mod wedi cydsynio. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y Senedd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf, ond y tro hwn, roedd amgylchiadau anarferol oherwydd yr amserlen dynn.

**3. Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Yr Alban wedi defnyddio'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU i geisio eithriadau o Ddeddf 2020. A wnaeth Llywodraeth Cymru ymateb i'r ymgynghoriad hwn neu ydych chi o'r farn ei fod yn lwybr i geisio eithriadau o'r Ddeddf?**

Gwnaeth Llywodraeth y DU ymgynghori â ni yn ystod ei hymgynghoriad i geisio eithriadau o'r UKIMA. Yn hytrach na chynnig ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad, fe wnaethom drafod yn helaeth â swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru ac ni phennwyd unrhyw feysydd i'w heithrio. Mae hyn yn cyd-fynd â'n safbwynt nad yw Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 yn cyfyngu ar allu'r Senedd i ddeddfu. Gwnaeth Llywodraeth y DU gadarnhau eu bod wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid yng Nghymru ynghylch eu hymgynghoriad.

**4. Ar adeg cyhoeddi'r llythyr hwn nid yw'r Rheoliadau wedi'u gwneud eto. A allech chi roi gwybod i Aelodau'r Pwyllgor a Senedd Cymru pryd fydd y Rheoliadau'n cael eu gwneud?**

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ar 20 Gorffennaf 2023.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

22 Medi 2022

Annwyl Vaughan,

Rheoliadau 2022 Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Eithriadau o Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Awst lle gwnaethoch gadarnhau eich bod wedi rhoi eich cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol wneud Rheoliadau 2022 (y Rheoliadau) Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Eithriadau o Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad).

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am eglurhad ynghylch nifer o faterion. Byddem yn gwerthfawrogi cael eich ymateb i'r cwestiynau a ganlyn erbyn 29 Medi 2022:

1. A allech roi rhagor o wybodaeth am y newidiadau y byddai'r Rheoliadau yn eu gwneud i'r eithriadau yn Neddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar swyddogaethau datganoledig a gallu'r Senedd i ddeddfu?

2. A allwch chi egluro pam na wnaethoch ymgysylltu â'r Aelodau cyn gwneud y penderfyniad i gydsynio?

3. Mae'n ymddangos bod Llywodraeth yr Alban wedi defnyddio'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU i geisio eithriadau o Ddeddf 2020. A ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad hwn neu a ystyriodd ei fod yn llwybr i geisio eithriadau o'r Ddeddf?

4. Ar adeg cyhoeddi'r llythyr hwn nid yw'r Rheoliadau wedi'u gwneud eto. A allech hysbysu’r Pwyllgor ac Aelodau o’r Senedd pan fydd y Rheoliadau’n cael eu gwneud?

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Department for Levelling Up, Housing & Communities

**Rt Hon Michael Gove MP**
*Secretary of State for Levelling up, Housing & Communities*
*Minister for Intergovernmental Relations*
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Clare Adamson MSP
Convener, Constitution, Europe, External Affairs and Culture Committee

19th December 2023

Dear Clare,

Thank you for your letter of 7 November 2023, following the 27 October meeting of the Inter-Parliamentary Forum.

As you know, Common Frameworks are jointly agreed ways of working, and no one government is in a position to respond to a recommendation for a change to the programme without the consensus of all parties. My officials have therefore engaged with devolved administration officials regarding the position set out below.

I share the view that mutual transparency between Government and the devolved administrations is crucial to both sound intergovernmental working and for effective scrutiny of intergovernmental working. As you observe, the management of the regulatory picture across the UK needs good intergovernmental working, given that a substantial part of the regulatory portfolio is within devolved competence. This is exactly why the Common Frameworks programme is so important, and why I am both so pleased to see, and encourage, the embedding of the programme across the four governments, in my capacity as Minister for Intergovernmental Relations.

In terms of Common Frameworks reporting, the agreed annual reporting for fully implemented Frameworks will provide a key tool for enabling the scrutiny of the programme by both legislatures and indeed the Inter-Ministerial Standing Committee. The second report for the Hazardous Substances Common Framework will be issued in due course. Furthermore, almost all Common Frameworks will be reviewed on their first year of full operation, and most review reports (including any plans for amending a Common Framework) will be shared with the legislatures.

Any decision to report to legislatures on the provisional Common Frameworks would require the agreement of constitutional ministers in the Government and the devolved administrations. This was the case previously when agreement was reached for annual reporting on fully implemented Frameworks. As you are aware, however, the Northern Ireland Executive is not currently in a position to provide this. Though Common Frameworks have been operating provisionally for some time, my department is currently conducting an evaluation of the entire programme, which is likely to be published in the Spring. This has involved significant input from both the relevant Government and devolved administrations departments, which would be duplicated by a further request for reporting. It is preferable to focus current resources on further embedding Frameworks into business as usual policy decision-making within the four governments. This does not, however, preclude individual administrations updating their

respective legislatures on the operations of individual Frameworks where required through the usual processes.

The Government is working closely with the Northern Ireland Civil Service and relevant partners to deliver the return of the Northern Ireland Executive. Officials have been working to ensure that Common Frameworks that have been scrutinised in all legislatures are able to be provided to the Executive (and other governments) for final agreement as soon as that happens. Once that has occurred the reporting period will commence, and reports will be provided after that twelve month period expires.

With every good wish,

Yours, Michael

**RT HON MICHAEL GOVE MP**
Secretary of State for Levelling Up, Housing & Communities
Minister for Intergovernmental Relations

The Scottish Parliament
Pàrlamaid na h-Alba

Rt. Hon Michael Gove MP,
Secretary of State and Minister for
Intergovernmental Relations

The Scottish Parliament
EDINBURGH
EH99 1SP

By email

CEEAC.Committee@parliament.scot

7th November 2023

Dear Secretary of State,

**Common Frameworks Reporting**

The Interparliamentary Forum held its fourth meeting in the Scottish Parliament on 27th October and we agreed the statement published here: aaa.pdf (parliament.scot)

We discussed on-going challenges of intergovernmental relations including operation of the UK Internal Market Act, and the scrutiny of intergovernmental working. We noted the increased need for effective intergovernmental working in managing the regulatory environment across the UK outside of the EU continues to raise substantial challenges in reaching agreement between the governments of the UK

We further note that while there has been some progress in addressing these challenges through increased transparency in the reporting of intergovernmental activity, there remain a number of scrutiny gaps. Across each of our legislatures, concerns have been raised in relation to the transparency and future scrutiny of Common Frameworks.

We recognise there is an existing intergovernmental agreement to provide an annual report for each Framework once these have been fully implemented. However, only one Framework has been fully agreed and there has been no reporting on the operation of the other Frameworks.

We agreed to write to you (cc'd to the Cabinet Secretary for the Constitution, External Affairs and Culture and the Counsel General and Minister for the Constitution) requesting that annual reports be provided on provisional Frameworks in addition to those fully agreed.

We would welcome a response by 1 February 2024 which we will consider at the next meeting of the Forum.

Yours sincerely



Clare Adamson MSP, Convener of the Constitution, Europe, External Affairs and Culture Committee

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

E-bost - Llywydd@senedd.cymru

22 Rhagfyr 2023

Annwyl Elin,

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Dioddefwyr a Charcharorion i Dŷ'r Cyffredin ar 29 Mawrth 2023. Daeth hynt y Bil drwy Dŷ'r Cyffredin i ben ar 4 Rhagfyr 2023 a bydd yn symud i Gyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 24 Ionawr 2024.

Pan gafodd y Bil ei gyflwyno, roedd yn cynnwys ystod eang o fesurau gan gynnwys gosod y Cod Dioddefwyr ar sail statudol, cyhoeddi canllawiau mewn perthynas â Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol, yn ogystal â chyflwyno rôl Eiriolwyr Cyhoeddus Annibynnol. Ystyriwyd bod y mesurau hyn o fewn cymhwysedd y Senedd a gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 19 Mai 2023 yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch y darpariaethau hyn.

Mae fy swyddogion wedi bod yn ymwneud â swyddogion y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder drwy gydol hynt y Bil ac wedi bod yn monitro'r gwelliannau. Yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin, cyflwynwyd a derbyniwyd 151 o welliannau llywodraethol ac anllywodraethol. Dim ond ar ôl eu cyflwyno y cafodd swyddogion weld y gwelliannau i'r Bil. Er bod fy swyddogion wedi parhau i ystyried a yw'r gwelliannau hyn o fewn cymhwysedd y Senedd neu a ydynt yn newid yn sylweddol y cyngor a nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 19 Mai, nid yw wedi bod yn bosibl dadansoddi'r rhain na gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn y cyfnod o bythefnos a nodir yn y Rheolau Sefydlog.

Yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, disgwylir y bydd gwelliannau pellach yn cael eu gwneud i'r Bil gan gynnwys gwelliannau posibl gan y Llywodraeth i addasu neu wrthdroi'r gwelliant anllywodraethol a dderbyniwyd yn flaenorol sy'n ymwneud â'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig. Rydym hefyd yn parhau i drafod â Llywodraeth y DU ynghylch y materion a oedd gynt yn ddarostyngedig i femoranda cydsyniad deddfwriaethol fel y nodir uchod. Rydym yn disgwyl rhagor o welliannau ar rai o'r materion hynny yn ystod y Cyfnod Pwyllgor.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf felly yn disgwyl gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol pellach ynghylch y Bil yn dilyn Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, gan nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ar welliannau perthnasol cyn y ddadl ddisgwyliedig ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Gan ystyried yr amserlenni, bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol hwnnw hefyd yn ymdrin ag unrhyw welliannau perthnasol sydd wedi'u gwneud yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Ein disgwyliad ar hyn o bryd yw i'r ddadl ar y cynnig cydsyniad gael ei chynnal ddiwedd mis Chwefror.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS.

Yn gywir,

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rt Hon Jacob Young MP
Minister for Levelling Up

PSJacobYoung@levellingup.gov.uk

22 December 2023

Dear Jacob

I am writing in response to your letter of 27 November 2023.

We remain of the view that the ground covered by 'levelling-up' is substantially devolved and actions by the UK Government to deliver on these missions creates confusion and inefficiency. In Wales we already have a comprehensive legislative framework for long-term systemic policy making through the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. We have a set of seven long-term wellbeing goals that provide a legally binding common purpose not just for Government but 47 other public bodies serving communities across Wales. The Welsh Government has set out its detailed objectives for improving the economic, social, environmental and cultural well-being of Wales in our Programme for Government.

We continue to believe that the UK Government should pass on to the Welsh Government resources available for devolved responsibilities which you have aimed to deliver through the Shared Prosperity, Levelling Up funds and smaller schemes like the Long term Plan for Towns. Your refusal to do so has led, we believe, to an ineffective and wasteful approach.

It is unfortunate that the UK Government persists in using the UK Internal Market Act to by-pass devolved governments and the scrutiny of our legislatures to spend directly in devolved areas of responsibility. This has created duplication, poor value for money and a confused funding landscape which fails to meet the distinct needs of Welsh communities.

I would draw your attention to the reports of the relevant Senedd Committee's on the Levelling-up and Regeneration Bill, in particular the report of the Legislation, Justice and Constitution Committee and their recommendations on Part 1 Levelling-up Missions. I have copied this letter to the Chair of the Legislation, Justice and Constitution Committee given their continued interest in the implementation of Part 1 and its affect on Wales.

Yours sincerely

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Department for Business & Trade

**Kevin Hollinrake MP**
**Parliamentary Under Secretary of State**
**Department for Business and Trade**

Old Admiralty Building
Admiralty Place
London
SW1A 2DY
United Kingdom

Huw Irranca-Davies
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

T: +44 (0) 020 4551 0011
E: Hollinrake.Correspondence@businessandtrade.gov.uk
W: www.gov.uk

Our ref: MCB2023/06590

January 2nd 2024

Dear Huw,

Thank you for your correspondence of 1st November to Defra Ministers, regarding consent procedures between the UK and Welsh Governments on statutory instruments made under the Retained EU Law (Revocation and Reform) Act 2023. I am responding because of my role leading the REUL SI programme.

I can address your committee's first three questions together. Last year in May, the Secretary of State for Business and Trade and the Minister for Intergovernmental Relations wrote to the Counsel General to confirm that UK Government Ministers did not normally intend to use the powers under the REUL Act in devolved areas without the agreement of the Welsh Government. They added that where a UK Minister intends to exercise the powers in devolved areas, agreement would be sought via exchange of letters. This commitment covered all UK Ministers, and as such there is no need for departmental specific arrangements, although the Brexit Opportunities Unit (Now the Smarter Regulation Directorate) have made sure all departments are aware of this commitment and the process for meeting it.

On questions four and five raised by your committee, I should like to emphasise that the UK Government remains committed to the devolution settlement and, although the Sewel Convention and related procedures and practices only apply to primary legislation, we take seriously any commitments to seek the agreement of the Welsh Government.

Given the close working between our respective officials on the content of SIs before ministers are approached for consent, we hope that the Welsh Government will usually feel able to provide agreement to SIs when this is sought.

However, in the unlikely event that such agreement is not reached, our first port of call would be to understand the reasons why, and to explore alternative ways forward together.

This letter is also copied to Lord Benyon, Rebecca Pow MP, the Secretary of State for Wales and the Minister for Intergovernmental Relations.

Yours sincerely,

**Kevin Hollinrake**
Parliamentary Under Secretary of State (Minister for Enterprise, Markets and Small Business) at the Department for Business and Trade

Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Seacole Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

T 03459 335577
defra.helpline@defra.gov.uk
www.gov.uk/defra

Huw Irranca-Davies

seneddLJC@senedd.wales

Our ref: PO2023/21461/SW

14 December 2023

Dear Huw Irranca-Davies,

Thank you for your email of 1 November 2023 to Rebecca Pow MP and the Rt Hon Lord Benyon, about the Retained EU Law (Revocation and Reform) Act 2023. I apologise for the delay in responding.

The issues you have raised fall within the responsibility of Department for Business and Trade. We have therefore, transferred your letter to the DBT Correspondence Section, for the department to reply to you directly.

If you wish to contact the Department directly you can find their contact details here: https://www.gov.uk

Yours sincerely,

Sharon Watkins
Ministerial Contact Unit



disability confident LEADER

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
–
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
–
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon,
Gweinidog Gwladol (Gweinidog dros Fioddiogelwch a Materion Morol a Gwledig)
Rebecca Pow AS,
Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (y Gweinidog dros Ansawdd a Chadernid Amgylcheddol)

1 Tachwedd 2023

Annwyl gyfeillion,

Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn monitro materion sy'n berthnasol i ddatganoli yng Nghymru a materion cyfansoddiadol ac allanol sy'n cael effaith ar ddatganoli yng Nghymru.

Rydym wedi monitro gwaith craffu a phasio Senedd y DU yn agos o ran Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) – sef Ddeddf 2023 bellach - ac, ochr yn ochr â hynny, rydym wedi ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil.

O dan delerau cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol sydd gennym ar waith gyda Llywodraeth Cymru, yn ystod yr wythnosau diwethaf rydym wedi cael gohebiaeth sydd wedi ein hysbysu eich bod wedi ysgrifennu at Weinidogion Cymru yn gofyn am eu caniatâd ar wahân cyn i Reoliadau gael eu gwneud, gan gwmpasu meysydd datganoledig, o dan bwerau yn Neddf 2023.

Ar 1 Medi 2023, ysgrifennodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, atom mewn perthynas â'r Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon, y Gweinidog dros Fioddiogelwch, a Materion Morol a Gwledig, yn gofyn am gydsyniad ar gyfer gwneud Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio (Diwygio) 2023. Ysgrifennom at y Gweinidog Newid Hinsawdd ar 15 Medi gyda chyfres o gwestiynau, a chawsom ei hymateb ar 27 Medi.

Ar 13 Medi 2023, ysgrifennodd Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd atom ynglŷn â Rebecca Pow AS, y Gweinidog dros Ansawdd a Chadernid Amgylcheddol, yn gofyn am gydsyniad ar gyfer gwneud Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygiadau

Amrywiol) 2023. Ysgrifennom at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar 22 Medi gyda chyfres o gwestiynau, a chawsom ei hymateb ar 3 Hydref.

Efallai eich bod yn gwerthfawrogi mai un o'r rhesymau dros ein diddordeb yn y materion hyn yw nad yw Deddf 2023 yn cynnwys unrhyw ofyniad i Weinidogion y DU, wrth arfer eu pwerau o dan Ddeddf 2023, ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru os ac wrth wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig Gweinidogion Cymru fel y'i diffinnir gan baragraff 2(3) o Atodlen 4 i Ddeddf 2023.


Mewn llythyr atom ar 12 Hydref 2023, yn dilyn ein cais am ragor o wybodaeth, dywedodd Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, wrthym: "Nid yw Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig wedi cytuno ar unrhyw fecanwaith ynghylch sut y dylid cael cydsyniad mewn perthynas â Gweinidogion y DU yn gwneud rheoliadau gan ddefnyddio pwerau yn Neddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023".

O ystyried bod y llythyrau gan y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd yn ymddangos fel enghreifftiau o broses ceisio cydsyniad rhwng Gweinidogion y DU yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) a Gweinidogion perthnasol Cymru, byddem yn croesawu eglurder ac unrhyw fanylion y gallech eu darparu o'ch safbwynt chi fel Gweinidogion DEFRA.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb i'r cwestiynau rydym yn eu holi yn yr atodiad i'r llythyr hwn erbyn 21 Tachwedd 2023.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Atodiad

1. A ydych chi, fel Gweinidogion yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), wedi ymrwymo i gytundeb lleol a/neu drefniant gydag adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru ynghylch telerau pryd a sut y byddwch yn ymgysylltu â Gweinidogion Cymru ac yn gofyn am gydsyniad anffurfiol ganddynt cyn gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf 2023?

2. Os oes cytundeb a/neu drefniant penodol i DEFRA ar waith gydag adrannau Llywodraeth Cymru, a fyddech cystal â rhoi'r manylion penodol i ni?

3. Ydych chi'n ymwybodol bod unrhyw adrannau eraill Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gytundebau a/neu drefniadau tebyg gyda Llywodraeth Cymru?

4. Yn ei llythyr atom ar 27 Medi 2023, mewn perthynas â Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio (Diwygio) 2023, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd "Pe bai Gweinidogion Cymru wedi gwrthod cydsynio, neu heb gadarnhau eu penderfyniad yn yr amserlenni y gofynnwyd amdanynt, ni fyddai'r Rheoliadau wedi'u gosod gerbron Senedd y DU." Gallai hyn gael ei ddehongli fel pŵer feto gan Weinidogion Cymru ynghylch a yw Gweinidogion y DU yn bwrw ymlaen â'u bwriadau rheoleiddio. Beth yw eich barn ar y mater hwn ac, yn benodol, ai dyma eich dealltwriaeth chi o'r telerau y gofynnoch chi am gydsyniad i wneud y Rheoliadau hyn?

5. Yn ei llythyr atom ar 3 Hydref 2023, mewn perthynas â Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) 2023, dywedodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, "Er nad oes gofyniad cyfreithiol i ofyn am gydsyniad, mae Llywodraeth y DU wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru yn unol â'r confensiwn ar ddeddfu mewn meysydd datganoledig." Mae'n ymddangos bod hyn yn cymhwyso telerau Confensiwn Sewel i wneud is-ddeddfwriaeth. Beth yw eich barn ar y mater hwn ac, yn benodol, ai dyma eich dealltwriaeth chi o'r telerau y gofynnoch chi am gydsyniad i wneud y Rheoliadau hyn?


Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/3095/23

Huw Irranca-Davies MS
Chair
Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales

02 Ionawr 2024

Annwyl Huw,

**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor).**

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am eu hamser wrth ystyried y materion cymhleth dan sylw ac am lunio adroddiad cwbl gynhwysfawr ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor).

Rwy'n falch o weld bod argymhellion y Pwyllgor yn cyd-fynd â'n cynigion ni. Byddaf yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU ynghylch y materion sy'n ymwneud â chysondeb y Bil â chyfraith ryngwladol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sydd o bwys sylweddol.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 10

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 11

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/CG/2145/23

Huw Irranca-Davies, AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

11 fed Rhagfyr 2023

Annwyl Huw,

Yn dilyn cyflwyno **Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)** a **Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)** i'r Senedd, gweler ynghlwm copi atodol o gyd-atodlen o welliannau ar gyfer y ddau Fil.

Lluniwyd y ddogfen i fynd i'r afael â sylwadau a wnaed gan y pwyllgor ar y ddau Fil yn ystod craffu Cyfnod 1, ac i gynorthwyo dealltwriaeth y Pwyllgor o gyd-effeithiau'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (yn amodol ar eu deddfiad) ar y darnau canlynol o ddeddfwriaeth:

- Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000;
- Deddf Llywodraeth Cymru 2006;
- Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013; a
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r ddogfen hon ond yn ymdrin â deddfwriaeth a fyddai'n cael ei diwygio gan y ddau Fil (pe baent yn cael eu deddfu). Ar gyfer deddfwriaeth a fyddai'n cael ei diwygio gan un o'r biliau (pe bai'n cael ei ddeddfu), cyfeiriwch at y memorandwm esboniadol ar wahân.

Bydd yr atodlen hon yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen yn ystod taith y ddeddfwriaeth.

Rwyf hefyd yn copio'r llythyr hwn at gadeiryddion y Pwyllgor Biliau Diwygio a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution